



Gyda'n gilydd
byddwn yn
rhoi terfyn ar
ddigartrefedd

Y monitor digartrefedd: Cymru 2017

**Suzanne Fitzpatrick, Hal Pawson, Glen Bramley, Steve Wilcox,
Beth Watts a Jenny Wood**, Sefydliad Ymchwil Polisi Cymdeithasol,
Tai a Chydraddoldebau (I-SPHERE), Prifysgol Heriot-Watt; Canolfan
Ymchwil Dyfodol Dinasoedd, Prifysgol New South Wales

Medi 2017



Y monitor digartrefedd

Astudiaeth hydredol yw'r monitor digartrefedd, ac mae'n darparu dadansoddiad annibynnol o effaith datblygiadau economaidd a datblygiadau polisi diweddar ar ddigartrefedd ledled y Deyrnas Unedig. Y prif feysydd o ddiddordeb yw goblygiadau'r dirwasgiad economaidd ers 2007, a'r broses o wella ohono, i ddigartrefedd, ynghyd â goblygiadau diwygio lles a thoriadau. Cynhyrchir adroddiadau ar wahân ar gyfer pob un o wledydd Prydain. Eleni, mae adroddiad Cymru yn monitro effaith y gwelliant economaidd araf, ac effeithiau diwygio lles a thai, ar ddigartrefedd ac yn dadansoddi tueddiadau allweddol o'r cyfrif sylfaenol o ddigartrefedd a sefydlwyd yn 2012 hyd at 2017. Mae hefyd yn tynnu sylw at dueddiadau newydd ac yn rhagweld rhai o'r newidiadau tebygol, gan nodi pa ddatblygiadau sy'n debygol o gael yr effeithiau mwyaf ar ddigartrefedd yng Nghymru.

Y monitor digartrefedd: Cymru 2017

Suzanne Fitzpatrick, Hal Pawson, Glen Bramley, Steve Wilcox, Beth Watts a Jenny Wood, Sefydliad Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Tai a Chydraddoldebau (I-SPHERE), Prifysgol Heriot-Watt; Canolfan Ymchwil Dyfodol Dinasoedd, Prifysgol New South Wales

Medi 2017

Ynglŷn â Crisis UK

Crisis yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl ddigartref.

Rydym yn helpu pobl allan o ddigartrefedd, ac yn ymgyrchu ar gyfer y newidiadau sydd eu hangen i'w ddatrys yn gyfan gwbl.

Fe wyddon ni y gallwn roi diwedd ar ddigartrefedd gyda'n gilydd

Ynglŷn â'r awduron

Mae'r Athro Suzanne Fitzpatrick, yr Athro Glen Bramley, Dr Beth Watts a Dr Jenny Wood i gyd wedi'u lleoli yn y Sefydliad Ymchwil Polisi Cymdeithasol, Tai a Chydraddoldebau (I-SPHERE), Prifysgol Heriot-Watt. Mae'r Athro Hal Pawson wedi'i lleoli yn y Ganolfan Ymchwil Dyfodol Dinasoedd, Prifysgol New South Wales. Mae Steve Wilcox yn gyn Athro yn y Ganolfan Polisi Tai, Prifysgol Caerefrog.

Prif swyddfa Crisis

66 Commercial Street
Llundain E1 6LT

Ffôn: 0300 636 1967

Ffacs: 0300 636 2012

enquiries@crisis.org.uk

www.crisis.org.uk

Hawlfraint Crisis 2017

ISBN 978-1-78519-046-9

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis).

Rhifau Cofrestru'r Elusen:

E&W1082947, SC040094.

Rhif y Cwmni: 4024938

Cydnabyddiaethau

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Crisis ac fe'i ariannwyd gan Crisis a Sefydliad Joseph Rowntree (JRF), ac rydym yn diolch i Francesca Albanese, Ben Sanders, Matt Downie a Ligia Teixeira yn Crisis, a Brian Robson ac Emma Stone yn JRF, am eu holl gymorth â'r gwaith hwn. Hoffem hefyd gofnodi ein diolch i Lywodraeth Cymru am fod mor hael â chynorthwyo i ddosbarthu'r arolwg ar-lein i gysylltiadau awdurdodau lleol perthnasol. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i Dr Pete Mackie, Dr Anya Ahmed a Geoff Marlow am eu sylwadau am offeryn yr arolwg a/neu ddrafftiau cynharach o'r adroddiad hwn. Rydym hefyd yn ddiolchgar iawn i'r holl hysbyswyr allweddol o'r sefydliadau statudol a'r mudiadau gwirfoddol ledled Cymru a roddodd o'u hamser prysur i'n helpu â'r astudiaeth hon, ac i awdurdodau lleol Cymru a gwblhaodd yr arolwg mewn modd mor amserol a chydwybodol. Ein diolch hefyd i'n cydweithwyr yn Heriot-Watt, Dr Paul Cosgrove a Dr Lukas Becker, am eu cymorth amhrisiadwy â'r arolwg ar-lein a fformatio.

Ymwrthodiad: Cyfrifoldeb yr awduron yw pob safbwynt ac unrhyw gamgymeriad sydd yn yr adroddiad hwn. Ni ddylid tybio bod Crisis, Sefydliad Joseph Rowntree nac unrhyw un o'r hysbyswyr allweddol a gynorthwyodd â'r gwaith yn rhannu'r safbwyntiau hyn.

Cynnwys

Ffigyrau a thablau

Acronymau

Rhagair

Crynodeb Gweithredol

1. Rhagarweiniad

- 1.1 Cyflwyniad
- 1.2 Diffiniad o ddigartrefedd
- 1.3 Dulliau ymchwil
- 1.4 Achosiant a digartrefedd
- 1.5 Strwythur yr adroddiad

2. Ffactorau economaidd a allai effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru

- 2.1 Cyflwyniad
- 2.2 Y cyd-destun economaidd ehangach
- 2.3 Mynediad at berchentyaeth
- 2.4 Mynediad at dai rhentu preifat
- 2.5 Mynediad at dai cymdeithasol
- 2.6 Y galw a'r cyflenwad tai cyffredinol
- 2.7 Safbwyntiau awdurdodau lleol am y tai sydd ar gael i aelwydydd digartref
- 2.8 Pwyntiau allweddol

3. Polisiâu San Steffan a Llywodraeth Cymru a allai effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru

- 3.1 Cyflwyniad
- 3.2 Polisiâu digartrefedd yng Nghymru
- 3.3 Polisiâu tai yng Nghymru
- 3.4 Diwygio lles
- 3.5 Pwyntiau Allweddol

4. Tueddiadau digartrefedd yng Nghymru

- 4.1 Cyflwyniad
- 4.2 Cysgu ar y stryd
- 4.3 Digartrefedd sengl
- 4.4 Digartrefedd statudol
- 4.5 Digartrefedd Cudd
- 4.6 Pwyntiau allweddol

5. Casgliadau

Atodiad 1 Canllaw i'r pynciau

Atodiad 2 Arolwg awdurdodau lleol

Llyfryddiaeth

vii

ix

x

xi

1

1

1

2

2

3

4

4

4

6

9

13

15

15

19

21

21

21

34

37

54

57

57

57

62

64

75

82

85

89

92

97

Ffigyrau a thablau

Crynodeb Gweithredol

Ffigwr 1 Prosesau deddfwriaeth digartrefedd Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 xv

Pennod 2

Ffigwr 2.1 Gwelliant economaidd y Deyrnas Unedig yn parhau ond y dyfodol nawr yn llai sicr 4

Ffigwr 2.2 Newidiadau i werth gros gwirioneddol ers 2007 5

Ffigwr 2.3 Cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru yn 2015 6

Ffigwr 2.4 Fforddiadwyedd y farchnad dai yng Nghymru 7

Ffigwr 2.5 Gostyngiad yn lefelau achosion llys ar gyfer adfeddiannu morgesei yng Nghymru 9

Ffigwr 2.6 Twf cyflym y sector rhentu preifat 10

Ffigwr 2.7 Costau a rhentu a phrynu yng Nghymru 11

Ffigwr 2.8 Cymarebau costau rhenti a morgesei i enillion 12

Ffigwr 2.9 Gorchmynion meddiannu landlordiaid preifat 12

Ffigwr 2.10 Lefelau gosod cymdeithasol yn gwella, ond gosod i aelwydydd digartref yn gostwng 13

Pennod 3

Ffigwr 3.1 Buddsoddiad mewn tai fforddiadwy newydd 36

Ffigwr 3.2 Cyfraddau LHA ar gyfer BRMA Cymru 40

Ffigwr 3.3 Tynhau cap uchafswm budd-daliadau 42

Ffigwr 3.4 Effaith diwygio Credyd Cynhwysol ar gyfanswm incwm net ar ôl costau tai 49

Ffigwr 3.5 Canfyddiadau am yr un mesur diwygio lles newydd mwyaf arwyddocaol sy'n debygol o waethygu digartrefedd ymhellach 2017-2020 53

Pennod 4

Ffigwr 4.1 Y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd ar lefel awdurdodau lleol 61

Ffigwr 4.2 Asesiadau digartrefedd blaenoriaethol a heb flaenoriaeth o dan A73, 2015/16 a 2016/17 63

Ffigwr 4.3 Prosesau asesu digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 65

Ffigwr 4.4 Canfyddiadau awdurdodau lleol o'r newid yn y galw digartrefedd cyffredinol 2015-2017 67

Ffigwr 4.5 Digartrefedd statudol 2002/03 - 2016/17 69

Ffigwr 4.6 Rhesymau dros ddigartrefedd, baich achosion 2015/16 70

Ffigwr 4.7 Ymgeiswyr am gymorth (A62), 2016/17 – canlyniadau asesu/cynorthwyo 71

Ffigwr 4.8 Ymgeiswyr y barnwyd eu bod yn ddigartref yn 2016/17 (10,548) – canlyniadau gweithredu o dan A73 72

Ffigwr 4.9 Camau gweithredu awdurdodau lleol i atal a rhyddhau digartrefedd yn 2015/16 – A66 ac A73 72

Acronymau

Ffigwr 4.10	Natur camau gweithredu awdurdodau lleol i alluogi ymgeiswyr dan fygythiad o ddigartrefedd i aros yn eu llety presennol, 2015/16	73	BRMA	Ardal Marchnad Rentu Eang
Ffigwr 4.11	Natur camau gweithredu awdurdodau lleol i gynorthwyo ymgeiswyr i ganfod llety arall, 2015/16 (6,642)	73	CIH	Sefydliad Tai Siartredig
Ffigwr 4.12	Lleoliadau mewn llety dros dro oherwydd digartrefedd, 2009/10 - 2016/17	75	CML	Cyngor Benthycwyr Morgeisi
Ffigwr 4.13	Aelwydydd Posibl Cudd yng Nghymru 1997 - 2016	77	CPI	Mynegai Prisiau Defnyddwyr
Ffigwr 4.14	Aelwydydd Posibl Cudd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ôl math, 1997 a 2016	77	DAF	Cronfa Cymorth Dewisol
Ffigwr 4.15	Unigolion mewn aelwydydd cudd posibl yn ôl deiliadaeth yn ôl categori ac oed, Cymru a'r Deyrnas Unedig 2014	78	DEL	Terfyn Gwariant Adrannol
Ffigwr 4.16	Cyfraddau Cynrychiadol Aelwydydd yn ôl Oed (20-34) yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, 1992 - 2016	79	DHP	Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn
Ffigwr 4.17	Aelwydydd sy'n rhannu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ôl deiliadaeth, y nifer sy'n rhannu, y rhanbarth a'r math o aelwyd, 2016	81	DLA	Lwfans Byw i'r Anabl
Ffigwr 4.18	Gorlenwi yn ôl Deiliadaeth a Chyfnod yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, 2009 - 14	83	DWP	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
			EAP	Taliadau Cymorth mewn Argyfwng
			EHS	Arolwg Tai Lloegr
			ESA	Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
			FEANTSA	Ffederasiwn Ewrop ar gyfer Sefydliadau Cenedlaethol sy'n Gweithio gyda'r Digartref
			FSA	Awdurdod Gwasanaethau Ariannol
			GDP	Cynnyrch Domestig Gros
			GVA	Gwerth Ychwanegol Gros
			HB	Budd-dal Tai
			HMO	Tai Amlfeddiannaeth
			IB	Budd-dal Analluogrwydd
			JSA	Lwfans Ceisio Gwaith
			LA	Awdurdod Lleol
			LFS	Arolwg o'r Llafurlu
			LHA	Lwfans Tai Lleol
			OBR	Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol
			ONS	Swyddfa Ystadegau Gwladol
			PIP	Taliadau Annibyniaeth Personol
			PRS	Sector Rhentu Preifat
			RCC	Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
			RS	Cysgu ar y Stryd
			RSL	Landlord Cymdeithasol Cofrestredig
			RTB	Hawl i Brynu
			SAR	Cyfradd Llety a Rennir
			SMI	Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais
			SP	Cefnogi Pobl
			SPPG	Grant Rhaglen Cefnogi Pobl
			SRS	Sector Rhentu Cymdeithasol
			TA	Llety Dros Dro
			UC	Credyd Cynhwysol
			WLGA	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Rhagair

Roedd Monitor Digartrefedd diwethaf Cymru, yn 2015, yn nodi ei bod yn amser hollbwysig i bolisi digartrefedd. Yn y ddwy flynedd ers y cyhoeddwyd yr adroddiad diwethaf, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael ei rhoi ar waith ac mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn dangos yr effaith yn glir iawn.

Y prif gonsensws sydd wedi deillio o'r Monitor Cymru newydd hwn yw bod y fframwaith digartrefedd statudol newydd a gyflwynwyd gan y ddeddf wedi creu amryw o effeithiau cadarnhaol. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi helpu i ailgyfeirio 'diwylliant' awdurdodau lleol tuag at ddulliau mwy ataliol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i unigolion, sydd wedi golygu ymateb llawer gwell gan y gwasanaeth i ddigartrefedd sengl.

Mae'r ystadegau swyddogol yn ategu hyn; mae digartrefedd wedi'i atal mewn bron i ddau draean o'r aelwydydd lle'r oedd bygythiad ohono, a chartrefi wedi'u canfod i ddwy ran o bump o aelwydydd digartref.

Er ei bod yn glir bod y dull newydd yn llwyddo i atal digartrefedd i lawer o bobl, mae heriau'n dal i fodoli. Mae cysgu ar y stryd ar gynnydd yng Nghymru, ac mae'r awdurdodau lleol a rhanddeiliaid i gyd yn cydnabod mai pobl sy'n cysgu ar y stryd sydd wedi elwa leiaf o'r newidiadau deddfwriaethol diweddar. Ceir mwy a mwy o gydnabyddiaeth bod angen gwneud rhywbeth.

Hefyd, mae cyfran sylweddol o ymgeiswyr digartref yn syrthio allan o'r system am fethu â chydymffurfio, ac mae rhai pobl ddigartref (yn bennaf, rhai sengl a rhai 'nad ydynt yn flaenoriaeth') yn dal i fod yn ddigartref ar ôl tri 'cham' yr ymyriad statudol.

Mae hyn, ynghyd â heriau'r newidiadau lles diweddar a'r rhai sydd ar y gweill, yn enwedig ymestyn y Gyfradd Llety a Rennir, yn golygu bod awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn bryderus ynglŷn â'r posibilrwydd y caiff y cynnydd deddfwriaethol a wnaethpwyd ei danseilio gan faterion strwythurol ehangach.

Mae'n gynnwys eto ar y fframwaith deddfwriaethol newydd. Mae beirniadaethau ohono'n canolbwyntio ar ei roi ar waith ac yn cydnabod nad yw wedi'i sefydlu'n llawn, yn hytrach nag unrhyw wrthwynebiad cadarn. Felly, byddwn yn parhau i fonitro effaith y newidiadau hyn yn ofalus, yn enwedig eu heffaith ar dueddiadau digartrefedd, i sicrhau bod polisiau ac arferion Cymru yn ddoeth ond hefyd i sicrhau y gellir rhannu'r gwarsi a ddysgir yn ehangach ar draws gweddill y Deyrnas Unedig.



Jon Sparkes
Prif Weithredwr, Crisis



Campbell Robb
Prif Weithredwr, Sefydliad Joseph Rowntree

Crynodeb Gweithredol

Pwyntiau allweddol

Astudiaeth hydredol yw'r gyfres Monitor Digartrefedd, ac mae'n darparu dadansoddiad annibynnol o effeithiau datblygiadau economaidd a datblygiadau polisi diweddar ar ddigartrefedd, yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig.¹ Mae'r diweddariad hwn yn disgrifio'r sefyllfa o ran digartrefedd yng Nghymru yn 2017, neu mor agos at 2017 ag a ganiateir gan y data sydd ar gael.

Dyma'r pwyntiau allweddol a ddaeth o adroddiad diweddar Cymru 2017:

- Ceir consensws cryf bod y fframwaith digartrefedd statudol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael amryw o effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys ailgyfeirio 'diwylliant' awdurdodau lleol tuag at ddulliau mwy ataliol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i unigolion, ac ysgogi ymateb llawer gwell o ran y gwasanaeth i bobl ddigartref sengl yn benodol.
- Yn 2016/17, roedd digartrefedd wedi'i atal yn llwyddiannus mewn bron ddau draean (62%) o'r aelwydydd lle aseswyd bod 'bygythiad o ddigartrefedd' (5,718 o 9,210), yn ôl yr ystadegau swyddogol, a chofnodwyd cyfradd lwyddiant o 41% (4,500 o 10,884) gan awdurdodau lleol mewn achosion rhyddhau o ddigartrefedd
 - h.y. canfod cartref i bobl ddigartref (yn hytrach nag ymyriadau i atal digartrefedd rhag digwydd)
- Yn ôl y disgwyl, a'r gobraith, mae nifer yr aelwydydd mewn angen blaenoriaethol a gynorthwywyd o dan y 'ddyletswydd i sicrhau llety' newydd, sydd ond yn digwydd ar ôl i ymdrechion atal a/neu ryddhau fethu, yn llawer is na lefelau statudol pobl y 'derbyniwyd' eu bod yn ddigartref o dan y system cyn 2015. Dim ond 1,611 o aelwydydd o'r fath yr oedd y ddyletswydd ailgartrefu lawn yn ddyledus iddynt a gofnodwyd yn 2015/16 (tua thraean y nifer a 'dderbyniwyd' yn 2014/15), ond cododd y ffigur hwnnw i 2,076 yn 2016/17.
- Fodd bynnag, mae'r duedd raddol tuag i lawr mewn lleoliadau mewn llety dros dro a welwyd yn y cyfnod

¹ Mae Monitorau Digartrefedd paralel yn cael eu cyhoeddi ar gyfer yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae holl adroddiadau Monitor Digartrefedd y Deyrnas Unedig ar gael yn <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/>

2012-2015 wedi'i gwrthdroi'n ddiweddar. Yn ystod y cyfnod 12 mis diwethaf, cynyddodd nifer y lleoliadau 7%. O ystyried y disgwyliad y byddai pwyslais cryfach ar atal ymlaen llaw o dan y drefn statudol newydd wedi arwain at lai o 'fewnlifiad', mae hyn ychydig yn groes i'r hyn a ddisgwyliwyd, a gallai adlewyrchu'r cynnydd mewn pwysau strwythurol a'r cynnydd yn y 'niferoedd' a nodir isod.

- Hyd yn oed o dan y model statudol newydd, llawer mwy cynhwysol hwn i Gymru, mae cynigion cymorth awdurdodau lleol yn dal i fethu â datrys argyfwng tai cohort sylweddol o ymgeiswyr digartref (er bod rhai ohonynt yn llwyddo i ganfod eu datrysiad eu hunain). Mae'r grŵp allweddol yma'n cynnwys aelwydydd y barnwyd yn gyfreithiol eu bod yn ddigartref ond sydd â phroblemau 'heb eu datrys yn llwyddiannus' ac a ystyrir yna eu bod yn achosion 'nad ydynt yn flaenoriaeth' nad ydynt yn gymwys i gael y 'ddyletswydd ailgartrefu lawn' o dan A75.² Roedd 1,233 yn y grŵp hwn yn 2016/17.
- Ceir pryder penodol am achosion sy'n syrthio allan o'r system yn benodol oherwydd 'diffyg cydymffurfio', o gofio bod hyn yn bwynt newydd allweddol yn neddfwriaeth Cymru a'i fod, ar ffurf wahanol, hefyd wedi'i gynnwys yn Neddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn Lloegr. Yn 2016/17 rhyddhawyd y ddyletswydd dros 486 o 9,210 o achosion 'cymwys a dan fygythiad o ddigartrefedd' o dan Adran 66 (5%) a 615 o 10,884 o achosion 'cymwys a digartref' o dan Adran 73 (6%) o ganlyniad i 'ddiffyg cydymffurfiaid'.
- Y teimlad cyffredinol oedd bod y Grant Arian Pontio a ddarparwyd i awdurdodau lleol i roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith yn ddigonol, ond rhoddwyd pwyslais

mawr ar yr angen i hwn barhau y tu hwnt i'w ddyddiad diweddu gwreiddiol ar ddiwedd mis Mawrth 2018.

- Mae arian Cefnogi Pobl wedi cael ei ddiogelu'n gymharol dda yng Nghymru; mae'n dal i fod wedi'i glustnodi. Teimlwyd y bu'r ymdrechion i ailgyfeirio'r arian hwn i gefnogi'r agenda atal digartrefedd yn fwy effeithiol o leiaf yn rhannol lwyddiannus, ond roedd llawer o hysbyswyr allweddol yn teimlo bod angen gwelliannau pellach i'r arferion comisiynu.
- Ni ellir dadlau y bu cynnydd diweddar mewn cysgu ar y stryd yng Nghymru, ac er nad yw union faint y cynnydd hwn yn glir, mae'n ymddangos yn debygol ei fod yn gynydd rhwng 16% a 30% o'i gymharu â 2015. Disgwylir cyhoeddiad polisi gan Lywodraeth Cymru am gysgu ar y stryd cyn bo hir.
- Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi cyflwyno nifer o fesurau i wneud polisiau tai Cymru'n fwy gwahaniaethol. Yn benodol, roedd Deddf 2014 yn galluogi ailariannu'r sector tai cyngor, ac yn darparu pwerau i drwyddedu a rheoleiddio landlordiaid preifat a'u hasiantau. Mae Bil pellach nawr wedi'i gyflwyno i ddiddymu'r hawl i brynu.
- Mae'r pryderon a fynegwyd yn y Monitor diwethaf y byddai Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn tansilio sicrwydd deiliadaeth tenantiaid preifat yng Nghymru, a oedd eisoes yn simsan, wedi'u tawelu ar ôl i Lywodraeth Cymru gefnu ar gynigion i gael gwared ar y moratoriwm chwe mis ar gyfer troi allan 'dim bai'.
- Cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru eu targed eu hunain o ddarparu

10,000 o anheddau 'fforddiadwy' ychwanegol dros eu tymor pedair blynedd, ond roeddent yn dal yn fyr o'r niferoedd uwch sy'n ofynnol yn ôl asesiad annibynnol.

- Bydd diwygiadau lles olynol Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cymryd dros 1 biliwn y flwyddyn o bocedi aelwydydd incwm isel yng Nghymru erbyn 2020/21. Mae'r rhain yn cael effaith anghymesur ar ardaloedd o Gymru sydd wedi dioddef dirywiad diwydiannol hirdymor.
- Cafodd cyfanswm y cap budd-daliadau ei ostwng yn ddiweddar, a bydd hyn yn cynyddu ei effaith yn sylweddol yng Nghymru; bydd yn effeithio ar bron bum gwaith cynifer o bobl (tua 4,000) erbyn 2020/21. Fodd bynnag, yr aelwydydd sydd eisoes o dan y cap a fydd yn cael y colledion unigol mwyaf - £6,000 ychwanegol y flwyddyn (neu £4,800 i bobl sengl).
- Mae'r 'Dreth Ystafell Wely' wedi cael effaith anghymesur yng Nghymru; i ddechrau, roedd yn effeithio ar 35,700 o denantiaid sector cymdeithasol, ond erbyn mis Chwefror 2017 roedd y nifer hwn wedi gostwng i 29,500. Cafodd ei heffeithiau eu lleihau, i raddau, gan ddefnyddio cyllidebau Taliad Tai yn ôl Disgresiwn yr Adran Gwaith a Phensiynau yn llawn iawn, yn ogystal â defnyddio arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Caiff capiau Lwfans Tai Lleol i denantiaid cymdeithasol eu hymestyn cyn bo hir, a chaiff hyn effaith eang yng Nghymru; ceir pryderon penodol am yr effaith ar bobl ifanc sengl, ac aelwydydd hyn yr ystyrir nad oes digon o bobl ynddynt, yn ogystal â'r trefniadau a wneir ar gyfer llety â chymorth.
- Roedd bron bob awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i'n harolwg awdurdodau lleol 2017 yn credu

bod diwygio lles ers 2010 wedi gwaethygu digartrefedd yn eu hardal, a nododd y rhan fwyaf fod ymestyn Cyfradd Llety a Rennir y Lwfans Tai Lleol i bobl 25-34 mlwydd oed wedi gwneud niwed arbennig. Mynegwyd pryder enfawr am sut y gallai parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol effeithio ar ddigartrefedd, a nodwyd hefyd bod dileu hawl 'awtomatig' pobl 18-21 mlwydd oed i gael Budd-dal Tai hefyd yn rhywbeth penodol sy'n peri pryder.

Cyd-destun digartrefedd yng Nghymru o ran yr economi a pholisiau

Er bod economi'r Deyrnas Unedig wedi gwella y tu hwnt i'r lefelau cyn y wasgfa gredyd, roedd dirywiad ariannol Cymru'n fwy difrifol, ac nid yw'r sefyllfa wedi gwella cystal ag yn Lloegr a'r Alban; cymerodd tan 2015 i economi Cymru fod fel yr oedd cyn y wasgfa gredyd. Hefyd, mae cyflogau llawn-amser cyfartalog yng Nghymru 12% yn is nag yn y Deyrnas Unedig gyfan, ac yn is nag yn yr Alban ac yn holl ranbarthau Lloegr.

Mae prisiau tai yng Nghymru'n dal i fod ychydig bach yn is na lefelau 2007, ond oherwydd cyfraddau llog is a chynyddiadau bach i enillion arian parod, mae fforddiadwyedd wedi gwella. Fodd bynnag, er y cynllun Cymorth i Brynu, mae'n dal i fod yn anodd cael morgeisi â blaendal isel. Mae fforddiadwyedd hefyd yn fwy o broblem yng Nghaerdydd, Ceredigion a Sir Benfro. Mae lefelau ôl-ddyledion morgeisi ac adfeddiannu wedi gostwng yn gyson ers 2009; dim ond cyfraniad bach iawn at ddigartrefedd yw hyn. Fodd bynnag, ceir pryderon am effaith cyfraddau llog uwch yn y dyfodol, a'r llai o gymorth a gaiff perchenogion tai yn y dyfodol o dan y cynlluniau Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais a Chredyd Cynhwysol.

Dyblodd maint y sector rhentu preifat dros y degawd diwethaf yng Nghymru (i 15% o bob anedd), ac mae dau o

² Yr adran hon o Ddeddf 2014 yw'r peth agosaf at Adran 193 y ddeddfwriaeth cyn 2015, a oedd yn nodi cyfres o broffion i asesu a ystyrir bod ymgeiswyr digartref yn 'anfwrriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol'.

bob pum tenant nawr yn cael Budd-dal Tai. Er y bu amrywiadau bach o flwyddyn i flwyddyn yn lefelau gosod yn y sector cymdeithasol dros y degawd diwethaf, bu gostyngiad amlwg yng nghyfran y gosodiadau hynny a ddyrannwyd i aelwydydd digartref ers 2012/13 – i lawr i tua 18% o bob gosodiad i denantiaid newydd yn y tair blynedd diwethaf, o gymharu â'r norm diweddar o tua chwarter (a 22% ar y ffigurau diweddaraf yn Lloegr, 37% yn yr Alban). Mae'r rhesymau dros y lefel arbennig o isel hon o ddyraniadau, sydd wedi digwydd ers cyn y newidiadau i'r ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, yn dal i fod yn aneglur.


Mae'r amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf yn awgrymu y bydd y galw am dai'n parhau i dyfu'n gryf dros y tymor canolig a'r tymor hwy yng Nghymru: yn y degawd o 2014 ymlaen, yr amcanestyniad presennol ar gyfer twf aelwydydd yw tua 7,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn lawer yn uwch na lefel adeiladu tai newydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod yr allbwn yn dal i fod yn dipyn is na'r lefel gyfartalog dros y degawd cyn y wasgfa gredyd. Er bod Llywodraeth Cymru wedi rhagori ar eu targed eu hunain o ddarparu 10,000 o anheddau cymdeithasol a fforddiadwy ychwanegol dros y pum mlynedd hyd at 2015/16, mae hyn yn dal yn llawer is (tua 3,000 o unedau y flwyddyn yn is) na'r nifer sy'n ofynnol yn ôl asesiad annibynnol.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cyflwyno nifer o fesurau i wneud polisiau tai Cymru'n fwy gwahaniaethol. Yn benodol, roedd y Ddeddf yn galluogi ailariannu'r sector tai cyngor, ac yn darparu pwerau i drwyddedu a rheoleiddio landlordiaid preifat a'u hasiantau. Mae Bil pellach nawr wedi'i gyflwyno i ddiddymu'r hawl i brynu.

Mae'r pryderon a fynegwyd yn y Monitor diwethaf y byddai Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn tansellio sicrwydd deiliadaeth tenantiaid preifat yng Nghymru, a oedd eisoes yn simsan, wedi'u tawelu ar ôl i Lywodraeth Cymru gefnu ar gynigion i gael gwared ar y moratoriwm chwe mis ar gyfer troi allan 'dim bai' cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio.

Fodd bynnag, o safbwynt y Monitor, yr agwedd bwysicaf ar Ddeddf 2014 yw ei darpariaethau digartrefedd. Yn seiliedig ar yr 'Adolygiad Mackie' a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyhoeddwyd yn 2012,³ mae'r rhain yn rhoi dyletswyddau 'dall i angen blaenoriaethol' ar awdurdodau lleol i "gymryd camau rhesymol" i "helpu i atal digartrefedd" (Adran 66) ac i "helpu i sicrhau llety" i bobl sydd eisoes yn ddigartref (Adran 73) (cyfeirir yn gyffredinol at y dyletswyddau newydd hyn fel dyletswyddau Cam 1 'atal' a Cham 2 'rhyddhau' yn ôl eu trefn). I'r bobl hynny sy'n ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol, yna bydd 'Cam 3' (Adran 75) 'dyletswydd statudol lawn' i sicrhau llety addas yn digwydd os yw'r ymdrechion atal a/ neu ryddhau wedi methu. Yn hanfodol, fodd bynnag, ni chaiff ymgeiswyr sy'n "methu â chydweithredu mewn modd afresymol" â'r cymorth atal neu ryddhau, neu rai sy'n gwrthod cynnig addas o lety, symud ymlaen i Gam 3.⁴ O 2019 ymlaen bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i deuluoedd a phobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed sy'n fwriadol ddigartref, oni bai eu bod wedi'u canfod yn fwriadol ddigartref yn y pum mlynedd cyn hynny.

Ffigwr 1 Prosesau deddfwriaeth digartrefedd Cymru o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014



Roedd darpariaethau digartrefedd Deddf 2014 yn dechrau dod i rym ar adeg ysgrifennu Monitor Digartrefedd diwethaf Cymru, ym mis Ebrill 2015,⁵ ond yr arwyddion cynnar oedd bod cryn dipyn o ewyllys da tuag at y fframwaith newydd ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol.⁶ Mae adroddiad eleni'n atgyfnerthu'r canfyddiadau cynnar calonogol hyn yn gryf, ac yn canfod bod y drefn newydd wedi bod yn llwyddiant amlwg o ran llawer o agweddau allweddol a chydberthnasol.⁷ Yn gyntaf, mae'n ymddangos ei bod

wedi achosi ailgyfeirio gwirioneddol ar ran gwasanaethau Dewisiadau Tai awdurdodau lleol tuag at ymyriadau ataliol cynharach a mwy effeithiol. Yn ail, mae wedi arwain at welliant radical yn yr ymateb gwasanaeth a gynigir i bobl ddigartref sengl. Yn drydydd, mae wedi sbarduno 'newid diwylliant' cadarnhaol ar ran awdurdodau lleol, sy'n darparu amgylchedd mwy cefnogol i ymgeiswyr sy'n canolbwyntio ar unigolion, a hefyd ar ran asiantaethau allanol, megis Shelter Cymru, gan wneud eu perthynas ag awdurdodau

3 Mackie, P., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012) *Opsiynau ar gyfer Gwell Fframwaith Deddfwriaethol i Ddigartrefedd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

4 Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

5 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis.

6 Gweler hefyd: Mackie, P. (2014) 'The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance?' *Contemporary Wales*, 27(1): 1-20; Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru.

7 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

lleol yn llai gwrthdrawiadol. Yr hyn sy'n arbennig o drawiadol yw i ba raddau yr oedd yr holl randdeiliaid allweddol a gyfwelwyd ac a arolygwyd gennym – awdurdodau lleol, partneriaid eraill yn y sector statudol, darparwyr yn y sector gwirfoddol, a sylwebwyr annibynnol – yn cytuno ynglŷn â'r pwyntiau cadarnhaol craidd hyn.

Gellir enwi llawer o ffactorau a all fod yn gyfrifol am lwyddiant cyffredinol ymddangosol 'model Cymru' hyd yn hyn. Yn gyntaf, roedd yn ymddangos bod cefnogaeth eang i egwyddorion y fframwaith ei hun, a oedd yn seiliedig ar brosiect ymchwil ar y cyd cychwynnol,⁸ ac yn destun cyfnod o lobio dwys, yn wleidyddol ac o safbwynt polisi, cyn y lluniwyd y fersiwn derfynol, sef y Ddeddf ei hun.⁹ Yn ail, mae llawer o bobl, os nad pawb, yn derbyn bod yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Grant Arian Pontio wedi bod yn ddigonol (er bod llawer o bryder erbyn hyn am y posibilrwydd y gallai'r arian hwn ddod i ben ym mis Mawrth 2018). Yn drydydd, mae'r 'cydgynhyrchu' a'r ymagwedd hyblyg at ddrafftio ac adolygu'r Cod Arweiniad,¹⁰ a'r modd y darparwyd y rhaglen hyfforddi gysylltiedig ar draws sectorau, wedi helpu i greu ymdeimlad o ymdrech a phwrpas ar y cyd ar draws ystod eang o randdeiliaid.

Felly, mae beirniadaethau o'r drefn ddigartrefedd newydd yn tueddu i ymwneud â'i rhoi ar waith, neu'n sylwadau am nad yw wedi'i sefydlu'n llawn, yn hytrach nag unrhyw wrthwynebiad o sylwedd neu egwyddor. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys pryderon bod holl gamau'r

broes yn cynhyrchu gormod o waith papur; nad yw'r 'camau rhesymol' i atal digartrefedd yn ddigon teilwredig a rhagweithiol mewn rhai ardaloedd;¹¹ bod ansawdd Cynlluniau Tai Personol awdurdodau lleol, a sut y'u defnyddir, yn amrywio; a'r diffyg cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn i annog gwaith partneriaeth dyfnach â chyrff cyhoeddus eraill. Un peth sy'n ymddangos ar draws pob un o'r pwyntiau hyn yw cydnabyddiaeth ei bod yn anochel bod y 'newid diwylliant' sydd ei angen er mwyn llwyddo i roi'r model statudol newydd ar waith yn broses hirdymor, ac y gallai olygu bod angen rhywfaint o drosiant staff mewn rhai achosion, yn ogystal ag ailhyfforddi, er mwyn ei wireddu'n llwyr. Felly, er bod pryderon yn parhau am ganlyniadau anghyson gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol,¹² roedd teimlad cryfach o amrywioldeb o fewn awdurdodau lleol a fydd yn cymryd cryn amser i'w unioni.

Er bod pryder y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r darpariaethau 'methu â chydweithredu' fel dyfais newydd i ddioli neu ddogni o bosibl yn fwy o bryder strwythurol am y drefn ddiwygiedig (gweler mwy isod), mae'n ymddangos bod pryder ynglŷn â hyn wedi tawelu i raddau am y tro, a bod y rhanddeiliaid yn fodlon i fonitro datblygiadau dros amser cyn ffurfio barn gadarn. Yn fwy cyffredinol, ceir gofid bod nifer sylweddol o bobl ddigartref (sengl a 'heb fod yn flaenoriaeth' gan fwyaf) yn dal i fod heb ddatrysiad ar ôl mynd drwy dri 'cham' yr ymyriad statudol (eto gweler isod), ond ar yr un pryd cydnabyddir yn glir bod y 'cynnig' i bobl ddigartref

sengl, serch hynny, yn llawer gwell na'r cynnig o dan y system flaenorol.

Un agwedd gadarnhaol arall ar y cyd-destun polisi yng Nghymru, a gydnabyddir gan lawer o hysbyswyr allweddol, yw'r amddiffyniad cymharol a roddwyd i'r rhaglen ariannu 'Cefnogi Pobl' (sy'n dal i fod wedi'i chlustnodi) hyd yma. Er bod llawer wedi galw am wella arferion comisiynu awdurdodau lleol, a'i bod yn ymddangos bod y cysondeb y gobeithiwyd amdano rhwng gwasanaethau Cefnogi Pobl a'r agenda atal digartrefedd yn dal i ffurfio,¹³ mae'n ymddangos bod argaeledd yr arian hwn wedi caniatáu ehangu o leiaf rai ffurfiau ar y ddarpariaeth llety â chymorth yn y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn wahanol iawn i'r lleihad yn y ddarpariaeth a welwyd yn Lloegr.¹⁴

Fodd bynnag, un agwedd lawer mwy negyddol ar gyd-destun polisi digartrefedd yng Nghymru yw'r diwygio lles parhaus; bydd penderfyniadau Llywodraethau olynol y Deyrnas Unedig wedi cymryd dros £1 biliwn o bocedi aelwydydd incwm isel yng Nghymru bob blwyddyn erbyn 2020/21. Fel mewn manau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae'r toriadau lles hyn yn cael mwy o effaith yn y rhannau hynny o Gymru sydd wedi dioddef dirywiad diwydiannol hirdymor ac eisoes yn wynebu lefelau uchel o dlodi ac anfantais. Cafodd y 'Dreth Ystafell Wely' yn benodol effaith anghymesur yng Nghymru; i ddechrau, roedd yn effeithio ar 35,700 o denantiaid sector cymdeithasol, ond erbyn mis Chwefror 2017 roedd y nifer hwn wedi gostwng i 29,500. Cafodd ei heffeithiau eu lleihau, i raddau, gan ddefnyddio cyllidebau'r Taliad Tai yn ôl Disgresiwn yn llawn iawn, yn ogystal â defnyddio arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

O fewn y cylch, mae ymatebion arolwg

awdurdodau lleol a chyfweliadau â rhanddeiliaid yn dangos darlun mwy amrywiol, sydd efallai'n llai aciwt, o effeithiau diwygio lles ar ddigartrefedd yng Nghymru hyd yn hyn o gymharu â Lloegr. Serch hynny, roedd bron bob awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i arolwg 2017 yn credu bod diwygio lles ers 2010 wedi gwaethygu digartrefedd yn eu hardal, a nododd y rhan fwyaf fod ymestyn y Gyfradd Llety a Rennir i bobl 25-34 mlwydd oed wedi gwneud niwed arbennig, er bod rhewi budd-daliadau, sancsiynau budd-daliadau, a chapiau ar y Lwfans Tai Lleol a budd-dal tai cyffredinol wedi cael eu crybwyll hefyd.

Wrth edrych i'r dyfodol, mynegodd awdurdodau lleol Cymru bryder enfawr am sut y gallai parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol effeithio ar ddigartrefedd, yn enwedig y trefniadau i dalu'r elfen dai i'r hawlydd, a nodwyd hefyd bod dileu hawl 'awtomatig' pobl 18-21 mlwydd oed i gael Budd-dal Tai hefyd yn rhywbeth sy'n peri pryder (amcangyfrifir y gallai hyn effeithio ar tua 10,000 o bobl 18-21 oed ledled Prydain Fawr gyfan, ond nid oes ffigurau ar wahân ar gyfer Cymru ar gael). Bydd y gostyngiad diweddar yng nghyfanswm y cap budd-daliadau yn cynyddu ei effaith yn sylweddol yng Nghymru; bydd yn effeithio ar bron bum gwaith cynifer o bobl (tua 4,000) erbyn 2020/21. Fodd bynnag, yr aelwydydd sydd eisoes o dan y cap a fydd yn cael y colledion unigol mwyaf – £6,000 ychwanegol y flwyddyn (neu £4,800 i bobl sengl). Caiff capiau Lwfans Tai Lleol i denantiaid cymdeithasol eu hymestyn ym mis Ebrill 2019, a chaiff hyn effaith arbennig o eang yng Nghymru, o ystyried ei rhenti sector preifat cymharol isel; pobl ifanc sengl sy'n defnyddio'r Gyfradd Llety a Rennir isel iawn a fydd yn teimlo'r effaith waethaf. Mae ansicrwydd yn parhau hefyd ynglŷn â'r trefniadau i'w gwneud

8 Mackie, P., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012) *Opsiynau ar gyfer Gwell Fframwaith Deddfwriaethol i Ddigartrefedd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

9 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis.

10 Llywodraeth Cymru (2016) *Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?lang=en>

11 Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru.

12 Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

13 Stirling, T. (2015) *Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness in Wales - Feasibility Study*. Caerdydd: PPIW.

14 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis.

ynglŷn â chynlluniau tai â chymorth pan fydd y capiau hyn ar waith, ond nid oes manylion eto ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru'n dosbarthu'r cyllid ychwanegol a ddarperir i gefnogi pobl agored i niwed mewn tai â chymorth.

Tueddiadau digartrefedd yng Nghymru

Cysgu ar y stryd

Ni ellir dadlau y bu cynnydd diweddar mewn cysgu ar y stryd yng Nghymru, yng nghyd-destun cytundeb eang bod y fframwaith deddfwriaethol newydd wedi gwneud llai i wella sefyllfa'r grŵp hwn nag aelwydydd digartref eraill. Roedd arolwg yn 2016 yn cyfrif 313 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Cymru, o gymharu â 240 yn 2015. Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn rhybuddio y gallai'r cynnydd hwn fod wedi'i achosi o leiaf yn rhannol gan fwy o sylw yn hytrach na chynnydd go iawn mewn cysgu ar y stryd,¹⁵ sy'n golygu yn ôl pob tebyg ei bod yn briodol ffurfio'r casgliad bod y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru ar ddiwedd 2016 yn gynnydd *hyd at* 30% o gymharu â 2015. Gallai'r newid sylfaenol gwirioneddol fod yn agosach at y cynnydd 16% yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yn genedlaethol a gyfrwyd yn Lloegr yn y deuddeg mis hyd at hydref 2016.¹⁶

Fodd bynnag, nid oedd llawer o amheuaeth ym meddyliau neb o'r rhanddeiliaid y bu o leiaf rywfaint o gynnydd 'go iawn' mewn cysgu ar y stryd dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf yng Nghymru. Nid oedd y rhesymau dros hyn yn gwbl glir, ond roedd yr esboniadau posibl a gynigiwyd yn cynnwys cynnydd mewn dinasyddion AEE (nad ydynt mewn gymwys i gael budd-daliadau lles

prif ffrwd), diwygio lles (yn enwedig sancsiynau budd-daliadau), a thorri cyllidebau gwasanaethau cefnogi. Roedd llawer o'r bobl y cyfwelwyd â hwy'n dyfalu y gallai fod cysylltiad â chael gwared o angen blaenoriaethol 'awtomatig' i gyn-garcharorion yn y ddeddfwriaeth newydd.¹⁷

Mae'r cynnydd hwn yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru wedi dod yn fater gwleidyddol berthnasol, a disgwylir cyhoeddiad polisi mawr yn fuan ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, efallai i ddatgan rhyw fath o strategaeth genedlaethol â chydran Tai yn Gyntaf. Bydd Gweithgor Cysgu ar y Stryd cenedlaethol yn gwneud argymhellion ynglŷn â pholisio cenedlaethol yn haf 2017.

Digartrefedd statudol

Roedd y mwyafrif llethol o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg 2017 (17 o 19) yn dweud bod llif cyffredinol y bobl sy'n ceisio cymorth â digartrefedd yn eu hardal wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf; yn y rhan fwyaf o achosion, roeddent yn dweud bod y cynnydd hwn yn 'sylweddol' ac nid yn 'fach'. Roeddent yn dweud bod y cynnydd yn 'nifer' y defnyddwyr gwasanaeth yn rhannol oherwydd y cyhoeddusrwydd o gwmpas ehangu cyfrifoldebau awdurdodau lleol am ddigartrefedd, ond hefyd oherwydd dynameg waelodol sy'n gysylltiedig â'r pwysau oherwydd diwygio lles a'r farchnad dai a nodwyd uchod.

Mae'r darlun calonogol a welir uchod o ran effeithiolrwydd y drefn digartrefedd statudol newydd yn cael ei ategu gan fwyaf, ond nid yn llwyr, gan yr ystadegau swyddogol; roeddent yn nodi bod bron ddau draean (62%) yr aelwydydd yr aseswyd eu bod 'dan

fygythiad o ddigartrefedd' yn 2016/17 wedi llwyddo i osgoi hyn, ac roedd awdurdodau lleol yn cofnodi cyfradd lwyddiant o 41% mewn achosion 'rhyddhau o ddigartrefedd'.

Hefyd yn ôl y disgwyl, a'r gobaith, mae nifer yr aelwydydd mewn angen blaenoriaethol a gynorthwywyd o dan y 'ddyletswydd i sicrhau llety' newydd, sydd ond yn digwydd ar ôl i ymdrechion atal a/neu ryddhau fethu, yn llawer is na lefelau statudol pobl y 'derbyniwyd' eu bod yn ddigartref o dan y system cyn 2015. Felly, dim ond 1,611 o aelwydydd blaenoriaethol o'r fath a gofnodwyd yn 2015/16 – tua thraean y nifer a 'dderbyniwyd' a gyfrwyd yn 2014/15. O ystyried bod y ddeddfwriaeth newydd yn dal i gael ei sefydlu yn ystod 2015/16, fodd bynnag, mae angen amodi cywirdeb y data digartrefedd statudol ar gyfer eleni. Felly, er bod yr ystadegau a gyhoeddwyd yn dangos bod yr aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol wedi cynyddu 29% yn 2016/17 (i 2,076) ni ddylid rhoi gormod o bwys i'r arsylwad hwn ar hyn o bryd.

Ar yr un pryd, mae'n ymddangos hefyd bod y duedd raddol tuag i lawr mewn lleoliadau mewn llety dros dro a welwyd yn y cyfnod 2012-2015 wedi'i gwrthdroi'n ddiweddar. Yn ystod y cyfnod 12 mis diwethaf, cynyddodd nifer y lleoliadau 7%. O ystyried y disgwyliad y byddai pwyslais cryfach ar atal ymlaen llaw o dan y drefn statudol newydd wedi arwain at lai o 'fewnlifiad', mae hyn ychydig yn groes i'r hyn a ddisgwylwyd, a gallai adlewyrchu'r cynnydd mewn pwysau strwythurol a'r cynnydd yn y 'niferoedd' a nodir uchod.

Yn 2016/17, negodi/eiriolaeth gyfreithiol a chymorth ag ôl-ddyledion rhent oedd y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan awdurdodau

lleol mewn ymdrechion i gadw llety presennol aelwyd ac felly atal digartrefedd rhag digwydd. Ymysg y nifer llawer mwy o gamau gweithredu â ffocws ar ganfod llety newydd i aelwydydd digartref/mewn perygl, y categorïau mwyaf (â 33% o'r achosion yr un) oedd hwyluso mynediad at dai rhentu preifat,¹⁸ neu rentu cymdeithasol.

Colli tai rhent oedd yn gyfrifol am y gyfran fwyaf (34%) o'r llwyth achosion 'dan fygythiad o ddigartrefedd' yn 2016/17, ond roedd cyfran lai o'r aelwydydd hyn yn ddigartref mewn gwirionedd (26%). Gallai hyn awgrymu cyfradd lwyddiant gymharol uchel i weithgareddau atal sydd wedi'u targedu at bobl sy'n wynebu risg o golli tenantiaeth bresennol.

Hyd yn oed o dan y model statudol newydd, llawer mwy cynhwysol hwn i Gymru, mae cynigion cymorth awdurdodau lleol yn dal i fethu â datrys argyfwng tai cohort sylweddol o ymgeiswyr digartref (er bod rhai ohonynt yn llwyddo i ganfod eu datrysiad eu hunain). Mae'r grŵp allweddol yma'n cynnwys aelwydydd y barnwyd yn gyfreithiol eu bod yn ddigartref ond sydd â phroblemau 'heb eu datrys yn llwyddiannus' ac a ystyrir yna eu bod yn achosion 'nad ydynt yn flaenoriaeth' nad ydynt yn gymwys i gael y 'ddyletswydd ailgartrefu lawn' o dan A75. Yn 2016/17 roedd 1,233 yn y grŵp hwn, sydd ychydig bach yn is na'r nifer o 1,344 a gofnodwyd yn 2015/16.

Hefyd, caiff achosion niferoedd sylweddol o aelwydydd cymwys eu cau ar y sail bod cymorth wedi'i wrthod, eu bod wedi 'methu â chydymffurfio' neu fod eu cais wedi'i ddiweddu am 'resymau eraill'. Mae tuag un rhan o bump o'r ymgeiswyr a gynorthwyir fel eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd (o dan Adran 66), a chyfran debyg o'r ymgeiswyr a gynorthwyir fel eu bod yn ddigartref

15 Llywodraeth Cymru (2017) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Tachwedd 2016 – Ystadegau Arbrolfol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170201-national-rough-sleeper-count-november-2016-experimental-statistics-en.pdf>

16 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis.

17 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

18 Gweler hefyd: Mackie et al (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, <http://www.feantsa.org/download/article-4592410342917616893.pdf>

(o dan Adran 73), yn 'syrthio allan' o'r system fel hyn. At ei gilydd, yn 2016/17 yr union niferoedd dan sylw yma oedd 1,872 o'r 9,210 o achosion A66 'dan fygythiad o ddigartrefedd' a 2,385 o'r 10,884 o achosion 'digartref'.

Ceir pryder penodol am achosion sy'n syrthio allan o'r system yn benodol oherwydd 'diffyg cydymffurfio', o gofio bod hyn yn bwynt newydd allweddol yn neddfwriaeth Cymru a'i fod, ar ffurf wahanol, hefyd wedi'i gynnwys yn Neddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn Lloegr. Yn 2016/17 rhyddhawyd y ddyletswydd dros 5% o achosion 'cymwys a dan fygythiad o ddigartrefedd' o dan Adran 66 (cyfanswm o 486) a 6% o achosion 'cymwys a digartref' o dan Adran 73 (cyfanswm o 615) o ganlyniad i 'ddiffyg cydymffurfiaid'. Mae hyn yn golygu, yn ail flwyddyn y drefn ddeddfwriaethol newydd, bod niferoedd yr 'achosion wedi'u cau oherwydd diffyg cydymffurfio' wedi lleihau o gymharu â 2015/16 – o 8% i 5% o ran achosion Adran 66 ac o 11% i 6% o ran achosion Adran 73. Beth bynnag, nid yw'r niferoedd hyn yn ddibwys a bydd angen eu gwyllo'n ofalus dros y blynyddoedd nesaf i asesu effaith y darpariaethau newydd hyn a luniwyd i hwyluso cydbwysedd priodol rhwng hawliau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ymgeiswyr digartref.

Digartrefedd cudd

Efallai y bydd pobl mewn sefyllfa debyg o ran tai i bobl sy'n ymgeisio i awdurdodau lleol fel eu bod yn ddigartref, hynny yw, heb eu llety diogel ar wahân eu hunain, heb fod wedi ymgeisio neu gofrestru'n ffurfiol ag awdurdod lleol neu ymgeisio i

asiantaethau digartrefedd eraill. Yn aml, gelwir y bobl hyn 'y digartref cudd'. Mae nifer o arolygon aelwydydd/graddfa fawr wedi ein galluogi i fesur rhai categorïau penodol o ddigartrefedd cudd posibl: *aelwydydd cudd*;¹⁹ *aelwydydd sy'n rhannu llety*;²⁰ ac *aelwydydd gorlawn*.²¹ Ni fydd pawb sy'n byw yn y sefyllfaoedd hyn yn ddigartref, ond mae'r ffenomena hyn yn dangos y mathau o bwysau tai a all fod yn gysylltiedig â digartrefedd cudd.

Rydym yn amcangyfrif bod 120,000 o aelwydydd yng Nghymru yn 2016 yn cynnwys o leiaf un aelwyd sengl gudd, a bod 154,000 o unigolion yn perthyn i'r rhain. Mae hyn yn ogystal â thua 13,000 o deuluoedd â chwpl/rhiant unig cudd sy'n cynnwys bron i 30,000 o unigolion. Mae mynychder aelwydydd cudd posibl wedi bod yn gymharol sefydlog dros y tymor canolig yng Nghymru, ac mae nawr yn ymddangos ei fod yn is nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod nifer yr aelwydydd sy'n rhannu wedi cynyddu'n ddiweddar yng Nghymru; mae'r gyfradd nawr yn uwch nag yn y Deyrnas Unedig gyfan. Yn 2016, roedd tua 2.3% o'r aelwydydd yng Nghymru yn rhannu (tua 30,000 o aelwydydd), o gymharu â 2.0% ledled y Deyrnas Unedig. Mae rhannu'n fwy cyffredin ymysg aelwydydd un unigolyn, ac ar gyfer y grŵp hwn mae'n ymddangos ei fod wedi cynyddu o 4.6% i 9.1% rhwng 2014 a 2016. Mae cyfraddau rhannu'n arbennig o uchel o fewn rhentu preifat, ac i raddau llai mewn tai cymdeithasol, ac mae'n brin yn y sector perchenfeddiannwyr.

Mae gorlenwi wedi cynyddu i raddau eithaf sylweddol ers 2003 yn Lloegr, o 2.4% i 3.0% o bob aelwyd, sy'n groes i'r tueddiadau blaenorol tuag i lawr. Yng Nghymru, nid oes data cyson am y duedd dros y cyfnod hwy, ond gellir defnyddio data o'r arolwg 'Deall Cymdeithas' i edrych ar orlenwi dros dri chyfnod rhwng 2009 a 2014.²² Mae hyn yn dangos bod y cyfraddau yng Nghymru'n amlwg yn is nag ym Mhrydain Fawr ar y cyfan, a bod gostyngiad cymedrol wedi digwydd dros y cyfnod hwn. Mae'n bosibl bod y patrymau hyn yn adlewyrchu llai o bwysau yn y farchnad dai a llai o aelwydydd sy'n lleiafrifoedd ethnig ac yn fewnfudwyr.

Casgliadau

Yn ddiamheuaeth, hwn yw'r Monitor Digartrefedd mwyaf calonogol yr ydym wedi'i gyhoeddi hyd yma; mae'n sôn am lwyddiant tebygol datblygiad mawr mewn cyfraith, polisi ac arfer digartrefedd sydd yn ôl pob golwg, hyd yn hyn o leiaf, wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiadau a chanlyniadau llawer o bobl ddigartref. Serch hynny, mae ystod o faterion a allai beri pryder yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys y llawer o feysydd ymarfer manwl i'w 'cywiro' yn y fframwaith digartrefedd statudol newydd yng Nghymru, ac mae angen monitro gofalus ar faterion megis gweithredu darpariaethau 'diffyg cydymffurfio', niferoedd y bobl sengl yn benodol sy'n profi 'ymyriadau aflwyddiannus', ac ymdrechion i unioni'r cynnydd yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd. Bydd hefyd yn bwysig canfod a yw'r cynnydd sydd i'w weld yn niferoedd yr aelwydydd y 'derbynnir' bod dyletswydd lawn i sicrhau llety iddynt, ac yn y niferoedd sy'n defnyddio llety dros dro, yn eithriadau mewn tuedd gyffredinol tuag i lawr, ynteu'n nodi dechrau cyfeiriad teithio newydd yn yr ystadegau swyddogol.

Gallwn edrych ymlaen at ganlyniad y gwerthusiad swyddogol o'r ddeddfwriaeth newydd fel sail i'r dadleuon hyn, a chawn gyfle hefyd i edrych eto ar y sefyllfa yng Nghymru a'i hasesu unwaith eto yn y Gyfres Monitor Digartrefedd bresennol hon sy'n para tan 2021. Y gobaith yw y byddwn yn parhau i weld Cymru'n cynnig model cadarnhaol o arferion arloesol a chydweithredol sy'n gallu dangos ffyrdd adeiladol ymlaen i weddill y Deyrnas Unedig.

19 'Aelwydydd cudd' yw unedau teulu neu oedolion sengl sy'n byw o fewn aelwydydd eraill ac y gellir ystyried y gallent ddyuno ffurfio aelwydydd ar wahân pe baent yn cael cyfle priodol.

20 'Aelwydydd sy'n rhannu' yw'r aelwydydd hynny sy'n byw gyda'i gilydd yn yr un anedd ond nad ydynt yn rhannu naill ai ystafell fyw neu brydau bwyd rheolaidd gyda'i gilydd. Dyma ddiffiniad safonol y Llywodraeth ac ONS o aelwydydd sy'n rhannu; fe'i defnyddir yn y Cyfrifiad ac mewn arolygon aelwydydd. Yn ymarferol, mae'r gwahaniaeth rhwng aelwydydd 'sy'n rhannu' ac aelwydydd 'cudd' yn un amhendant iawn.

21 Diffinnir 'gorlenwi' yma yn unol â'r safon swyddogol a ddefnyddir yn fwyf cyffredin - y 'safon ystafelloedd gwely'. Yn y bôn, mae hyn yn dyrannu un ystafell wely i bob cwpl neu riant sengl, un i bob pâr o blant o dan 10, un i bob pâr o blant o'r un rhyw dros 10, ac ystafelloedd gwely ychwanegol i blant unigol dros 10 o ryw gwahanol ac i aelodau eraill o'r aelwyd sy'n oedolion.

22 Nid ydym wedi llwyddo i gyfateb cyfrifiad y safon ystafelloedd gwely yn union yn ein dadansoddiad o'r set ddata Deall Cymdeithas.

Rhagarweiniad

1. Rhagarweiniad

1.1 Cyflwyniad

Mae'r astudiaeth hon yn darparu dadansoddiad annibynnol o effeithiau datblygiadau economaidd a datblygiadau polisi diweddar ar ddigartrefedd yng Nghymru. Mae'n ystyried goblygiadau'r dirwasgiad yn yr economi a'r farchnad dai ar ôl 2007, a'r cyfnod o wella wedi hynny, yn ogystal ag effaith y diwygiadau lles a roddwyd ar waith gan Lywodraethau San Steffan ers 2010, a hefyd effaith polisiau perthnasol Llywodraeth Cymru a datblygiadau mawr eraill megis Brexit.

Mae hwn, sef trydydd adroddiad Monitor Digartrefedd Cymru, yn disgrifio'r sefyllfa o ran digartrefedd yng Nghymru yn 2017 (neu mor agos at 2017 ag a ganiateir gan y data sydd ar gael), ac yn dadansoddi tueddiadau allweddol yn y cyfnod hyd at 2017. Mae'n canolbwyntio yn benodol ar yr hyn sydd wedi newid ers i ni gyhoeddi ail Fonitor Digartrefedd Cymru yn 2015. Os hoffai darllenwyr gael adroddiad llawnach am hanes mwy hirdymor digartrefedd yng Nghymru, dylent ddarllen adroddiad cyntaf Monitor Digartrefedd Cymru a gyhoeddwyd yn 2013.²³ Mae Monitorau Digartrefedd paralel yn cael eu cyhoeddi ar gyfer rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig.

1.2 Diffiniad o ddigartrefedd

Mae'r astudiaeth hon yn mabwysiadu diffiniad eang o ddigartrefedd,

ac rydym yn ystyried effeithiau newidiadau perthnasol i bolisiau a'r economi ar yr holl grwpiau digartref canlynol:

- Pobl sy'n cysgu ar y stryd.
- Pobl ddigartref sengl sy'n byw mewn hostelau, llochesi a llety â chymorth dros dro.
- Aelwydydd statudol ddigartref – hynny yw, aelwydydd sy'n ceisio cymorth tai gan awdurdodau lleol ar y sail nad oes ganddynt lety ar hyn o bryd, neu na fydd ganddynt cyn bo hir.
- Aelwydydd 'digartref cudd' – hynny yw, pobl y gellid ystyried eu bod yn ddigartref er nad yw eu sefyllfa'n 'weladwy' ar y strydoedd nac mewn ystadegau swyddogol. Byddai enghreifftiau clasurol yn cynnwys aelwydydd sy'n byw mewn amodau difrifol orlawn, sgwatwyr, pobl sy'n 'syrffio soffas' yn nhai eu ffrindiau neu eu perthnasau, pobl sy'n rhannu'n anwirfoddol ag aelwydydd eraill yn hirdymor, a phobl sy'n cysgu ar y stryd mewn lleoliadau cudd. Oherwydd natur digartrefedd cudd, mae'n anodd asesu faint ohono sy'n digwydd a beth yw'r tueddiadau, ond mae rhai elfennau penodol ar ddigartrefedd cudd posibl y gellir eu dadansoddi'n ystadegol, a'r elfennau hyn a fydd yn cael sylw yn yr astudiaeth hon. Mae hyn yn cynnwys

aelwydydd 'gorlawn', a hefyd aelwydydd 'cudd' ac aelwydydd sy'n 'rhannu'.

1.3 Dulliau ymchwil

Defnyddir tri phrif ddull yn yr astudiaeth hydredol hon.

Yn gyntaf, adolygir llenyddiaeth, ymchwil a dogfennau polisi perthnasol.

Yn ail, rydym yn cynnal cyfweiliadau manwl â sampl o hysbyswyr allweddol o bob rhan o'r sectorau statudol, gwirfoddol ac academiaidd yng Nghymru, gan gynnwys rhai sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd digartref, pobl sengl a phobl ifanc. Bu un ar bymtheg o hysbyswyr allweddol yn cymryd rhan yn y cyfweiliadau hyn yn 2017 (gweler Atodiad 1 am ganllaw i'r pwnc).

Yn drydydd, rydym yn cynnal dadansoddiad ystadegol ar a) tueddiadau economaidd a chymdeithasol perthnasol yng Nghymru, yn enwedig ar ôl 2007; a b) graddfa, natur a thueddiadau digartrefedd ymysg y pedwar is-grŵp a nodwyd uchod.

Yn bedwerydd, ac am y tro cyntaf yng Nghymru, rydym wedi cynnal arolwg ar-lein pwrpasol o awdurdodau lleol Cymru. Cynhaliwyd yr arolwg hwn yn y cyfnod Mawrth-Ebrill 2017. Anfonwyd e-bost at gysylltiadau yn yr awdurdodau lleol i gyflwyno'r ymchwil a'u gwahodd i gymryd rhan ar-lein. Ar ôl rhywfaint o waith dilynol, cafwyd ymateb gan 19 o'r 22 awdurdod (86%). Gweler Atodiad 2 i gael y manylion.

1.4 Achosiant a digartrefedd

Mae pob Monitor Digartrefedd yn seiliedig ar fframwaith cysyniadol ar achosiant digartrefedd a ddefnyddiwyd gennym i ddehongli effeithiau tebygol newidiadau i'r economi ac i bolisiau.²⁴

Mae safbwyntiau damcaniaethol, hanesyddol a rhyngwladol yn dynodi bod achosiant digartrefedd yn gymhleth, ac nad oes un 'sbardun' sy'n 'angenrheidiol' nac yn 'ddigonol' er mwyn iddo ddigwydd. Mae ffactorau unigol, rhyngbersonol a strwythurol i gyd yn cyfrannu – ac yn rhyngweithio â'i gilydd – ac mae cydbwysedd yr achosion yn amrywio dros amser, ar draws gwledydd, a rhwng grwpiau demograffig.

O ran y prif ffactorau strwythurol, mae ymchwil cymharol rhyngwladol, a phrofiad o ddirwasgiadau blaenorol y Deyrnas Unedig, yn awgrymu mai tueddiadau a pholisiau'r farchnad dai sy'n cael yr effaith fwyaf uniongyrchol ar lefelau digartrefedd; mae dylanwad newidiadau yn y farchnad lafur yn fwy tebygol o ddigwydd yn hwyrach ac yn fwy gwasgaredig, ac wedi'u cyfryngu'n gryf gan drefniadau lles a ffactorau cyd-destunol eraill. Erbyn hyn, sefydlwyd yn gadarn bod tlodi, yn enwedig tlodi yn ystod plentyndod, yn ganolog i gynhyrchu digartrefedd.²⁵

Mae bregusrwydd unigolion, anghenion am gymorth ac ymddygiad 'cymryd risgiau' yn cael y bai am ddigartrefedd rhai pobl; mae'r ffactorau hyn yn aml, er nad bob amser, hefyd wedi'u gwreiddio yn y pwysau sy'n gysylltiedig â thlodi a ffurfiau eraill ar anfantais strwythurol. Ar yr un pryd, mae'r perthnasoddedd cymdeithasol 'angori' sy'n gallu bod yn brif 'fyffer' rhag digartrefedd yn gallu dod dan straen sylweddol oherwydd amgylchiadau ariannol drwg. Felly, gellid disgwyl i'r amodau economaidd sy'n gwaethygu yng Nghymru gynhyrchu mwy o fregusrwydd 'unigol' a 'rhyngbersonol' i ddigartrefedd dros amser.

²³ Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2012) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis.

²⁴ I gael mwy o wybodaeth am y fframwaith cysyniadol hwn, darllenwch Bennod 2 y Monitor Digartrefedd Cymru cyntaf: Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2012) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis.

²⁵ Bramley, B. a Fitzpatrick, S. (ar y gweill) 'The social distribution of homelessness in the UK: Who is most at risk?', *Housing Studies*

1.5 Strwythur yr adroddiad

Mae Pennod 2 yn adolygu'r cyd-destun economaidd presennol a goblygiadau datblygiadau'r farchnad dai i ddigartrefedd yng Nghymru. Mae Pennod 3 yn troi'r ffocws at effeithiau datblygiadau polisi o dan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ers 2010, yn enwedig eu hagenda diwygio lles, a Llywodraeth Cymru, yn enwedig eu polisiâu sy'n ymwneud â thai, digartrefedd a materion cysylltiedig. Mae Pennod 4 yn rhoi'r dadansoddiad diweddaraf o'r data ystadegol sydd ar gael am raddfa bresennol digartrefedd yng Nghymru, a'r tueddiadau diweddar, gan ganolbwyntio ar y pedwar is-grŵp a nodwyd uchod. Mae'r penodau hyn i gyd yn seiliedig ar y mewnwelediad a gawsom o'n cyfweiliadau ansoddol â hysbyswyr allweddol a gynhaliwyd yn 2017. Ym Mhennod 5, rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau adroddiad eleni.

Ffactorau economaidd

2. Ffactorau economaidd a allai effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru


2.1 Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn adolygu datblygiadau diweddar i economi Cymru a'r farchnad dai, ac yn dadansoddi eu heffaith bosibl ar ddigartrefedd. Ar ôl trafod y cyd-destun economaidd ehangach, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygiadau sy'n effeithio ar fynediad at bob un o'r tair prif ddeiliadaeth, ac yna ceir ymatebion awdurdodau lleol Cymru ynglŷn â pha mor hawdd ydyw iddynt gael gafael ar dai er mwyn cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd.

2.2 Y cyd-destun economaidd ehangach


Er ein bod nawr wedi gweld pedair mlynedd o welliant graddol a chyson yn economi'r Deyrnas Unedig ar ôl dirywiad gwasgfa gredyd 2007, a bod Cynnyrch Domestig Gros (GDP) y Deyrnas Unedig nawr yn llawer uwch na lefelau 2007, ceir amheuan sylweddol am ragolygon economaidd y dyfodol o ystyried yr ansicrwydd am safbwynt masnachu'r Deyrnas Unedig ar ôl y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, ac yn ôl pob tebyg y farchnad sengl Ewropeaidd.

Ffigwr 2.1 Gwelliant economaidd y Deyrnas Unedig yn parhau ond y dyfodol nawr yn llai sicr



Er bod yr economi wedi gwneud yn rhesymol dda yn syth ar ôl y bleidlais Brexit, ceir arwyddion erbyn hyn ei bod yn arafu, a disgwylir i'r ansicrwydd dros sefyllfa fasnachu'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol gael effaith anffafriol ar dwf economaidd yn y blynyddoedd nesaf. Ceir mwy a mwy o dystiolaeth bod cwmnïau â chysylltiadau economaidd cryf â bloc masnachu'r Undeb Ewropeaidd yn ystyried eu hopsiynau o ran y lleoliad gorau i rywfaint, os nad y cyfan, o'u busnes yn y dyfodol. Y rhagolwg diweddaraf gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yw na fydd GDP yn tyfu dim mwy na 2.0% y flwyddyn dros y 5 mlynedd hyd at 2021,²⁶ ond gwneir y rhagolwg hwnnw gan gydnabod bod mwy o ansicrwydd nag arfer o ganlyniad i benderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ffigwr 2.2 Newidiadau i werth gros gwirioneddol ers 2007




Ffynhonnell: GVA yn y gweithle wedi'i drosi'n werthoedd 2015 gan ddefnyddio datchwyddydd GDP – Economi, gwefan ONS

²⁶ Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2015) *Economic and fiscal outlook, March 2015*. Llundain: Y Llyfrfa.

Yn y cyd-destun hwnnw, rhagwelir y bydd diweithdra hawlwyr yn cynyddu ychydig bach dros y cyfnod, ond yn aros ymhell o dan un filiwn. Fodd bynnag, erbyn hyn ni ragwelir y bydd enillion cyfartalog y Deyrnas Unedig yn cynyddu'n ôl i lefelau 2007 tan 2022.

Dim ond ffigurau hyd at 2015 sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer economi Cymru, ac mae'r ffigurau'n ymwneud â gwerth ychwanegol gros (GVA) yn y gweithle, yn hytrach na chysyniad ehangach a mwy cynhwysol cynnyrch mewnwladol gros (GDP). Fodd bynnag, gan ddefnyddio'r mesur hwnnw, mae'r ffigurau'n dangos bod economi Cymru wedi crebachu'n fwy sylweddol nag yn Lloegr na'r Alban dros yr wyth mlynedd hyd at 2015, ac mai dim ond tuag 1% yn uwch ydoedd mewn termau real erbyn 2015 o gymharu â 2007.

Ffigwr 2.3 Cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru yn 2015



Ffynhonnell: Cyflogaeth yn y gweithle yng Nghymru, 2001 i 2015, Bwletin Ystadegol Ystadegau Cymru

Mae strwythur penodol economi Cymru hefyd yn cyfrannu at ragolygon Cymru. Fel y mae Ffigwr 2.3 yn ei ddangos, mae gan Gymru fwy o gyflogaeth yn y sector cyhoeddus o gymharu â'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd, yn ogystal â chyfran fwy o gyflogaeth yn y sectorau cynhyrchu ac amaethyddiaeth, er bod yr olaf o'r rhain yn dal i fod yn fach, yn gyfrifol am 3.5% o'r holl gyflogaeth yng Nghymru.

Un o oblygiadau amlwg y strwythur cyflogaeth hwnnw yw bod economi Cymru dan anfantais anghymesur oherwydd y toriadau i wariant cyhoeddus sy'n digwydd ar hyn o bryd. Er mai Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu sut i ddisbarthu'r toriadau hynny rhwng gwasanaethau, mae eu cynlluniau gwariant a'u polisiau cyffredinol yn dibynnu ar y fframwaith cyllidebol a'r setliadau ariannol a ddarperir gan lywodraeth y Deyrnas Unedig yn San Steffan. Mae'r strwythur cyflogaeth gwahanol yng Nghymru hefyd yn golygu y byddai effaith Brexit – beth bynnag a fydd – yn wahanol i'r effaith yng ngweddill y Deyrnas Unedig.


Un arall o nodweddion Cymru yw lefelau isel o ran tâl ac incwm aelwydydd, o gymharu â gweddill y Deyrnas Unedig. Yn wir, roedd cyflogau llawn-amser cyfartalog yng Nghymru yn 2016 12% yn is nag yn y Deyrnas Unedig gyfan, ac yn is nag yn yr Alban ac yn holl ranbarthau Lloegr.²⁷ Roedd incwm gwario gros aelwydydd y pen yn 2016 15% yn is nag yn y Deyrnas Unedig gyfan, ac eto'n is nag ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig heblaw Gogledd Iwerddon, a rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr.²⁸

2.3 Mynediad at berchentyaeth

Gwellodd fforddiadwyedd tai ar ddechrau'r 1990au ond dechreuodd waethygu o 1997 ymlaen, ac yn gyflymach ar ôl 2004. Roedd llawer o'r gwelliant mewn fforddiadwyedd yn seiliedig ar y gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau llog ar ôl 1990, yn gysylltiedig â'r cyfnod hir o chwyddiant isel o ganlyniad i bolisiau llywodraeth y Deyrnas Unedig ac amodau economaidd rhyngwladol ffafriol.

²⁷ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Annual Survey of Hours and Earnings, 2016 Results*. Llundain: ONS. Enillion yn y gweithle.

²⁸ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) *Regional Gross Disposable Household Income 1997 to 2014*. Llundain: ONS.

Ffigwr 2.4 Fforddiadwyedd y farchnad dai yng Nghymru

Ffynhonnell: Mynegeion yn seiliedig ar yr holl enillion llawn-amser a phrisiau tai cyfartalog yr ONS wedi'u haddasu yn ôl yr amrywiaeth o eiddo

Fel y gwelir yn Ffigwr 2.4 arweiniodd y cyfuniad o dwf economaidd estynedig, a chyfraddau llog isel, at gynnydd sydyn mewn prisiau tai o gymharu ag enillion ar ôl 1997. Er bod ffactorau eraill, megis y twf mewn buddsoddi yn y sector rhentu preifat (PRS), hefyd wedi chwarae rhan yn y cynnydd yn y prisiau tai, roedd y cyfraddau llog is ar ôl 1990 yn lleihau'r effaith honno i brynwyr tai.²⁹ Serch hynny roedd fforddiadwyedd, wedi'i fesur yn nhermau cost morgais gyfartalog fel cyfran o enillion llawn-amser cyfartalog, erbyn 2007 wedi codi i lefel debyg iawn i'r lefel yn 1990; ar frig 'bwm' diwethaf y farchnad dai.

Mae Ffigwr 2.4 yn seiliedig ar y gyfres ONS newydd prisiau tai 'wedi'u haddasu yn ôl yr amrywiaeth o eiddo', yn hytrach na phrisiau cyfartalog syml. Mae hyn nawr wedi'i addasu'n llawn yn ôl yr amrywiaeth o eiddo ac mae'n rhoi llawer gwell syniad o symudiadau prisiau tai dros amser na chyfresi nad ydynt yn addasu ar

gyfer y newidiadau i'r gymysgedd o anheddau (o ran maint, lleoliad ac ati) a werthwyd mewn un flwyddyn o gymharu ag un arall. Mae'r gyfres newydd hon yn dangos bod prisiau tai yng Nghymru, hyd yn oed yn 2016, yn dal i fod ychydig (1.3%) yn is na lefelau 2007. Mae Ffigwr 2.4 hefyd yn dangos, ar ôl ystyried y cynnydd bach mewn enillion ers 2007, a'r gostyngiadau pellach mewn cyfraddau llog, bod fforddiadwyedd i brynwyr tai wedi gwella'n sylweddol.

Fodd bynnag, er bod fforddiadwyedd tai wedi gwella ers 2007, mae mynediad at berchentyaeth wedi mynd yn fwy o broblem i ddarpar brynwyr am y tro cyntaf yn y cyfnod hwn; mae llai o arian mewn cronfeydd morgeisi a mwy o bwysau rheoleiddio wedi golygu bod llawer llai o gynhyrchion morgeisi ar gael sy'n caniatáu prynu â blaendal isel neu heb flaendal.³⁰ Cyn 2007, y norm am bron i dri degawd oedd bod gan dros hanner y morgeisi i brynwyr am y tro cyntaf gymhareb

benthyciad i werth o 90% neu fwy, a bod gan tua thraean gymhareb benthyciad i werth o 95% neu fwy. Mae'r gostyngiad sydyn yn y morgeisi â blaendal isel sydd ar gael ers 2007, i bob diben, wedi creu 'rhwyrstr cyfoeth' rhag perchentyaeth i ddarpar brynwyr am y tro cyntaf – mae'r Cyngor Benthycwyr Morgeisi (CML) yn amcangyfrif bod hyn yn eithrio tua 100,000 o ddarpar brynwyr bob blwyddyn yn y Deyrnas Unedig.³¹

Yn rhannol o ganlyniad i bolisiau Cymorth i Brynu llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae ychydig bach mwy o forgeisi â blaendal isel wedi bod ar gael i brynwyr am y tro cyntaf ers 2009, ond mae data'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) am forgeisi â blaendal isel i'r holl brynwyr tai yn dangos, hyd yn oed erbyn chwarter olaf 2014, mai dim ond tua thraean o nifer y morgeisi â blaendal isel yn 2007 a oedd ar gael, fel cyfran o bob blaendal morgais.³² Hefyd, mae'n ymddangos y caiff y cyfyngiad hwn ar ddarpar brynwyr am y tro cyntaf ei wneud yn fwy cadarn yn y dyfodol gan fframwaith rheoleiddio tynnach ar gyfer benthycwyr morgeisi a fydd yn ymestyn y tu hwnt i'r dryswch presennol yn y farchnad. I bob diben, mae hyn yn gywerth â throi'n ôl at y cyfyngiadau ar y morgeisi a oedd ar gael yn y blynyddoedd cyn dadreoleiddio'r marchnadoedd morgeisi ar ddechrau'r 1980au.

Ar lefel y Deyrnas Unedig, cynyddodd ôl-ddyledion morgeisi ac adfeddiannu yn gyflym ar ôl 2007. Fodd bynnag, fel y mae Ffigwr 2.10 yn ei ddangos, roedd y cynyddiadau hyn yn llawer llai amlwg na'r rhai a achoswyd gan y dirwasgiad ar ddechrau'r 1990au. Hefyd, gwelwyd cynnydd yn yr hawliadau posibl am feddiant a gyflwynwyd i'r llysoedd ar ôl 2003 (Ffigwr 2.5); roedd y cynnydd mewn cymarebau fforddiadwyedd yn golygu bod mwy o brynwyr diweddar

yn wynebu newidiadau i amgylchiadau nad oeddent yn gallu ymdopi â hwy, ac nid oedd pwysau effeithiol ar fenthycwyr, gan y farchnad na gan reoleiddio, i arfer 'dioddefgarwch'. Fodd bynnag, cynyddodd niferoedd yr ôl-ddyledion yn gyflym fel ymateb i'r wasgfa gredyd a'r dirwasgiad yn y blynyddoedd cyntaf ar ôl 2007.

Yn ymarferol, fodd bynnag, ers hynny mae'r cyfuniad o ostyngiadau mewn cyfraddau llog a dioddefgarwch benthycwyr wedi lleihau cyfran yr achosion o ôl-ddyledion uchel sy'n arwain at adfeddiannu. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi annog benthycwyr yn gryf i arfer dioddefgarwch, ac mae hyn wedi'i atgyfnerthu gan brotocolau llys a'r cyngor sydd ar gael mewn llysoedd i bobl â phroblemau â dyledion morgeisi. O ganlyniad, mae lefelau ôl-ddyledion a meddiannu wedi gostwng yn gyson bob blwyddyn ers 2009, ac wedi cyrraedd y lefel isaf ers dros 25 mlynedd.


Serch hynny, erys pryderon y gallai lefelau ôl-daliadau ac adfeddiannu gynyddu pan fydd cyfraddau llog yn dechrau cynyddu. Ceir pryderon hefyd am gyfyngiadau'r cynllun Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais (SMI). Mae'r darpariaethau dros dro a oedd yn caniatáu gwneud hawliadau SMI heb orfod aros naw mis ar ôl yr hawliad budd-dal lles cyntaf nawr wedi dod i ben, ac o 2018 ymlaen dim ond benthyciad y gellir ei adennill fydd SMI, nid budd-dal. Hefyd, mae eisoes yn wir bod cyflwyno Credyd Cynhwysol yn golygu na fydd SMI ar gael mwyach i aelwydydd sy'n gweithio llai nag 16 awr yr wythnos; yn lle hynny, bydd ganddynt hawl i gyfradd uwch o ddiystyriad enillion (neu 'lwfans gwaith'), a does dim cysylltiad rhwng hyn a lefel eu rhwymedigaethau morgais. Hyd yn oed gyda'r lwfans gwaith, bydd y drefn UC yn darparu llai o gymorth i berchenogion tai mewn

29 Wilcox, S. a Williams, P. (2009) 'The Emerging New Order', yn *UK Housing Review 2009/2010*. Coventry: CIH.

30 Pawson, H. a Wilcox, S. (2011) *UK Housing Review Briefing Paper*. Coventry: CIH.

31 Cyngor Benthycwyr Morgeisi (2013) 'Helping the bank of mum and dad', *CML News and Views*, 5ed Mehefin: <http://www.cml.org.uk/news/533/>

32 Gweler Tabl 2.3.3 yn: Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2015) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH.

Ffigwr 2.5 Gostyngiad yn lefelau achosion llys ar gyfer adfeddiannu morgeisi yng Nghymru

Ffynhonnell: Ystadegau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

gwaith â thâl isel o gymharu â'r drefn credydau treth bresennol.³³

Ar yr un pryd, mae'n bwysig cofio bod ôl-ddyledion morgeisi'n gyfrifol am gyfran lai a llai o dderbyniadau digartrefedd statudol yng Nghymru, fel sy'n wir ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig.³⁴

2.4 Mynediad at dai rhentu preifat

Dyblodd maint y sector rhentu preifat (PRS) dros y degawd diwethaf yng Nghymru (i 15% o bob annedd),³⁵ ac mae nawr yn chwarae rhan bwysig a physur wrth ddarparu llety i aelwydydd ar bob lefel incwm. Mae'r gwelliant yng nghyflenwad anheddau rhentu preifat wedi dod â hyblygrwydd sydd i'w groesawu i'r farchnad dai ehangach, ac mae hefyd wedi darparu ffynhonnell arall o lety i aelwydydd nad ydynt yn gallu canfod tai yn y

sector rhentu cymdeithasol nac fel perchennog tŷ (hyd yn oed oes nad y PRS yw'r deiliadaeth o'u dewis o reidrwydd).


Nid oes cyfres amser gadarn fwy hirdymor ar renti preifat yng Nghymru ar gael, ond mae data diweddaraf Llywodraeth Cymru'n dangos bod rhenti preifat cyfartalog yng Nghymru'n amrywio o £422 y mis am annedd un ystafell wely, i £768 am annedd pedair ystafell wely, ac o £400 i £575 y mis (am eiddo dwy ystafell wely) mewn gwahanol rannau o Gymru.³⁶ Mae gennym ddata dibynadwy am niferoedd y rhentwyr preifat incwm isel sy'n cael Budd-dal Tai (HB), ac mae'r niferoedd hynny wedi cynyddu'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig ers 2006. Erbyn 2015, roedd dros 85,000 o hawlwyd HB yn byw yn y sector yng

³³ Whitehead, C., Wilcox, S. a Williams, P. (ar y gweill), *The Vanishing Safety Net for Home Owners (Provisional Title)*. Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi.

³⁴ Gweler <https://www.crisis.org.uk/ending-homelessness/homelessness-knowledge-hub/homelessness-monitor/>

³⁵ Gweler Tabl 17 yn: Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH.

³⁶ Llywodraeth Cymru (2016) *Rhenti Sector Preifat yng Nghymru, 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Ffigwr 2.6 Twf cyflym y sector rhentu preifat

Ffynhonnell: Data Cymru (amcangyfrif yw ffigur HB 2008). UKHR ar gyfer data stoc; gwefan DWP ar gyfer data HB.

Nghymru, yn gyfrifol am dros 40% o'r holl denantiaid preifat. Trafodir effeithiau diwygio'r LHA ar y cyflenwad PRS a lefelau rhent, a materion sy'n codi o'r data cyfyngedig sydd ar gael am hawlwyd Credyd Cynhwysol, ym Mhennod 3 isod.

Un ffactor bwysig yn nhwff y PRS yw'r fantais gystadleuol sydd gan fuddsoddwyr gan fod morgeisi llog-yn-unig ar gael iddynt; mae'r rhain yn golygu costau misol llawer is na'r morgeisi ad-dalu sydd erbyn hyn bron yn orfodol i brynwyr tai. Y canlyniad yw bod rhent nodweddiadol yn fwy na digon i dalu costau llog morgeisi buddsoddwyr, ac y byddai morgais ad-dalu'n costio mwy i ddarparu brynwr na rhent nodweddiadol.³⁷ Mae Ffigwr 2.7 yn dangos effaith y ffactor reoleiddio hon, gan gymharu costau rhentu a phrynu yng Nghymru (yn seiliedig ar renti a phrisiau tai canolrifol ar gyfer pob maint annedd). Fodd bynnag, rhaid nodi y bydd y trefniadau treth

diwygiedig sydd nawr yn berthnasol i landlordiaid, gan gynnwys cynnydd mewn costau treth stamp ar bryniadau newydd a chyfyngiad ar y dreth sy'n dynadwy ar gyfer llog morgais,³⁸ i ryw raddau'n gwrthweithio'r fantais reoleiddio honno.


Er y bydd 'Treth Trafodiadau Tir' newydd yn cymryd lle'r dreth stamp bresennol yng Nghymru, nodwyd eisoes y defnyddir cyfraddau uwch y dreth honno ar gyfer tai prynu i osod ac ail dai; effaith hyn fydd adlewyrchu'r cyfraddau uwch sydd ar waith nawr ar gyfer y dreth stamp.³⁹ Mae Cymru hefyd wedi cyflwyno deddfwriaeth i ddarparu darpariaethau rheoleiddio diwygiedig i landlordiaid preifat a rhai newidiadau (cymharol fach) i'r trefniadau sicrwydd deiliadaeth ar gyfer tenantiaid preifat (Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016) (gweler hefyd: Pennod 3).

³⁷ Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH

³⁸ Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH

³⁹ Llywodraeth Cymru (2017) *Treth Trafodiadau Tir, 24 Mai 2017*. Gwefan Llywodraeth Cymru.

Ffigwr 2.7 Costau rhentu a phrynu yng Nghymru




Ffynhonnell: Prisiau Tai Arolwg Morgesei wedi'u Rheoleiddio 2015, Rhenti Preifat Llywodraeth Cymru

Rhaid cydnabod hefyd nad yw'r amrywiadau mewn rhenti preifat a phrisiau tai ledled Cymru i gyd yn dilyn yr un patrwm yn union. Er bod costau morgais ad-dalu'n fwy na rhenti preifat yn y rhan fwyaf o ardaloedd,⁴⁰ mewn rhai ardaloedd (yn bennaf, y rhai sydd wedi dioddef dirywiad eu diwydiannau traddodiadol) mae costau prynu tŷ yn llawer is, fel sydd i'w weld yn Ffigwr 2.8. Mae'r ffigwr hefyd yn dangos, yn y rhan fwyaf o rannau o Gymru, bod rhenti dwy ystafell wely a phrisiau tai chwarter isaf yn gymharol fforddiadwy i bobl ag enillion llawn-amser cyfartalog; dim ond yng Nghaerdydd, Ceredigion a Sir Benfro y mae costau morgesei (yn seiliedig ar forgais ad-dalu 95%) yn fwy na 25% o enillion cyfartalog.⁴¹

40 Nid yw'r ffigwr yn gwneud cymhariaeth gwbl union rhwng rhenti a chostau morgais, oherwydd nid oes prisiau tai ar gael yn ôl maint yr annedd ar lefel awdurdodau lleol.

41 Er bod y ffigwr yn seiliedig ar brisiau'r chwarter isaf, mae hyn i ryw raddau'n adlewyrchu'r canfyddiad bod tua dwy ran o bump o bob prynwr am y tro cyntaf yn prynu am brisiau'r chwarter isaf neu is. Rhaid cydnabod hefyd, er bod y ffigwr yn seiliedig ar enillion llawn-amser unigolion, bod y rhan fwyaf o brynwyr am y tro cyntaf mewn gwirionedd yn aelwydydd â dau incwm.

Ffigwr 2.8 Cymarebau Costau Rhenti a Morgesei i Enillion




Ffynhonnell: Seiliedig ar Brisiau Tai'r Chwarter Isaf (C3 2016), Rhenti Canolrifol 2 Ystafell Wely (2015) ac Enillion Canolrifol (2016)

Bu cynnydd mewn lefelau gorchmynion llys i landlordiaid preifat ers 1994, ond dros yr ychydig dros ddau ddegawd o 1990 hyd 2014, mae cyfanswm nifer y gorchmynion i landlordiaid preifat (gan gynnwys gorchmynion carlam sy'n gysylltiedig â Thenantiaethau Byrddaliol Sigr) wedi cynyddu'n llai cyflym na'r twf

ym maint y sector. Hefyd, er y bu rhai amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn yn niferoedd y gorchmynion i landlordiaid preifat, er y twf cyflym pellach yn y sector, nid oedd nifer yr achosion yn 2015/16 yn llawer uwch nag yr oeddent wyth mlynedd yn gynharach (gweler Ffigwr 2.9).

Ffigwr 2.9 Gorchmynion meddiannu landlordiaid preifat



Ffynonellau: Erthygl Ystadegol Llywodraeth Cymru (Gorchmynion), y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Gorchmynion Carlam).


2.5 Mynediad at dai cymdeithasol

Ar ôl 1990, bu cynnydd sylweddol mewn gosod yn y sector cymdeithasol; bu cynnydd 37% mewn gosod gan awdurdodau lleol i denantiaid newydd yn y cyfnod 1990-1998.⁴² Roedd hyn yn rhannol o ganlyniad i gamau a gymerwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i fuddsoddi mwy mewn tai newydd yn y sector cymdeithasol fel rhan o'u hymateb i gwmp y farchnad dai, ac yn rhannol oherwydd bod gwell fforddiadwyedd yn y sector preifat hefyd wedi galluogi mwy o denantiaid y sector cymdeithasol i symud allan i brynu, gan gynyddu nifer yr eiddo a oedd ar gael i'w 'ailosod' yn y sector cymdeithasol.

Fodd bynnag, ni welwyd patrwm tebyg o ran gosod yn y sector cymdeithasol ar ôl 2007, o leiaf tan 2013/14 (gweler Ffigwr 2.10). Cymeradwywyd

buddsoddiad ysgogi ar gyfer 2008/09 a 2009/10, a chyfrannodd hyn at gynnydd bach yn y tai cymdeithasol a oedd ar gael hyd at 2010/11, ond wedi hynny syrthiodd lefelau buddsoddi'n ôl tuag at y lefelau cyn y wasgfa gredyd. (Mae trafodaeth bellach am fuddsoddi yn y cyflenwad o dai fforddiadwy newydd i'w gweld isod.) Hefyd, nid oedd cyfyngiadau'r dirywiad economaidd dyfnach a hirach, a'r cyfyngiadau ar y cyllid morgais a oedd ar gael, yn ei gwneud yn haws i bobl symud yn wirfoddol allan o'r sector, rhywbeth a fyddai'n arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y tai a fyddai ar gael i'w hailosod yn y sector cymdeithasol. Ar ben hyn, yn bennaf oherwydd effaith hirdymor yr hawl i brynu, mae lefelau ailosod gan gynghorau wedi bod yn llawer is nag yr oeddent ar adeg y dirwasgiad ar ddechrau'r 1990au (hyd yn oed ar ôl ystyried effaith trosglwyddo stoc).

Ffigwr 2.10 Lefelau gosod cymdeithasol yn gwella, ond gosod i aelwydydd digartref yn gostwng



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru. Mae'r ffigurau gosod ar gyfer tenantiaid newydd yn unig; nid ydynt yn cynnwys trosglwyddo a chyfnod.

⁴² Wilcox, S. (2000) *Housing Finance Review 2000/01*. Coventry a Llundain: CIH a CML.

Bu cynnydd sydyn yn lefelau gosod i denantiaid newydd yn y sector rhentu cymdeithasol yn 2013/14. Roedd rhan fach o'r cynnydd hwnnw o ganlyniad i gynnydd yn niferoedd y gorchmynion llys i landlordiaid cymdeithasol ar gyfer meddiannu. Fodd bynnag, ers hynny mae lefelau gosod wedi gostwng eto, er eu bod yn dal i fod yn uwch nag yn y ddwy flynedd cyn 2013/14.

Ceir tuedd lawer cliriach tuag i lawr dros y degawd yn y niferoedd o'r gosodiadau hynny sydd ar gael i aelwydydd digartref. Yn y blynyddoedd hyd at 2011/12 roedd niferoedd gosod i aelwydydd digartref yn gyson ychydig dros 4,000 y flwyddyn; ers hynny, maent wedi gostwng i ychydig dros 3,000 y flwyddyn ers 2013/14. Dros yr wyth mlynedd cyn hynny, roedd tua chwarter yr holl osod i denantiaid newydd yn cael ei roi i aelwydydd digartref, ond yn y tair blynedd ddiwethaf mae'r gyfran wedi gostwng i tua 18%. Mae hyn yn cymharu â 22% yn Lloegr, a chanran llawer uwch (37%) yn yr Alban oherwydd eu dyletswyddau digartrefedd llawer ehangach.⁴³

Nid yw'r rhesymau dros y duedd hon yn gwbl glir, ond awgrymwyd yn y Monitor Cymru diwethaf y gallai'r archwiliadau 'fforddiadwyedd' mwy cyfyngol a ddefnyddir gan rai landlordiaid cymdeithasol fod yn cyfyngu ar fynediad rhai pobl ddigartref – yn enwedig aelwydydd iau sy'n teimlo effaith toriadau lles – i dai cymdeithasol. Yn sicr, roedd rhai hysbyswyr allweddol o awdurdodau lleol yn teimlo bod y cymdeithasau tai a gyfwelwyd yn 2017 yn teimlo bod y 'ddyletswydd i gydweithredu' a roddwyd ar gymdeithasau tai gan y ddeddfwriaeth digartrefedd newydd yng Nghymru (gweler Pennod 3) yn wannach nag y byddent wedi dymuno iddi fod:

"...pe bawn i'n brif weithredwr cymdeithas dai, byddwn i'n

taro un olwg ar y peth ac yn dweud, 'Wel dyna ni, does dim disgwyl i ni wneud dim byd... Ie, felly hoffwn weld cryfhau hynny... pe bai'n gryfach, byddai'n rhaid iddynt newid eu polisiau dyrannu.

... sut gallwch chi gau rhestr?

... sut mae'n bosibl i chi gau

rhestr, oherwydd allwch chi

ddim?... Ie, felly dydych chi

ddim yn gwneud penderfyniad

am angen am dai o gwbl, fel y

maent ar hyn o bryd ac fel yr

ydym ni, rydym yn dibynnu

arnyn nhw i anheddu pobl

yn uniongyrchol hefyd...

Rwy'n meddwl, pe gallai'r

ddeddfwriaeth newid mewn

rhyw ffordd, y dylai fod yn fwy

cadarn o ran gwneud yn siŵr

bod cymdeithasau tai'n

fwy atebol."

(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Er y bu cynnydd amlwg yn niferoedd y gorchmynion llys i landlordiaid cymdeithasol yn 2013, roedd cryn dipyn yn llai ohonynt o hyd nag yn y degawd cyn 2010, ac yn 2014 dechreuodd y niferoedd ostwng. Bu cynnydd yn nifer yr achosion adfeddiannu yn erbyn tenantiaid cymdeithasol hefyd yn 2013/14, a chynnydd arall yn 2014/15, cyn iddo ostwng eto yn 2015/16, er bod dros 900 ohonynt am y drydedd flwyddyn yn olynol.⁴⁴

Bu gostyngiad hefyd yn nifer yr ôl-ddyledion rhent yn y sector cymdeithasol rhwng 2009/10 a 2012/13, cyn i gynnydd mawr yn 2013/14 eu cynyddu'n ôl i lefelau 2009/10, ac ers hynny maent wedi aros

⁴³ Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH.

⁴⁴ Llywodraeth Cymru (2016) *Achosion Meddiannu ar gyfer Morgeisi a Landlordiaid a gymerwyd yn Llysoedd Sirol Cymru, 2015/16*. Llywodraeth Cymru.

o gwmpas y lefel honno. At ei gilydd, roedd bron i draean holl denantiaid y sector cymdeithasol (72,905) mewn ôl-ddyledion ar ddiwedd mis Mawrth 2016; roedd gan tua 2% werth dros 13 wythnos o ôl-ddyledion.⁴⁵ Mae Pennod 3 yn trafod sut y mae diwygio lles wedi cyfrannu at y cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent yn y sector cymdeithasol.

2.6 Y galw a'r cyflenwad tai cyffredinol

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf yn awgrymu y bydd y galw am dai'n parhau i dyfu'n gryf dros y tymor canolig a'r tymor hwy: yn y degawd o 2014 ymlaen, yr amcanestyniad presennol ar gyfer twf aelwydydd yng Nghymru yw tua 7,000 y flwyddyn ar gyfartaledd.⁴⁶ Nid yw hyn lawer yn uwch na lefel adeiladu tai newydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod yr allbwn yn dal i fod yn dipyn is na'r lefel gyfartalog dros y degawd cyn y wasgfa gredyd (tua 9,000 annedd y flwyddyn).

Er y cydnabyddir bod y cydbwysedd rhwng lefelau adeiladu tai a ffurfio aelwydydd yn ffactor pwysig o ran y pwysau hirdymor ar brisiau tai, yn y dyfodol agos mae'n debygol y bydd rhagolygon o dwf economaidd bach ac ansicr, a chyfyngiadau parhaus ar y morgeisi â blaendal isel sydd ar gael, yn dal i gyfyngu ar gynnydd mewn prisiau tai. Er bod y galw am fuddsoddiad mewn tai rhentu preifat yn debygol o barhau, o ystyried y manteision cystadleuol a gaiff buddsoddwyr prynu i osod o'u cymharu â phrynwyr am y tro cyntaf,⁴⁷ mae'r pwysau am i fyny y mae hyn yn ei roi ar brisiau tai yn debygol, i ryw raddau, o gael ei wrthbwysu gan effaith dychwelyd at gyfraddau llog ychydig yn uwch yn y pen draw.

45 Ystadegau Cymru (2017) *Tai gwag, gosod ac ôl-ddyledion rhent mewn tai cymdeithasol, 2015-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

46 Llywodraeth Cymru (2017) *Amcanestyniadau Aelwydydd Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig (seiliedig ar 2014)*. Llywodraeth Cymru.

47 Wilcox, S., Perry, J. a Williams, P. (2015) *UK Housing Review*. Coventry: CIH

48 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis. Atodiad 2, Tabl 3b.

2.7 Safbwyntiau awdurdodau lleol am y tai sydd ar gael i aelwydydd digartref

Gofynasom i awdurdodau lleol Cymru roi sylwadau am ba mor hawdd ydyw iddynt gael gafael ar dai er mwyn cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd. Mae'r canlyniadau'n awgrymu ei bod ychydig yn anoddach caffael tenantiaethau preifat na thenantiaethau cymdeithasol i aelwydydd digartref yng Nghymru (gweler Atodiad 2, Tabl 6); soniodd 12 o'r 19 o awdurdodau lleol Cymru a atebodd am o leiaf rywfaint o anhawster i gael gafael ar denantiaethau o'r fath, ond dim ond mewn tri achos (16%) y dywedwyd ei bod yn 'anodd iawn' (o gymharu â hanner (49%) holl awdurdodau lleol Lloegr pan ofynnwyd cwestiwn tebyg iddynt yn 2016).⁴⁸

Wrth egluro'r cyfyngiadau o gwmpas y tenantiaethau preifat (annibynnol) sydd ar gael, roedd sylwadau'r atebwyr yn tynnu sylw at yr heriau a berir gan gyfyngiadau'r Lwfans Tai Lleol (gweler Pennod 3) ledled Cymru, yn ogystal â'r cyflenwad cyfyngedig o eiddo addas yng Nghymru wledig yn benodol:

"Diffyg eiddo fforddiadwy, landlordiaid sy'n anfodlon i dderbyn LHA, diffyg eiddo mewn ardaloedd penodol yn y sir."

(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"... tra bo niferoedd yr unedau [PRS] yn gymharol iach... mae fforddiadwyedd... yn her. Nid yw ein cyfraddau LHA yn aml yn cyrraedd y costau rhentu ar gyfer yr eiddo sydd ar gael; mae'r rhan fwyaf o'n

cwsmeriaid yn gorfod talu o leiaf 10% yn ychwanegol wrth geisio cael mynediad i'r PRS. Ni wnaiff llawer o asiantau lleol ystyried ymgeiswyr ar fudd-daliadau, ac mae hyd yn oed rhai o'n hoff asiantau a landlordiaid o'r gorffennol ...[wedi mynd yn] fwy llym a detholus. Mae llawer o'r landlordiaid a'r asiantau hyn nawr yn mynnu ar warantwyr, sy'n creu rhwystrau ychwanegol rhag y PRS." (Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"Mae'r rhenti sy'n cael eu talu gan y Budd-dal Tai ar y cyfraddau LHA yn llawer is na'r hyn y mae'r rhan fwyaf o landlordiaid am ei gael, felly dydy'r rhenti ddim yn fforddiadwy mewn llawer o achosion. Mae landlordiaid hefyd yn anfodlon cymryd y risg o osod i unigolion ar incwm isel ac o ystyried y cynnydd mewn adnewyddu a datblygu yn y ddinas, mae wedi bod yn haws i landlordiaid osod llety i unigolion sy'n gweithio, gan eithrio rhai pobl ymhellach oddi wrth y farchnad PRS." (Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

Mae cyfran gymharol isel y gosod cymdeithasol yng Nghymru i bobl ddigartref wedi cael sylw uchod, a mynegodd bron hanner yr awdurdodau lleol a ymatebodd (8 o 19) rywfaint o anhawster i ganfod

tenantiaethau mewn tai cymdeithasol i bobl ddigartref. Roedd sylwadau esboniadol gan awdurdodau lleol yn ffocysu ar faterion yn ymwneud â'r cyflenwad cyffredinol ac, mewn rhai achosion, ar bolisiau dyrannu cymdeithasau tai:

"Rydym yn credu mai [enw'r awdurdod lleol] sydd â'r lefel isaf o dai cymdeithasol anghenion cyffredinol o bob un o'r 22 ardal awdurdod lleol, wrth edrych ar y gyfran o'r holl gartrefi. Mae gennym lawer o dai gwarchod, ond nid dyma ble rydym dan bwysau o ran digartrefedd."

(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"[Does gan] yr Awdurdod [ddim] Cofrestr Tai Cyffredin ac felly ... dim rheolaeth dros ddyraniadau. Teimlir yn gryf y bydd RSL yn dewis a dethol eu cleientiaid, a bydd y rhai â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu heithrio o'r tenantiaethau hyn oherwydd dyled, materion â hen denantiaethau, euogfarnau, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ati."

(Atebydd o awdurdod lleol 'Arall', 2017)

Yn gyson â'r ymatebion i'r cwestiwn tebyg a ofynnwyd i awdurdodau lleol yn Lloegr, dywedodd awdurdodau Cymru fod mynediad i dai a rennir - fel sy'n fwy a mwy gofynnol oherwydd cyfyngiadau diwygio lles ar lwfansau Budd-dal Tai i bobl dan 35 (gweler Pennod 3) - yn aml yn broblem fawr yn y PRS, ac nad yw darpariaeth o'r

fath prin yn bodoli o gwbl yn y sector cymdeithasol (Atodiad 2, Tabl 6).⁴⁹

“Mae rhannu’n fath o denantiaeth nad yw wedi’i brofi o gwbl â’n darparwyr tai cymdeithasol. Mae llawer yn gyndyn o ddefnyddio’r opsiwn hwn, a lle’r ydym wedi archwilio rhannu tai, mae’r darparwyr cymdeithasol yn gofyn am gynlluniau wedi’u gwarantu gan yr awdurdod lleol i yswirio rhag colled, difrod, materion rheoli.”

(Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

“Does dim [tai cymdeithasol a rennir]!”

(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

“Mae cystadleuaeth â myfyrwyr i ganfod tai [rhentu preifat] a rennir sy’n addas, felly mae’n anoddach anheddu cleientiaid digartref.”

(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

“Ychydig iawn o landlordiaid [preifat] yn y sir sy’n cynnig tenantiaethau a rennir.”

(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

Nid yw’n syndod, felly, mai pobl sengl o dan 35 oedd y grŵp yr oedd amlaf yn anodd i awdurdodau lleol Cymru eu lletya (Atodiad 2, Tabl 7). Dywedodd bron bob un o awdurdodau lleol

Cymru ei bod ‘rywfaint’ yn anodd, neu’n anodd ‘iawn’, i ganfod cartrefi newydd i’r holl fandiau oed perthnasol rhwng 18 a 34 oed.

“Ar gyfer cleientiaid sengl 18 i 34 oed, yr her o ran llety sefydlog yw sicrhau rhenti fforddiadwy oherwydd effaith y gyfradd LHA ar gyfer llety a rennir, oherwydd mae llety a rennir yn brin.”

(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

Er nad oedd yn ymddangos bod yr anawsterau cynddrwg i bobl sengl dros 35, serch hynny mynegodd 13 o’r 19 awdurdod a ymatebodd rywfaint o anhawster i ganfod cartrefi newydd i’r grŵp hwn. Gallai fod y cyfyngiadau sy’n berthnasol i’r cohort hyn hwn o bobl sengl yn fwy o adlewyrchiad o nifer yr anheddau bach sydd ar gael nag o’u gallu i dalu rhent:

“Mae llawer mwy o lety maint teulu ar gael nag o lety i aelwyd sengl.”

(Atebydd o awdurdod lleol ‘arall’, 2017)

“Mae llety i unigolyn sengl yn brin iawn.”

(Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

Yn drawiadol, soniwyd am broblemau mwy fyth o ran lletya pobl ifanc 16 a 17 oed; dywedodd 11 awdurdod fod hyn yn ‘anodd iawn’ a chwech arall ei fod ‘rywfaint yn anodd’, sydd i’r gwrthwyneb i’r sefyllfa yn Lloegr.⁵⁰

49 Gweler hefyd: Clarke, A a Heywood, A. (2016) *Feasibility Study of the Prospect of Developing a Viable Housing Model for those entitled only to access the Shared Accommodation Rate*. <http://www.cchpr.landecon.cam.ac.uk/Projects/Start-Year/2016/Shared-Accommodation-Wales/Final-Report>

50 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis. Atodiad 2, Tabl 5.

O gryn dipyn, y grŵp a oedd yn achosi’r lleiaf o broblemau yn ôl awdurdodau lleol oedd teuluoedd bach ag un neu ddau o blant; ni ddywedodd dim cyngor fod y grŵp hwn yn ‘anodd iawn’ eu lletya, a dim ond tri awdurdod a ddywedodd eu bod ‘rywfaint yn anodd’. Mae’n ymddangos bod hyn yn rhannol oherwydd y cyflenwad anheddau sydd ar gael, yn ogystal â’r ffaith bod y toriadau i fudd-daliadau ers 2010 wedi effeithio’n llai difrifol ar y grŵp hwn (gweler Pennod 3). Ar gyfer teuluoedd mwy â thri neu fwy o blant, ar y llaw arall, dywedodd 16 o’r 19 awdurdod lleol eu bod yn wynebu heriau i’w lletya, ac roedd y sylwadau ategol yn egluro bod hyn yn fater o broffil y stoc yn ogystal â chyfyngiadau lles:

“Diffyg eiddo mawr i deuluoedd, oherwydd defnyddir y rhan fwyaf o’r eiddo mawr ar gyfer myfyrwyr.”

(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

“Dim ond nifer bach o dai cymdeithasol [4 gwely a mwy] sydd gennym ... mae’r amser aros cyfartalog i gael eiddo o’r gronfa fach hon tua 4 mlynedd, felly dydy hyn ddim yn opsiwn i bobl sy’n wynebu risg o ddigartrefedd. Yn y gorffennol, PRS oedd yr unig opsiwn i’r aelwydydd hyn, ond mae llai nag erioed o’r math hwn o eiddo ar gael ac mae’n fwy costus... ymhell dros ein cyfradd LHA 4 gwely. Mae hyn yn peri risg enfawr i’r Awdurdod oherwydd mae gennym ddyletswyddau i’r cwsmeriaid hyn ond [ychydig os nad] dim llety i’w cynorthwyo ...”
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

“Diffyg stoc yn gyffredinol i deuluoedd mawr ac unigolion sengl yn y fwrdeistref.”

(Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

Roedd y mwyafrif llethol o ymatebwyr o’r awdurdodau lleol yn rhagweld y bydd yn mynd yn anoddach fyth cyflawni eu dyletswyddau digartrefedd dros y 2-3 mlynedd nesaf. Dyma oedd y disgwyliad cyffredinol ar gyfer pob grŵp ar wahân i deuluoedd bach â phlant (Atodiad 2, Tabl 7). Roedd yr esboniadau gan atebwyr yn nodi mai’r diwygiadau lles parhaus oedd prif wraidd eu pryder (gweler Pennod 4), ond bod ffactorau’n ymwneud â’r farchnad dai a ffactorau cyd-destunol eraill yn cyfrannu hefyd:

“...cap budd-daliadau, cyfyngu ar 2 o blant o ran Credydau Treth, dileu costau tai i bobl ifanc 18-21 mlwydd oed, rhewi budd-daliadau, Credyd Cynhwysol, dileu taliadau uniongyrchol i landlordiaid, diffyg arian pontio [newydd ar gyfer deddfwriaeth digartrefedd] gan Lywodraeth Cymru sydd wedi bod yn gymorth mawr o ran sicrhau eiddo rhentu preifat, cynnydd yng nghostau sicrhau gosod preifat (ffioedd asiantaeth, ffioedd cyfeirio, bondiau, gofyniad am warantwr).”
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

“Mae rhai landlordiaid a oedd wedi dewis rhentu eu heiddo nawr yn dweud wrthym, wrth i’r farchnad werthu wella, eu bod yn bwriadu gwerthu eiddo (eithaf cyffredin ymysg ein landlordiaid un uned)....”

mae rhai newidiadau i drethi i landlordiaid dros y cwpl o flynyddoedd diwethaf yn ei wneud yn syniad llai deniadol. Yn olaf, mae llawer o landlordiaid yn pryderu'n fawr am y risgiau sy'n gysylltiedig â Chredyd Cynhwysol.'

(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"Bydd y galw cyffredinol am lety i bobl sengl yn cynyddu ac o ystyried y newidiadau i renti cymdeithasol ym mis Ebrill 2019, llety a rennir fydd yr unig ddewis i bobl, sy'n golygu y bydd y dewisiadau llety i lawer o bobl yn brin iawn. Bydd llety cyffredinol yn y PRS yn anoddach ei gael oherwydd y newidiadau diwygio lles a'r risgiau y bydd landlordiaid yn y sector PRS yn anfodlon eu cymryd."

(Awdurdod Lleol trefol, 2017)

2.8 Pwyntiau allweddol

- Er bod economi'r Deyrnas Unedig wedi gwella y tu hwnt i'r lefelau cyn y wasgfa gredyd, roedd dirywiad ariannol Cymru'n fwy difrifol, ac nid yw'r sefyllfa wedi gwella cystal ag yn Lloegr a'r Alban; cymerodd tan 2015 i economi Cymru fod fel yr oedd cyn y wasgfa gredyd. Hefyd, mae cyflogau llawn-amser cyfartalog yng Nghymru 12% yn is nag yn y Deyrnas Unedig gyfan, ac yn is nag yn yr Alban ac yn holl ranbarthau Lloegr.
- Mae prisiau tai'n dal i fod ychydig bach yn is na lefelau 2007, ond oherwydd cyfraddau llog is a chynyddiadau bach i enillion arian parod, mae fforddiadwyedd wedi gwella. Fodd bynnag, er y cynllun Cymorth i Brynu, mae'n dal i fod

yn anodd cael morgeisi â blaendal isel. Mae fforddiadwyedd hefyd yn fwy o broblem yng Nghaerdydd, Ceredigion a Sir Benfro.

- Mae lefelau ôl-ddyledion morgeisi ac adfeddiannu wedi gostwng yn gyson ers 2009; dim ond ffactor bach iawn o ran lefelau derbyniadau digartrefedd yw hyn. Fodd bynnag, ceir pryderon am effaith cyfraddau llog uwch yn y dyfodol, a'r llai o gymorth a gaiff perchenogion tai yn y dyfodol o dan y cynlluniau Cymorth ar gyfer Llog ar Forgais a Chredyd Cynhwysol.
- Dyblodd maint y sector rhentu preifat dros y degawd diwethaf (i 15% o bob annedd), ac mae dau o bob pum tenant nawr yn cael Budd-dal Tai. Nid yw rhenti dwy ystafell wely cyfartalog yn fwy na 25% o enillion llawn-amser cyfartalog yn unman; ond dim ond mewn pedair ardal awdurdod lleol y maent yn is nag 20% o enillion llawn-amser cyfartalog.
- Er y bu amrywiadau bach o flwyddyn i flwyddyn yn lefelau gosod yn y sector cymdeithasol dros y degawd diwethaf, bu gostyngiad amlwg yng nghyfran y gosodiadau hynny a ddyrannwyd i aelwydydd digartref ers 2012/13 – i lawr i tua 18% o'r holl osod i denantiaid newydd yn y tair blynedd diwethaf, o gymharu â'r norm diweddar o tua chwarter.
- Cynyddodd ôl-ddyledion rhent yn y sector cymdeithasol yn sylweddol yn 2013/14, ac ers hynny maent wedi aros ar lefelau tebyg. Roedd bron i draean holl denantiaid y sector cymdeithasol (72,905) mewn ôl-ddyledion ar ddiwedd 2015/16; roedd gan 2% werth dros 13 wythnos o ôl-ddyledion. Hefyd, bu mwy o achosion llys yn ymwneud â landlordiaid cymdeithasol yn 2013, ond ers hynny maent wedi gostwng yn ôl i'r lefel isaf y ganrif hon. Fodd bynnag, am y drydedd flwyddyn yn

olynol, roedd dros 900 o achosion o adfeddiannu yn erbyn tenantiaid yn y sector cymdeithasol yn 2015/16.

- Mae'r amcanestyniadau aelwydydd diweddaraf yn awgrymu y bydd y galw am dai'n parhau i dyfu'n gryf dros y tymor canolig a'r tymor hwy: yn y degawd o 2014 ymlaen, yr amcanestyniad presennol ar gyfer twf aelwydydd yng Nghymru yw tua 7,000 y flwyddyn ar gyfartaledd. Nid yw hyn lawer yn uwch na lefel adeiladu tai newydd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, er bod yr allbwn yn dal i fod yn dipyn is na'r lefel gyfartalog dros y degawd cyn y wasgfa gredyd.
- O ganlyniad i gyfyngiadau ar broffil stoc a chyfyngiadau diwygio lles, mae awdurdodau lleol Cymru yn dweud mai'r anhawster mwyaf iddynt yw canfod cartrefi newydd i bobl sengl ddigartref o dan 35 a theuluoedd mwy â phlant. Mae'r mwyafrif llethol yn rhagweld mwy o anawsterau i letya'r grwpiau hyn dros y ddwy i dair blynedd nesaf o ganlyniad i ddiwygiadau lles parhaus, yn ogystal â datblygiadau o ran y farchnad dai a datblygiadau cyd-destunol eraill.

Polisiau Llywodraeth

3. Polisiâu San Steffan a Llywodraeth Cymru a allai effeithio ar ddigartrefedd yng Nghymru

3.1 Cyflwyniad

Roedd Pennod 2 yn ystyried goblygiadau'r dirywiad economaidd ers 2007 a'r gwelliant a ddilynodd i ddigartrefedd; nawr, mae'r bennod hon yn troi at adolygu datblygiadau polisi y gellid disgwyl iddynt effeithio ar grwpiau digartref a phobl sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd. Mae'n ymwneud â meysydd polisi sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru (digartrefedd, tai a pholisiau cysylltiedig) a meysydd polisi sydd wedi'u cadw i San Steffan ac sydd felly'n gyfrifoldeb Llywodraeth y DU (diwygio lles).

3.2 Polisiâu digartrefedd yng Nghymru

Yn y Monitor Digartrefedd Cymru cyntaf, buom yn adolygu hanes polisiâu digartrefedd yng Nghymru ar draws ein pedwar is-grŵp allweddol.⁵¹

Yma, rydym yn canolbwyntio ar y datblygiadau pwysig diweddar mewn polisiâu digartrefedd sy'n ymwneud â'r newidiadau mawr i'r system ddigartrefedd statudol yng Nghymru a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, a hefyd y datblygiadau o ran 'Cefnogi Pobl' a darpariaeth llety â chymorth, a phobl sy'n cysgu ar y stryd.

Digartrefedd statudol a Deddf Tai (Cymru) 2014

Fel y trafodwyd mewn Monitorau Digartrefedd Cymru blaenorol, roedd darpariaethau digartrefedd Deddf Tai (Cymru) 2014 yn seiliedig ar adolygiad 'Mackie' o ddeddfwriaeth digartrefedd, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gwblhawyd yn 2012.⁵² Ers hynny, mae 'model Cymru' wedi dylanwadu'n gryf ar ddatblygiad Deddf Lleihau Digartrefedd 2017 a basiwyd yn ddiweddar yn Lloegr.⁵³

Bwriad adolygiad Mackie oedd unioni'r hyn y teimlwyd eu bod yn ddau wendid allweddol yn y ddeddfwriaeth bresennol yng Nghymru (ac yn Lloegr). Yn gyntaf, nad oedd pwyslais cynyddol ar ymyriadau ataliol ('dewisiadau tai') yn cyd-fynd yn gyfforddus â'r system statudol, gan arwain at bryderon am 'ddidoli' anghyfreithlon ac anghysondeb o ran arferion ledled Cymru. Yn ail, yn aml iawn na ddarparwyd dim 'cymorth ystyrion' i bobl ddigartref anstatudol, yn enwedig dynion sengl digartref.⁵⁴ Cafodd cynigion yr adolygiad am fodel newid seiliedig ar 'ddatrysiadau tai', a fyddai'n cynnwys troi prif ffocws dyletswyddau awdurdodau lleol at ymyriadau ataliol mwy hyblyg,⁵⁵ bron i gyd eu cynnwys ym Mhapur Gwyn Tai Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012,⁵⁶ ynghyd ag ymrwymiad i gael gwared ar y prawf 'bwriadoldeb' i aelwydydd â phlant erbyn 2019.

Cafodd Deddf Tai (Cymru) 2014 Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2014, a daeth y darpariaethau digartrefedd allweddol i rym ym mis Ebrill 2015. Rhoddwyd disgrifiad manwl o'r system digartrefedd newydd yn y Monitor Digartrefedd Cymru diwethaf; gweler hefyd: y siart llif o ddyletswyddau a gyflwynir ym Mhennod 4 (Ffigwr 4.3). Ond yn gryno, roedd prif themâu cynigion Mackie/y Papur Gwyn yn dal i sefyll, yn enwedig y dyletswyddau cryfach 'dall i angen blaenoriaethol' ar awdurdodau lleol i "gymryd camau rhesymol" i "helpu i atal digartrefedd" (Adran 66) ac i "helpu i sicrhau llety" i bobl sydd eisoes yn ddigartref (Adran 73) (cyfeirir yn gyffredinol

at y dyletswyddau newydd hyn fel dyletswyddau Cam 1 'atal' a Cham 2 'rhyddhau' yn ôl eu trefn). I'r bobl hynny sy'n ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol, yna bydd 'Cam 3' (Adran 75) 'dyletswydd statudol lawn' i sicrhau llety addas yn digwydd os yw'r ymdrechion atal a/neu ryddhau wedi methu. Yn hanfodol, fodd bynnag, ni chaiff ymgeiswyr sy'n "methu â chydweithredu mewn modd afresymol" â'r cymorth atal neu ryddhau, neu rai sy'n gwrthod cynnig addas o lety, symud ymlaen i Gam 3.⁵⁷ Mae'r prawf bwriadoldeb hefyd yn dal i fodoli ar Gam 3, ond gall awdurdodau lleol benderfynu 'optio i mewn' i ddefnyddio'r prawf â dim, rhai neu bob un o'r grwpiau angen blaenoriaethol. O 2019 ymlaen bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu llety i deuluoedd a phobl ifanc 16 ac 17 mlwydd oed sy'n fwriadol ddigartref, oni bai eu bod wedi'u canfod yn fwriadol ddigartref yn y pum mlynedd cyn hynny.

Roedd darpariaethau digartrefedd Deddf 2014 yn dechrau dod i rym ar adeg ysgrifennu Monitor Digartrefedd diwethaf Cymru, ond yr arwyddion cynnar oedd bod cryn dipyn o ewylllys da tuag at y fframwaith newydd ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol.⁵⁸ Yn sicr, roedd yn ymddangos bod cefnogaeth gref gan ein hysbyswyr allweddol ar y pryd i flaenoriaethu ymyriadau ataliol a'u gwneud yn rhan o'r prif fframwaith statudol.⁵⁹ Roedd croeso eang, hefyd, i'r estyniad sylweddol i hawliau ymgeiswyr digartref sengl, er y bu siom mewn rhannau o'r sector gwirfoddol bod cynigion am ddyletswydd (dall

51 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2012) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis.

52 Mackie, P. (2014) 'The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance?', *Contemporary Wales*, 27(1): 1-2; Mackie, P. (2015) 'Homelessness Prevention and the Welsh Legal Duty: Lessons for International Policies', *Housing Studies*, 30(1): 40-59.

53 Fitzpatrick, S. (2017) *The Homelessness Reduction Act 2017: An Historic Step Forward for Single Homeless People*, *blog I-SPHERE*, 27ain Ebrill: <https://i-sphere.org/2017/04/27/the-homelessness-reduction-act-2017-an-historic-step-forward-for-single-homeless-people/>

54 Mackie, P. (2014) 'The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance?', *Contemporary Wales*, 27(1): 1-20; Mackie, P. (2015) 'Homelessness Prevention and the Welsh Legal Duty: Lessons for International Policies', *Housing Studies*, 30(1): 40-59.

55 Mackie, P., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012) *Opsiynau ar gyfer Gwell Fframwaith Ddeddfwriaethol i Ddigartrefedd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

56 Llywodraeth Cymru (2012) *Cartrefi i Gymru. Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/120521whitepaperen.pdf>

57 Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

58 Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru.

59 Mackie, P. (2014) 'The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance?' *Contemporary Wales*, 27(1): 1-20.

i angen blaenoriaethol) i ddarparu 'rhywle diogel i aros' i bob ymgeisydd wedi'u gwrthod yng ngoleuni gwrthwynebiad chwyrn gan WLGA.⁶⁰ Roedd yn ymddangos bod y Cod Arweiniad,⁶¹ a gyhoeddwyd wrth i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, wedi'i groesawu;⁶² dywedodd rhai hysbyswyr allweddol fod hyn oherwydd y model 'cydgynhyrchu' a ddefnyddiwyd i'w ddatblygu. Ystyriwyd hefyd bod rhaglen hyfforddiant i staff rheng flaen a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a ddarparwyd ar y cyd â Shelter Cymru ac WLGA, wedi bod yn llwyddiant. Roedd pryderon a heriau'n ffocysu, fel y gallai rhywun ei ddisgwyl, ar adnoddau ar gyfer y dyletswyddau newydd, a hefyd ar raddau'r newid diwylliant y byddai ei angen.

Mae Deddf Tai Cymru 2014 wedi cael dwy flynedd i'w 'sefydlu' ei hun erbyn adeg ein harolwg awdurdodau lleol 2017, felly roedd y tim ymchwil yn ystyried bod hyn yn adeg briodol i gasglu barn staff awdurdodau lleol am effeithiau'r ddeddfwriaeth newydd ar arferion digartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad hydredol annibynnol o ganlyniadau'r ddeddfwriaeth newydd, ond nid yw'r adroddiad interim cyntaf ar gael eto (bwriadwyd ei ryddhau ym mis Awst 2017). Mae Shelter Cymru, gyda chymorth yr Oak Foundation, eisoes wedi cyhoeddi adroddiad dan y teitl "*Camau Rhesyml*", yn seiliedig ar brofiadau 50 o ddefnyddwyr gwasanaeth digartrefedd a gyfwelwyd ar draws chwe awdurdod lleol rhwng mis Mai

a mis Awst 2016.⁶³ Yna, cafodd y data ansoddol hyn eu cynnwys mewn erthygl cyfnodolyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Pete Mackie ac Ian Thomas o Brifysgol Caerdydd, ynghyd â Jennie Bibbings o Shelter Cymru, a oedd hefyd yn defnyddio dadansoddiad o'r data digartrefedd swyddogol a chyfweliadau â darparwyr gwasanaethau, i adolygu'r flwyddyn gyntaf o ddefnyddio'r system newydd.⁶⁴ Roedd eu canfyddiadau'n dynodi bod y fframwaith cyfreithiol newydd wedi llwyddo i ailgyfeirio system Cymru tuag at atal digartrefedd, ac wedi arwain at wasanaeth llawer gwell i bobl sengl, er bod amrywiadau o ran canlyniadau gwasanaethau'n dal i fodoli ledled Cymru, a bod canlyniadau i bobl sengl yn dal i dueddu i fod yn waeth nag i deuluoedd â phlant (gweler hefyd: Pennod 4).⁶⁵ Yn hollbwysig, roedd cyfweliadau â rheolwyr gwasanaethau ac â phobl ddigartref a oedd wedi ceisio cymorth o dan y trefniadau gweinyddol newydd "*yn aml yn tynnu sylw at natur gefnogol a gofalgar y cymorth a ddarperir*"; dywedwyd bod hyn yn gyferbyniad llwyr â'r profiad o dan y system flaenorol.⁶⁶

Yn gyson â hyn, roedd cydbwysedd yr ymatebion i'n harolwg ar-lein o awdurdodau lleol Cymru'n nodi'n gryf bod profiadau o'r system ddigartrefedd ddiwygiedig hyd yn hyn yn gadarnhaol ar y cyfan (gweler Atodiad 2, Tabl 4). Felly, roedd mwyafrif mawr o'r cyfranogwyr yn teimlo bod y drefn newydd wedi arwain at:

- Atal digartrefedd yn fwy effeithiol (16 o 19 o atebwyr)
- Defnyddio'r sector rhentu preifat yn fwy effeithiol (14 o 19 o atebwyr)
- 'Newid diwylliant' cadarnhaol at ddulliau sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion o ran gwasanaethau opsiynau tai (18 o 19 o atebwyr).

Er bod llai o unfrydedd ynglŷn ag effaith y ddeddfwriaeth ar, er enghraifft, ymdrin ag achosion a oedd yn cynnwys materion o ddigartrefedd bwriadol neu gysylltiad lleol, pan anogwyd cyfranogwyr i roi eu barn am effaith gyffredinol y ddeddfwriaeth newydd, roedd y mwyafrif llethol o'u teimladau'n gadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf yn croesawu'r hwb tuag at wasanaeth gwell, mwy rhagweithiol sy'n canolbwyntio mwy ar y cwsmeriaid:

"Mae'r Ddeddf wedi cael effaith gadarnhaol. Mae ymyrryd cynharach wedi golygu bod llai o gleientiaid yn mynd yn ddigartref."
(Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

"Mae wedi rhoi mwy o gyfle i weithio gyda phobl na fyddem o reidrwydd wedi'u helpu o'r blaen, ac mae hynny wedi lleihau digartrefedd yn y sir."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"[Mae Cynlluniau Tai Personol] wedi cael effaith gadarnhaol i gwsmeriaid ac mae'r arian pontio wedi bod o gymorth mawr i ni."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

Roedd llawer o awdurdodau lleol yn pwysleisio'r 'trosoledd' yr oedd y ddeddfwriaeth newydd wedi'i rhoi

iddynt wrth ymdrin â phartneriaid perthnasol:

"Mae'r ymwybyddiaeth o newidiadau i'r ddeddfwriaeth ymysg partneriaid wedi ein helpu i greu perthnasoedd newydd a gwell ag adrannau eraill y cyngor a phartneriaid allanol a gweithio tuag at ddulliau mwy cydweithredol o reoli a lliniaru digartrefedd."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

Mewn rhai achosion, cafodd y teimladau hyn eu hamodi gan bryderon am ddiffyg adnoddau staff neu'r anallu i sicrhau digon o dai fforddiadwy:

"Oherwydd y llwythi achosion sydd nawr yn drwm iawn ... mae'r gwaith yn dal i fod wedi'i arwain gan argyfyngau. Rydym yn ceisio unioni hyn ond mae angen llawer o adnoddau; rydw i'n teimlo, os oes gan swyddogion llawn-amser faich o dros 35 o achosion, na allwn gyflawni ar y Ddeddf hon. Mae'r beichiau achosion presennol yn 50 ar gyfartaledd."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"Rydym yn helpu mwy o bobl nawr nag o dan y ddeddfwriaeth flaenorol. Fodd bynnag, mae diffyg llety fforddiadwy yn yr ardal o hyd; felly rwy'n teimlo nad oes gennym ddigon o adnoddau i'r Ddeddf gael effaith gadarnhaol ar bawb, yn enwedig pobl nad

60 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis.

61 Llywodraeth Cymru (2015) *Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?lang=en>

62 Llywodraeth Cymru (2015) *Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion. Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <http://gov.wales/docs/desh/consultation/150501-code-of-guidance-to-la-consultation-summary-of-responses-en.pdf>

63 Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru.

64 Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

65 Ibid. Gweler hefyd: Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru.

66 Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107, t. 92

oes dyletswydd derfynol yn ddyledus iddynt.”
(Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

Wrth roi mwy o gefnogaeth i ganlyniadau'r arolwg, mynegodd ein hysbyswyr allweddol hefyd deimladau cadarnhaol iawn am y ddeddfwriaeth newydd:

“Mae'r gweithwyr awdurdod lleol rydw i'n siarad â nhw'n mwynhau cyflawni'r ddeddfwriaeth hon yn fwy na'r ddeddfwriaeth flaenorol am ei bod yn canolbwyntio mwy ar ddatrysiadau a chanlyniadau. Ar y cyfan, fy argraff i o weithio yng Nghymru yw ei bod yn gadarnhaol.”
(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

“Mae awdurdodau lleol wir yn cydnabod nad yw'n fater o ddweud 'Nid fy nghyfrifoldeb i yw hyn, ond adran arall', ond bod â'r cyfrifoldeb corfforaethol, felly mae hynny'n llawer gwell.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Pwysleisiwyd buddion y newid diwylliant a achoswyd gan Ddeddf 2014 ym mhob maes:⁶⁷

“Rydym yn sicr wedi gweld llawer o wahaniaethau yn fewnol yn y sector digartrefedd... yn y ffordd yr ydym i gyd yn gweithio gyda'n

gilydd...rydym wedi gweld llawer o arfer da'n dod allan o awdurdodau lleol, clirio hen ôl-ddyledion, talu ffioedd llys, rhoi bobl ar ben ffordd yn y PRS, ac weithiau pethau annisgwyl y mae angen eu gwneud dros bobl, ac maent wedi bod yn fodlon defnyddio'r arian hwnnw sut bynnag y mae angen.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

“...mae mwy o bobl wedi gallu cael help ac yn gynharach, a'u helpu i aros yn eu cartref... Felly mae hynny'n effaith enfawr... Mae wedi golygu y gallwn ni helpu amrywiaeth lawer ehangach o bobl.... pobl ifanc, sengl na fyddent, fel arfer, wedi cael dim gwasanaeth neu ddim llawer o wasanaeth, rydw i'n meddwl, hyd yn oed iddyn nhw, gallwch chi weld o'r ystadegau bod hynny'n llawer mwy cadarnhaol nawr. Mae llawer mwy o help; mwy o bobl yn cael eu helpu drwy'r ddeddfwriaeth newydd.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Ar yr un pryd, cydnabuwyd hefyd bod hyn yn broses hirdymor, a bod cryn ffordd i fynd i wneud arferion yn fwy cyson:⁶⁸

“Rydw i'n meddwl ein bod ni'n dal i ddysgu. Rydym yn siarad llawer am newid

diwylliant ac mae hynny'n dal i ddigwydd. Dydyn ni ddim wedi cyrraedd eto, yn fy marn i. Mae tipyn o waith i'w wneud eto â gweithwyr achos, gweithwyr cymorth, y staff ehangach mewn awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill, i ddeall ystyr y dyletswyddau.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Er bod pryderon yn parhau am ganlyniadau anghyson gwasanaethau rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru,⁶⁹ roedd teimlad cryfach o amrywioldeb o ran arferion o fewn awdurdodau lleol a fydd yn cymryd cryn amser i'w unioni.

“... mae da a drwg ym mhob cyngor, arfer da a drwg... mae gennych chi rai pobl [mewn timau Opsiynau Tai] sydd wedi croesawu'r ffordd newydd o weithio ac yn cael llawer mwy o foddhad ohoni, ac wir yn ei mwynhau hi. Mae gennych chi bobl eraill, yn enwedig rhai sydd wedi bod yno ers blynyddoedd lawer, sydd ddim yn mwynhau mwyach, ac sy'n gweld y ddeddfwriaeth fel baich arall; roedd ganddyn nhw lwythi achosion uchel yn barod, ac nawr maen nhw'n uwch. Rydw i wedi cael cymaint o sgysiau gonest â phobl dros y misoedd diwethaf am hyn, oherwydd maen nhw i gyd yn fodlon cyfaddef, 'Ydy, mae'n anodd iawn cael y bobl

iawn yn y swyddi hyn' ac 'oes mae eithaf llawer o newid staff wedi bod ers i'r ddeddfwriaeth newid.' Mae hynny'n dechrau gwella pethau, ond mae'n broses barhaus.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Nodwyd hefyd bod y newid diwylliant hwn yn ymestyn i fudiadau gwirfoddol perthnasol megis Shelter Cymru:⁷⁰

“...fel rhan o'u hymrwymiad i newid eu ffordd o weithio mewn perthynas â deddf 2014. Maen nhw [Shelter Cymru] wedi datblygu, rydw i'n meddwl mai memoranda dealltwriaeth ydyn nhw â'r awdurdodau lleol i ddweud, 'Gwnawn ni weithio gyda chi.' Yn amlwg, maen nhw'n dal i fod yn fudiad cynghori annibynnol. Gallan nhw ddal i herio... [ond]... ceisio gwneud y berthynas honno'n llai gwrthdrawiadaol... nid dim ond yr awdurdodau lleol oedd yn newid, roedd yna'r math o farn gyffredinol hon.”
(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Roedd yr adroddiad 'Camau Rhesymol' y cyfeirir ato uchod yn tynnu sylw at deimlad o or-ddibynnu ar fynediad at y PRS o fewn ymatebion awdurdodau lleol o dan y drefn newydd, a diffyg defnyddio ymyriadau eraill megis cyngor am arian a chyngor a chyfryngu ynglŷn â budd-daliadau.⁷¹

67 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

68 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

69 Ibid.

70 Gweler hefyd: Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru.

71 Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru.

Ategwyd y farn hon yn nheimplad yr hysbysydd allweddol isod nad oedd rhai awdurdodau lleol eto wedi symud yn ddigon pell i gyfeiriad cynorthwyo ymgeiswyr yn rhagweithiol.⁷²

"...mae'n ymddangos bod eithaf llawer o 'gamau rhesymol' bach iawn yn digwydd ar hyn o bryd, yn enwedig ar gyfer aelwydydd sydd ddim yn flaenoriaeth, yn enwedig mewn rhai o'r gwasanaethau opsiynau tai mwyaf a phrysuraf. Mae eithaf llawer o bobl yn cael eu troi i ffwrdd ag ychydig iawn o gymorth, weithiau dydy hi ddim yn edrych fel bod pobl yn cael dim mwy nag y bydden nhw'n ei gael o dan yr hen ddyletswydd cyngor a chymorth.... yn un cyngor... roedd pawb yn cael rhestr PRS ac yn cael eu troi i ffwrdd, hyd yn oed rhai aelwydydd mewn angen blaenoriaethol."
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Thema allweddol arall oedd sicrhau bod awdurdodau lleol yn defnyddio'r ddarpariaeth 'diffyg cydymffurfio' newydd yn briodol ac yn gyson.⁷³

"...rydyn ni'n pryderu drwy'r amser mai'r elfen diffyg cydymffurfio hon fydd y ffordd newydd o ddioli... dydw i ddim yn dweud bod hynny'n

72 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

73 Gweler hefyd: Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru.

74 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107; Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru.

bendant yn digwydd, ond mae rhywfaint o... anghysondeb [yn yr] arferion."

(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Roedd consensws cyffredinol bod rhoi 'Cynlluniau Tai Personol' ar waith yn faes lle'r oedd angen dysgu llawer o hyd.⁷⁴

"...rydyn ni'n cael adborth cymysg am ba mor ddefnyddiol ydyn nhw... o ran canfyddiadau defnyddwyr gwasanaeth o roi rhai o'r newidiadau deddfwriaethol ar waith... rydw i'n meddwl bod rhaid i ni edrych eto ar yr hyblygrwydd o gwmpas cynlluniau tai personol, a gwneud yn siŵr ein bod ni'n eu cael nhw'n iawn ar gyfer amgylchiadau unigol, fel bod gan bobl rywbeth maen nhw'n teimlo ei fod yn ddefnyddiol iddyn nhw, nid dim ond ymarfer ticio blychau...lle i wella fyddai fy marn i am hynny, rydw i'n meddwl!"
(Hysbysydd allweddol statudol, 2017)

Pan ofynnwyd pa agweddau ar y drefn newydd a oedd yn peri'r heriau mwyaf o ran eu rhoi ar waith, roedd dau fater yn amlwg yn ymatebion penagored cyfranogwyr yr arolwg awdurdodau lleol: yr her o ganfod tenantiaethau preifat sy'n fforddiadwy i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ôl diwygio lles (gweler Adran 3.3 isod);

a ffurfioli gweithgareddau ataliol a'r galw cysylltiedig o ran 'gwaith papur' ychwanegol.⁷⁵

"Y teimplad cryf yw bod y Ddeddf newydd yn canolbwyntio'n gryf ar y broses, sy'n tynnu llawer oddi wrth y gwaith atal. Mae'n rhaid i swyddogion dreulio llawer gormod o'u hamser yn cyflawni'r elfennau gweinyddol ar y Ddeddf."
(Atebydd o awdurdod lleol arall, 2017)

"Mae'r holl broses yn gymhleth dros ben ac mae'n cymryd llawer iawn o amser staff ac adnoddau i gofnodi'r hyn sy'n cael ei wneud a sicrhau bod llythyrau/hysbysiadau ac ati'n cael eu hanfon at unigolion. Mae hyn yn tynnu oddi wrth y gwaith ymarferol o gwmpas atal digartrefedd, er anfantais i'r cyhoedd sy'n chwilio am gymorth."
(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

Roedd y materion hyn hefyd yn codi mewn cyfweiliadau â hysbyswyr allweddol, ond roedd rhai'n teimlo bod cwynion gan awdurdodau lleol ynglŷn â hyn yn cael eu gorwneud:

"...mae'r llythyrau sy'n cael eu hanfon at bobl yn cymryd eithaf llawer o amser i'r cyngor eu cynhyrchu, dydy'r cleient ddim yn eu deall yn dda iawn...

75 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness prevention: reflecting on a year of pioneering Welsh legislation in practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

ond mae angen i chi gael rhywbeth ysgrifenedig i ategu hyn i gyd, neu allwch chi ddim gorfodi hawliau pobl."

(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Roedd llawer o atebwyr yr arolwg awdurdodau lleol yn mynegi pryderon am y posibilrwydd o ddiweddu'r Grant Cyllid Pontio ym mis Mawrth 2018 ac roedd hysbyswyr allweddol yn tueddu i rannu'r teimplad cyffredin eu bod wedi cael digon o arian hyd yn hyn ond bod angen ymestyn hynny y tu hwnt i'r cyfnod tair blynedd a fwriadwyd yn wreiddiol:

"Rydw i'n meddwl bod y cyllidebau, ar y cyfan, wedi bod yn ddigonol, ond mae eu hangen nhw am gyfnod hirach... er bod buddion enfawr i'r ddeddfwriaeth... Dydw i ddim yn meddwl bod newid diwylliant yn digwydd dros nos, a hefyd mae pethau newydd yn digwydd. Y newidiadau...budd-daliadau, er enghraifft...Mae hi'n mynd yn anoddach ac yn anoddach."
(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

"Mae wedi effeithio ar adnoddau ond, yn ffodus, rydym wedi cael arian hyd at nawr, i liniaru hynny; yr arian pontio. Oherwydd, [rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith] yn amlwg, ddim yn gost niwtral eto..."
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Roedd materion 'her gweithredu' eraill a nodwyd gan rai atebwyr o awdurdodau lleol yn ymwneud â 'rheoli disgwyliadau defnyddwyr gwasanaeth, sy'n disgwyl i dŷ cymdeithasol gael ei ddyrannu iddynt, yn hytrach na'u bod yn gorfod derbyn y PRS' (Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017). Roedd atebwyr eraill o awdurdodau lleol, fodd bynnag, yn teimlo bod y Ddeddf wedi helpu â'r broses sensitif o gydbwyso hawliau a chyfrifoldebau cleientiaid:

"... mae [ymgysylltu â] cleientiaid nawr yn ganolog ac mae hyn wedi helpu i bwysleisio wrth y cleient bod angen iddynt gytuno â'r broses yn llawn."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

"Mwy o weithio mewn partneriaeth â chleientiaid yn annog...cleientiaid i gymryd perchenogaeth a helpu i ddatrys eu mater â digartrefedd."
(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

Roedd hysbyswyr allweddol yn sôn am yr heriau cynyddol i weithredu a berir gan y cyd-destun strwythurol ehangach, yn enwedig diwygio lles, dro ar ôl tro (gweler Adran 3.4 isod):

"Dechrau llwyddiannus [i'r ddeddfwriaeth newydd], ond cryn dipyn o waith caled o'n blaen, i gynnal y cynnydd sydd wedi'i wneud, ond hefyd i ddatblygu hynny ymhellach, ac i wynebu'r heriau a gyflwynir gan newidiadau eraill fel

76 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. a Wilcox, S. (2012) *The Homelessness Monitor: England 2012*. Llundain: Crisis; Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. a Wilcox, S. (2012) *The Homelessness Monitor Scotland 2012*. Llundain: Crisis.

diwygio lles. Does dim byd yn aros yr un fath, nid ni sy'n rheoli rhai o'r penderfyniadau hynny yng Nghymru ac mae'r newidiadau i'r system budd-daliadau'n cael effaith go iawn ar rai aelwydydd mewn amodau eithaf bregus."
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

I gadarnhau disgwyliadau cyffredinol, roedd mwyafrif mawr o'r atebwyr o awdurdodau lleol (15 o 19) o'r farn mai pobl ddigartref sengl a oedd wedi elwa fwyaf o'r fframwaith newydd (gweler Atodiad 2, Tabl 5). Yn ddiddorol, fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r atebwyr hefyd yn meddwl bod teuluoedd â phlant wedi elwa o'r dulliau newydd (14 o 19) – er eu bod yn fwy tebygol yma o gredu bod yr effaith gadarnhaol wedi bod yn 'ysgafn' yn hytrach nag yn 'gryf'. Y grŵp lleiaf tebygol o gael eu hystyried fel eu bod wedi elwa'n sylweddol o'r fframwaith newydd oedd pobl sy'n cysgu ar y stryd, fel y trafodir ymhellach isod.

Dadansoddir y data gweinyddol am weithgareddau awdurdodau lleol Cymru i atal digartrefedd, rhyddhau o ddigartrefedd a chanfod cartrefi newydd o dan y drefn newydd ym Mhennod 4.

Cyllid Cefnogi Pobl a Llety â Chymorth

Fel y nodwyd yn y Monitor Digartrefedd Cymru cyntaf a gyhoeddwyd yn 2013, roedd dosbarthu arian Cefnogi Pobl, ar y pryd, yn faes a oedd yn peri pryder sylweddol. Fel yn yr Alban a Lloegr, mae arian Cefnogi Pobl wedi'i ddatganoli i awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn wahanol i'r Alban a Lloegr,⁷⁶ fodd bynnag, mae'r arian hwnnw'n dal i fod wedi'i glustnodi o fewn Grant Cymorth Refeniw

awdurdodau lleol.⁷⁷ Fel ymateb i bryderon y sector gwirfoddol ar ôl datganoli arian Cefnogi Pobl i awdurdodau lleol, sefydlodd Llywodraeth Cymru chwe 'Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol' i gynghori awdurdodau lleol,⁷⁸ a phan gynhaliwyd y Monitor Digartrefedd cyntaf yn 2013, roedd rhywfaint o anfodlondeb wedi bod ynglŷn â'u gweithredu.⁷⁹ Erbyn 2015, roedd yn ymddangos bod llawer llai o bryder ynglŷn â dosbarthu cyllid Cefnogi Pobl, ac roedd pob parti'n ymddangos yn fodlon i'r arian hwn barhau i fod wedi'i glustnodi. Roedd teimlad clir o ddiolchgarwch nad oedd cyllidebau Cefnogi Pobl wedi dioddef yr un ffawd â'r rhai yn Lloegr i'w gael ym mhob trafodaeth am y pwnc hwn yn 2017:

"Mae Llywodraeth Cymru yn amddiffyn cronfa Cefnogi Pobl yn effeithiol; mae honno wedi bod ar waith am y ddwy neu dair blynedd ddiwethaf, ac mae pobl wedi lloio'n galed i gyflawni hynny... rydw i'n meddwl bod pobl wedi derbyn swyddogaeth pwyllgorau cydweithredol rhanbarthol, a sut maen nhw'n gweithio gydag awdurdodau lleol; dydy hynny ddim yn golygu bod pawb wrth eu boddau â nhw, ond maen nhw wedi llwyddo i weithio gyda nhw... mae pobl wedi gwerthfawrogi bod y saerniaeth sydd yno wedi bod yn bwysig o ran amddiffyn yr arian, a hefyd o ran y neges ynglŷn â phwysigrwydd gwasanaethau cymorth..."

77 Llywodraeth Cymru (2012) *Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

78 Llywodraeth Cymru (2013) *Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

79 Marrin, K., Hudson, H., Miller, N., Smith, M. a Bibbings, J. (2014) *Adolygiad Annibynnol o Flwyddyn Pontio'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

80 Gweler: Stirling, T. (2015) *Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness in Wales - Feasibility Study*. Caerdydd: PPIW. Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru.

(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, Cymru)

Ar lefel polisi, bu ymdrech i ffocysu elfennau perthnasol ar gyllideb Cefnogi Pobl yn gryfach ar atal digartrefedd ac ar amcanion deddfwriaeth 2014.⁸⁰ Er bod rhai hysbyswyr allweddol statudol o'r farn bod datganoli'r cyllid o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol wedi llwyddo i ddod â gwell effeithlonrwydd a ffocws, a chysoni pethau'n well ag amcanion atal digartrefedd, roedd arsylwyr eraill yn teimlo bod llawer i'w wneud o hyd yn hyn o beth yng Nghymru:

"Mae'n ddarlun amrywiol iawn, iawn. Mae yna lawer o brofiad o reoli a monitro contractau, ond does dim llawer o brofiad, dydw i ddim yn meddwl, yng Nghymru o gomisiynu. Mae yna rai eithriadau amlwg a rhai comisiynwyr ardderchog... [Ond] mae pobl yn gwrthwynebu risg. Dydy awdurdodau lleol ddim yn hoff o gymryd risg â darparwyr newydd a dweud, 'A dweud y gwir, rydyn ni'n mynd i roi hyn allan ar dendr.'
(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

"Rydw i'n meddwl y gallai Cymru ddysgu llawer gan Lloegr... oherwydd eu bod nhw wedi colli'r clustnodi hwnnw, ac wedi colli'r rhaglen genedlaethol, mae awdurdodau lleol Lloegr wedi gorfod

arloesi... Dydyn ni heb weld yr arloesi hwnnw yng Nghymru, felly er bod cadw'r rhaglen genedlaethol yng Nghymru a chadw'r clustnodi'n beth da, mewn ffyrdd eraill, mae'n eu hatal nhw rhag arloesi."
(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Ar ochr darparwyr hefyd, mynegwyd pryder am arferion comisiynu, ond o ongl wahanol iawn:

"Rydym wedi gweld llawer o wasanaethau'n cael eu hail-dendro'n wael, lle mae'n aneglur pa mor dryloyw yw'r broses, lle mai cost oedd y prif sbardun yn hytrach na gwasanaethau o safon, ac rydw i'n tybed beth fydd effaith hynny mewn 24, 36 mis a dweud y gwir, o ran pobl sy'n troi a throi o gwmpas y system, yn hytrach na chael y gefnogaeth sydd ei hangen am ba mor hir bynnag y bydd ei hangen... Mae rhai pobl wedi gweld arfer gwael mewn rhai rhannau o'r sector ac yna wedi tybio bod hynny'n digwydd ym mhobman, fel blocio gwelyau'n fwriadol neu sefydliadu pobl, y math yna o beth, a meddwl bod pawb yn gwneud hynny."
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Roedd gan y darparwr hwn hefyd farn ddiddorol am 'anefeithlonrwydd' posibl wrth gomisiynu Cefnogi Pobl:

"...roedd ychydig o arian dros ben o gwmpas y contractau hynny a oedd yn galluogi

sefydliadau i ddatblygu gwasanaethau gwerth ychwanegol... [rydyn ni] wastad wedi defnyddio'r arian dros ben o'n contractau ni i gynnal y ganolfan ddydd... mae'r bobl sy'n gyfrifol am y cyllidebau Cefnogi Pobl yn dweud, yn ddigon teg, 'Os oes gennym ni arian Cefnogi Pobl mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n ei wario ar wasanaethau Cefnogi Pobl', ac mae hynny'n iawn ond mae'n golygu edrych ar y byd drwy rolyn toiled i raddau oherwydd byddan nhw'n colli llawer o'r gwasanaethau gwerth ychwanegol y mae sefydliadau digartrefedd wedi'u darparu o ganlyniad i gontractau a oedd yn broffidiol yn y gorffennol."
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Mae ymatebion i'n harolwg o awdurdodau lleol yn 2017 yn awgrymu, yn ddiddorol, y bu rhywfaint o dwf o ran darparu cymorth arbenigol a/neu lety dros y blynyddoedd diwethaf yng Nghymru (Atodiad 2, Tabl 8). Mae hyn ar ei fwyaf amlwg o ran y ddarpariaeth i bobl ifanc 16-17 oed; dywedwyd bod cyfleusterau neu wasanaethau lleol wedi ehangu yn y maes hwn yn dros hanner yr ardaloedd dros y saith mlynedd ddiwethaf, ac nid oedd wedi lleihau mewn dim o'r ardaloedd. Roedd bron yr un nifer o ardaloedd yn dweud bod y cymorth a ddarperir i bobl ifanc 16-24 oed a phobl â phroblemau â chyffuriau neu alcohol wedi'i ehangu, ac eto ni ddywedodd dim ardal fod darpariaeth o'r fath wedi'i lleihau. Roedd darlun mwy cymysg o ran pobl sy'n gadael y carchar, goroeswyr cam-drin, a phobl â phroblemau iechyd meddwl, ond roedd y cydbwysedd cyffredinol yn dal i dueddu i fod yn ffafrinol.

Mae'r patrwm hwn yn wahanol iawn i'r canlyniadau cywerth yn ein harolwg 2016 o awdurdodau lleol Lloegr;⁸¹ roedd mwy o awdurdodau yn Lloegr yn dweud bod y ddarpariaeth wedi lleihau nag a oedd yn sôn am gynnydd ar draws y rhan fwyaf o grwpiau. Roedd hyn ar ei fwyaf amlwg o ran gwasanaethau a/neu lety i bobl â phroblemau â chyffuriau, problemau ag alcohol neu broblemau iechyd meddwl, ac mae'n ymddangos yn debygol.

Er y gellid egluro'r gwahaniaeth hwn yn rhannol gan y ffaith nad oedd dim, neu brin ddim, darpariaeth arbenigol i lawer o'r grwpiau hyn yn llawer o awdurdodau Cymru yn 2010, mae hefyd yn ymddangos yn debygol bod yr amddiffyniad cymharol i gyllideb Cefnogi Pobl yng Nghymru yn gyfrifol am y canlyniadau hyn sydd, ar yr wyneb, yn galonogol.

Wedi dweud hynny, roedd rhywfaint o anghysur ynglŷn â datganoli cyllid tai â chymorth i awdurdodau lleol (gweler Adran 3.4 isod) oherwydd roedd rhai'n teimlo bod y newidiadau diweddar i gyllid lety dros dro wedi cael eu gwneud yn wael yng Nghymru:

"A dweud y gwir, mae llywodraeth Cymru wedi gwneud llanast mawr wrth bontio o ffi rheoli lety dros dro i system grantiau i gymryd ei lle... gallen nhw fod wedi gwneud yr un fath â Lloegr, sef dweud ei fod wedi'i glustnodi at ddiben digartrefedd, ond gallwch chi fod yn eithaf hyblyg o fewn y diffiniad hwnnw. Roedd gan Gymru y cyfle i dorri ei llwybr ei hun drwy'r ffi ddatganoledig honno, ac ni wnaeth hynny.

81 Atodiad 2, Tabl 6 yn Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis

82 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2013) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis.

Ni wnaeth ymgysylltu â'i rhanddeiliaid yn yr awdurdodau lleol... Mae angen gwneud rhywbeth yn wahanol yn gyflym iawn, er mwyn gallu rhoi rhywfaint o strwythur ac arweiniad o gwmpas yr hyn sy'n gweithio orau."
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd

Fel y nodwyd yn y Monitor Digartrefedd Cymru cyntaf, nid oedd llawer o ddatblygiadau polisi cenedlaethol ynglŷn â phobl sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru, ac yn sicr dim byd sy'n gywerth i'r Mentrau Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd yn Lloegr a'r Alban, er bod prosiectau lleol penodol wedi'u cyflwyno.⁸² Roedd tîm Adolygiad Mackie yn argymhell y dylid ychwanegu pobl sy'n cysgu ar y stryd 'wedi'u cadarnhau' at y rhestr o aelwydydd yr ystyrir eu bod mewn angen blaenoriaethol – cynnig a ddaeth yn arbennig o berthnasol ar ôl y Papur Gwyn, pan ddilëwyd y ddarpariaeth 'rhywle diogel i aros' o'r fframwaith deddfwriaethol newydd (gweler uchod). Er ei bod yn ymddangos bod y cynnig hwn wedi cael ei ystyried o ddifrif ar un adeg, ni chafodd ei gynnwys yn Neddf 2014.

Fel y trafodwyd ym Mhennod 4, rhoddwyd llawer o gyhoeddusrwydd i'r cynnydd diweddar yn yr ystadegau cysgu ar y stryd yng Nghymru, sy'n llawer mwy na'r cynnydd a nodwyd yn Lloegr. Er y trafodir y rhesymau posibl am y cynnydd hwn hefyd yn y bennod nesaf, un peth a oedd yn arbennig o berthnasol yma oedd y teimlad o bosiblwydd o 'golli cyfle' o dan y fframwaith deddfwriaethol newydd i wneud mwy dros y grwpiau mwyaf agored i niwed a all fod yn cysgu ar y stryd:

"...er bod gennym ni ddeddfwriaeth ataliol dda iawn yng Nghymru o dan y Ddeddf Tai... dydy'r ddeddfwriaeth ddim wedi'i llunio i ymdrin â'r achosion cymhleth iawn, anodd iawn, dryslyd iawn, iawn, sy'n bodoli, a'r bobl hynny fydd yn mynd drwy'r cylch o ddigartrefedd a chysgu ar y stryd."

(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

"...nid yw'n ymddangos bod ein deddfwriaeth newydd wych yn effeithiol iawn i bobl [sydd] wir yn ddigartref... yn amlwg, efallai fod yr agenda diwygio lles ehangach, a llymder ariannol yn gyffredinol, hefyd yn cyfrannu at hyn. Rydw i'n gwybod bod cynyddiadau wedi digwydd yn Lloegr hefyd, er nad oeddent mor ddramatig ag yng Nghymru.... weithiau dydy pobl ddim yn hoff o'r llety argyfwng sydd ar gynnig, mae rhai o'r hostelau... yn fannau eithaf dychrynlyd, ac yn eithaf aml bydd pobl yn dweud, 'Wel byddai'n well gen i gysgu ar y strydoedd na mynd i mewn i'r fan yna oherwydd mae'n beryglus.'..."

(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Yn gyson â hyn, yn ein harolwg o awdurdodau lleol yn 2017, nodwyd mai pobl a oedd yn cysgu ar y stryd oedd y grŵp lleiaf tebygol o fod wedi cael gwell ymateb gan wasanaeth o ganlyniad i roi Deddf 2014 ar waith; barn a ategwyd gan yr hysbyswyr allweddol a gyfwelwyd. Dim ond

chwe Awdurdod Lleol (llai na thraean yr atebwyr) a oedd yn meddwl bod y trefniadau newydd yn well i'r grŵp hwn. Fodd bynnag, roedd llawer o'r rheini a oedd yn ystyried bod y Ddeddf yn 'niwtral' yn hyn o beth (cyfanswm o 13 o atebwyr) yn cynrychioli cynghorau gwledig, ac yn egluro eu hateb yma yn rhannol drwy nodi bod cysgu ar y stryd yn beth prin yn eu hardal. Roedd eraill yn sôn am ymrwymadau a oedd yn bodoli eisoes i fynd ati i ymgysylltu â'r broblem bod pobl yn cysgu ar y stryd, neu'n dadlau y gallai'r gwelliant diweddar i'r gwasanaeth a ddarperir i bobl sy'n cysgu ar y stryd gael ei egluro gan ffactorau eraill megis 'darpariaeth porth'.

Nododd amryw o hysbyswyr allweddol fod cysgu ar y stryd wedi dod yn fater gwleidyddol byw, a chawsom ein harwain i gredu bod cyhoeddiad polisi mawr yn yr arfaeth ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Pan ofynnwyd beth arall y gellid ei wneud i roi sylw i gysgu ar y stryd, soniodd llawer am y diffyg cymharol o ran darpariaeth Tai yn Gyntaf yng Nghymru ar hyn o bryd, ond hefyd am 'awydd go iawn' am ddatblygiadau cadarnhaol yn hyn o beth yn y dyfodol:

"Mae yna brosiect yng Ngogledd Cymru... a chwpl o brosiectau eraill, dydyn nhw ddim yn eu galw eu hunain yn Tai yn Gyntaf, ond maen nhw'n gweithredu yn y ffordd yna o leihau niwed. Ar wahân i hynny, ychydig iawn sydd, ac rydw i'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn dangos mwy o ddiddordeb mewn edrych ar yr hyn y gallem ni ei wneud o gwmpas Tai yn Gyntaf yng Nghymru... yn amlwg mae'n gyfnod anodd i fod yn sôn am brosiectau newydd llety â chymorth, â'r holl ansicrwydd am gyllid

yn y dyfodol, ond mae mwy o ymwybyddiaeth o Tai yn Gyntaf nawr, felly efallai y gallai hynny fod yn rhan o'r ateb." (Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

"Rydw i'n gwybod bod yna lawer o ddiddordeb mewn Tai yn Gyntaf yng Nghymru ac awydd go iawn... [Ond] rydw i'n poeni am fod ag ychydig bach o brosiectau wedi'u gwasgaru o gwmpas oherwydd rydw i'n meddwl bod angen newid...go iawn yn yr holl system. Mae angen ymgysylltu'n iawn ag iechyd, a gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n rhan go iawn o'r timau cymorth cofleidiol, nid pobl tai yn cyfeirio pobl at bethau iechyd... Felly rydw i'n meddwl bod gennym ni gyfle i lunio dull Tai yn Gyntaf i Gymru sydd wir yn ymgysylltu ag iechyd ac yn newid y systemau." (Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Ond roedd rhai'n wyladwrus hefyd:

"Wrth gwrs, dylen nhw... fuddsoddi... yn [Tai yn Gyntaf], ond mae'n bwysig peidio â gweld hynny fel... - 'Mae angen Tai yn Gyntaf arnom ni a dim byd arall' - oherwydd dydy hynny ddim yn iawn. Mae angen hostelau o hyd ar gyfer pobl sydd ddim yn barod neu sy'n methu â mynd yno am eu bod nhw'n llawn yn barod, ond hefyd mae angen pethau'n

llawer cynharach yn y broses, lle rydyn ni'n gwneud llawer mwy gyda phlant sydd yn yr ysgol ac yn wynebu risg, neu blant sydd ddim yn yr ysgol o gwbl." (Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

"Ydyn, rydyn ni'n bendant o blaid Tai yn Gyntaf mewn egwyddor yng Nghymru, ond mae'n anodd iawn perswadio awdurdodau lleol a phobl i gomisiynu gwasanaethau ar y model hwnnw, oherwydd mae ganddyn nhw fodolau grisiau mewnol yn barod, mae ganddyn nhw'r hostel, y llety dros dro, y model tai cymdeithasol, dyna sy'n gyfarwydd iddyn nhw, dyna maen nhw'n gweithio gydag ef." (Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Roedd un mater penodol a godwyd gan lawer o hysbyswyr allweddol yn ymwneud â darpariaethau yn Neddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, nad ydynt wedi dod i rym eto, sy'n caniatáu eithrio pobl yn y tymor byr rhag llety â chymorth yn ddirybudd. Roedd rhai'n teimlo y gallai'r rhain gyfrannu'n anfwriadol at ddigartrefedd ar y stryd, oherwydd nid yw'n glir pwy ddylai gymryd cyfrifoldeb am letya'r bobl a eithrir yn ystod y cyfnodau hyn.

3.3 Polisiâu tai yng Nghymru

Nid yw polisiâu tai yng Nghymru hyd yma wedi bod mor amlwg o wahanol i bolisiâu Lloegr ag y bu polisiâu'r Alban. O dan y trefniadau datganoli cychwynnol ers 1999, roedd y pŵerau a oedd ar gael i Gymru'n llawer mwy cyfyngedig na'r rhai a oedd ar gael i'r Alban; roeddent yn dal i fod ynghlwm wrth ddeddfwriaeth sylfaenol a

basiwyd gan Senedd San Steffan, ac yn gorfod gofyn am randdirymiad penodol i ennill pwerau ychwanegol y tu hwnt i gwmpas y pwerau rheoleiddio a oedd ar gael drwy'r ddeddfwriaeth bresennol.

Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae Llywodraeth y DU wedi datganoli pwerau ehangach i Lywodraeth Cymru, gan roi llawer mwy o gwmpas iddynt i newid gweithrediad deddfwriaeth tai a deddfwriaeth arall yng Nghymru. Maent eisoes wedi defnyddio'r pwerau hynny i ddarparu sail newydd i reoleiddio cymdeithasau tai, ac i newid sut y defnyddir yr hawl i brynu,⁸³ ac yn 2014 cyflwynwyd y Ddeddf Tai (Cymru), a oedd yn cynnwys darpariaethau newydd pwysig o ran digartrefedd (gweler uchod).

Roedd Deddf 2014 hefyd yn rhoi sail i ddiwygiad sylfaenol o drefniadau ariannol y sector tai cyngor; ym mis Ebrill 2015, diweddodd hyn y gofyniad i drosglwyddo 'gwarged' blynyddol i Drysorlys Ei Mawrhydi (i ddilyn y newid tebyg a wnaethpwyd yn Lloegr yn 2012). Fodd bynnag, er mwyn gwneud hynny, roedd rhaid i gynghorau gymryd mwy o ddyled (gwerth £1 biliwn), a bydd angen peth amser cyn y byddant mewn sefyllfa i arfer yn effeithiol y rhyddidau ychwanegol sydd ganddynt erbyn hyn i gynllunio ac ariannu rhaglenni gwario a buddsoddi'r dyfodol.

Hefyd, cyflwynodd llywodraeth Cymru fframwaith polisi a ddylai, dros amser, ddod â rhywfaint o gysondeb i lefelau rhenti'r sector cymdeithasol o fewn sectorau'r cyngor a chymdeithasau tai, a rhwng y sectorau hynny, gan sicrhau bod landlordiaid unigol yn cadw rheolaeth lawn dros fanylion eu polisiau gosod rhent. Fodd bynnag,

mae'r polisi hwnnw nawr yn cael ei adolygu.

Ar ôl ymgynghoriadau, mae Llywodraeth Cymru hefyd nawr wedi cyflwyno Bil i ddiddymu'r hawl i brynu,⁸⁴ i ddilyn eu diwygiadau yn 2015 a oedd yn cynnwys lleihau'r uchafswm disgownt i £8,000. Er ein bod yn gwybod yn iawn am gostau hirdymor yr hawl i brynu fel yr oedd yn gweithredu'n wreiddiol, mae'r achos economaidd o blaid diddymu'r hawl i brynu ar y lefelau disgownt llawer is a ddefnyddiwyd dros y degawd diwethaf yn llawer gwannach.⁸⁵

Er bod Llywodraeth Cymru nawr yn defnyddio eu pwerau llawer ehangach ym maes tai, mae'r pwerau ychwanegol hynny wedi dod i rym ar yr un pryd ag y mae mesurau llymder llywodraeth y DU wedi gwasgu cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. Mae cyfanswm cyllideb Terfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru wedi'i dorri 11% mewn termau real ers 2010/11, a chaiff ei dorri 2% eto erbyn 2019/20.⁸⁶

O fewn y cyfyngiadau hyn, cynyddodd llywodraeth Cymru lefelau buddsoddi mewn tai fforddiadwy newydd yn sylweddol yn 2008/09 a 2009/10, ond ers hynny mae'r buddsoddiad wedi gostwng (gweler Ffigwr 3.1), er bod hynny i raddau llawer llai nag yn Lloegr.⁸⁷ Fodd bynnag, ar ôl dyraniad cyllideb ategol, bydd y buddsoddiad nawr yn cynyddu i £112 miliwn yn 2016/17. Dylid nodi hefyd bod llywodraeth Cymru ers 2013/14 wedi bod yn darparu ffurf ychwanegol o grant refeniw, tua £4 miliwn y flwyddyn, i dalu am ddarparu tua 1,000 o anheddau fforddiadwy newydd ychwanegol erbyn 2016.

83 Llywodraeth Cymru (2011) *Mesur Tai (Cymru) 2011*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. <http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/measure2011/?lang=en>


84 Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017), *Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig*.

85 Wilcox, S. (2017) *A Financial Evaluation of the Right to Buy*, yn *UK Housing Review 2006/07*. Coventry: CIH.

86 Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH.

87 Wilcox, S., Perry, J., Stephens, M a Williams, P. (2017) *UK Housing Review 2017*. Coventry: CIH.

Ffigwr 3.1 Buddsoddiad mewn tai fforddiadwy newydd



Ffynonellau: Adolygiad Tai'r Deyrnas Unedig Tabl 76; 2il Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2016-17

At ei gilydd, roedd y cyflenwad newydd o 'dai fforddiadwy' yn 2,400 o anheddau yn 2015/16, i fyny o ychydig dros 2,200 y flwyddyn flaenorol, ac ar lefel eithaf tebyg i'r un a gyflawnwyd yn 2013/14 ac yn y tair blynedd o 2009/10 hyd 2011/12.⁸⁸ Ond o fewn y cyfanswm mwy hwnnw, dim ond 1,601 a oedd yn anheddau rhent cymdeithasol newydd wedi'u darparu gan RSL Cymru. Er bod hwn yn gynnydd amlwg o gymharu â'r tair blynedd flaenorol, roedd yn llai nag a gyflawnwyd yn 2009/10 a 2010/11. Hefyd, darparodd RSL 451 o anheddau rhent canolradd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn; mae hyn yn llawer llai nag yn 2014/15, ond yn agos at y nifer yn 2013/14. Dros y tair blynedd, roedd cyflenwad anheddau rhent canolradd yn gyfrifol am tua chwarter yr holl gyflenwad newydd gan RSL. Fodd bynnag, mae'r anheddau hyn wedi'u targedu at aelwydydd 'incwm canolradd', yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd yn

Lloegr lle mae rhent canolradd nawr wedi disodli'r cyflenwad o anheddau rhent cymdeithasol newydd bron yn llwyr, gan ddarparu ar gyfer yr un aelwydydd 'anghenion cyffredinol' â rhent cymdeithasol. Hefyd, cynllunnir cynnydd yng nghyflenwad cyffredinol tai fforddiadwy yn 2016/17 a 2017/18; amcanir y cwblheir dros 6,000 o anheddau fforddiadwy ychwanegol yn ystod y ddwy flynedd hyn – hyd yn oed cyn ystyried dyraniad cyllideb ategol Llywodraeth Cymru wedi hynny o £30 biliwn ychwanegol ar gyfer tai fforddiadwy yn 2016/17.

O ran y ffigurau cyflenwad ehangach, cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru eu targed eu hunain (a rhagori arno) o ddatblygu tua 10,000 o dai cymdeithasol a fforddiadwy newydd dros y pum mlynedd hyd at 2015/16. Fodd bynnag, dylid gweld y targed hwnnw yng nghyd-destun amcangyfrif annibynnol bod angen tua 3,500 o dai ychwanegol 'nid i'r farchnad' bob

88 Llywodraeth Cymru (2016) *Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, 2015/16. Ystadegau Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

blwyddyn.⁸⁹ Wedi dweud hynny, mae'r ffigur olaf hwn nawr wedi dyddio rywfaint, oherwydd roedd yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd seiliedig ar 2011, a oedd dipyn yn uwch na'r amcanestyniadau seiliedig ar 2014 a ddaeth wedyn (gweler Pennod 2 uchod). Fodd bynnag, hyd yn oed o leihau'r amcangyfrif hwnnw i gyd-fynd â'r amcanestyniadau aelwydydd newydd, byddai'n dal i awgrymu bod agen bron i 3,000 o dai newydd nid i'r farchnad bob blwyddyn.

Yn erbyn hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio 'cytundeb tai' â Chartrefi Cymunedol Cymru ac WLGA gyda tharged o ddarparu 13,500 o dai fforddiadwy newydd dros gyfnod pedair mlynedd y Cynulliad.⁹⁰

Yn olaf, mae'r pryderon a fynegwyd yn y Monitor diwethaf y byddai Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 yn tansellio sicrwydd deiliadaeth tenantiaid preifat yng Nghymru, a oedd eisoes yn simsan, wedi'u tawelu ar ôl i Lywodraeth Cymru gefnu ar gynigion i gael gwared ar y moratoriwm chwe mis ar gyfer troi allan 'dim bai' cyn i'r ddeddfwriaeth gael ei phasio.

3.4 Diwygio Lles

Mae'r llywodraeth Glymblaid a'r llywodraeth Geidwadol wedi cyflwyno llu o ddiwygiadau lles dros y chwe mlynedd diwethaf, ac mae llawer o'r rhain yn peri goblygiadau uniongyrchol i aelwydydd incwm isel a'u gallu i sicrhau neu gadw llety ym mhob sector yn y farchnad dai. Yn yr adran hon, byddwn yn archwilio pob un o'r mesurau diwygio lles allweddol yn ei dro, gan roi sylw i'r diwygiadau cynharach a gyflwynwyd gan y Llywodraeth Glymblaid, a'r diwygiadau wedi hynny a gyflwynwyd gan y Llywodraethau Ceidwadol (cyn ac ar ôl Brexit).

89 Holmans, A. (2015) *Yr Angen a'r Galw am Dai yn y Dyfodol yng Nghymru*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

90 Cartrefi Cymunedol Cymru (2017) *Cytundeb Tai rhwng Llywodraeth Cymru, CHC ac WLGA*. Cartrefi Cymunedol Cymru.

91 Beatty, C. a Fothergill, S. (2016) *The Uneven Impact of Welfare Reform*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol, Prifysgol Hallam Sheffield.

92 Beatty, C. a Fothergill, S. (2016) *Jobs, Welfare and Austerity: How the Destruction of Industrial Britain casts a Shadow over present-day Public Finances*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol, Prifysgol Hallam Sheffield.

Mae ymchwil gan Brifysgol Hallam Sheffield wedi amcangyfrif, erbyn 2020/21, y bydd y colledion blynyddol i aelwydydd incwm isel o ganlyniad i'r holl ddiwygiadau hyn yn werth £27.4 biliwn ym Mhrydain Fawr, a bod £1.45 biliwn o hyn yn dod o Gymru.⁹¹ O fewn hynny, mae effaith ofodol y diwygiadau lles unigol yn amrywio'n sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd a fydd yn teimlo'r effaith waethaf yn yr hen ardaloedd diwydiannol a'r trefi glan môr lleiaf cefnog. Mae'r dadansoddiad gofodol hwn yn gwneud y pwynt bod perthynas rhwng dibynnu ar fudd-daliadau a strwythurau a pholisïau rhanbarthol o ran yr economi a'r farchnad lafur, ac na ellir gweld hyn (nac ymdrin â'r peth) drwy ffocws cul ar gymhellion gwaith ac agweddau unigolion at gyfranogiad yn y farchnad lafur.⁹²

Fodd bynnag, lluniwyd adroddiad Hallam Sheffield cyn Datganiad Hydref 2016, a gefnodd ar gynlluniau i ddiwygio'r cynllun Taliadau Annibyniaeth Personol, ac a gyflwynodd welliannau i liniaru'r toriadau i'r drefn Credyd Cynhwysol. Er gwaethaf y diwygiadau hyn, bydd hyn yn dal i adael colledion lles blynyddol yng Nghymru ymhell dros £1 biliwn erbyn 2020/21, a cholledion blynyddol o £25.3 biliwn ledled Prydain Fawr gyfan.

Y diwygiadau lles unigol a drafodir yn eu tro isod yw:

- Lwfansau Tai Lleol
- Y cap budd-daliadau
- Y 'dreth ystafell wely'
- Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

- Credyd Cynhwysol
- Cronfa Cymorth Dewisol

Ochr yn ochr â phob un o'r meysydd diwygio polisi lles penodol hyn, caiff y rhan fwyaf o gyfraddau budd-daliadau oed gwaith eu rhewi'n fwy cyffredinol am bedair mlynedd o 2016/17 ymlaen. Rhagwelir y bydd yr un mesur hwn yn effeithio ar tua 430,000 o aelwydydd yng Nghymru yn 2020/21, ac y bydd pob un yn colli tua £200 y flwyddyn ar gyfartaledd.⁹³ Hon yw'r eitem fwyaf o bell o safbwynt ariannol o blith y mesurau lles a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2015 ac mae disgwyl iddi arbed ychydig dros £4 biliwn y flwyddyn i lywodraeth y DU erbyn 2020/21; bydd £220 miliwn o hyn yn mynd i Gymru.

Lwfans Tai Lleol

Newidiadau i'r drefn Lwfans Tai Lleol (LHA) i denantiaid preifat a oedd yn arwain yr agenda diwygio lles; mae'r rhain wedi bod yn berthnasol i bob hawlydd newydd ers mis Ebrill 2011, ac i bob hawlydd presennol am gyfnod o rhwng bron i ddwy a thair mlynedd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Y newidiadau cychwynnol allweddol oedd gosod cyfraddau LHA yn seiliedig ar lefelau 30ain canradd y farchnad, yn hytrach na chanolrif y farchnad, a gosod capiau uchafswm i ostwng cyfraddau LHA ymhellach yng nghanol Llundain. Er bod y cyfraddau LHA hynny yn 2013/14 wedi cynyddu yn unol â'r isaf o chwyddiant (CPI) neu newidiadau i renti'r farchnad, yn 2014/15 ac yn 2015/16 dim ond 1% oedd y cynnydd yn y cyfraddau. Ar gyfer y dyfodol, ar ôl penderfyniad yng Nghyllideb Haf 2015, mae'r cyfraddau LHA nawr yn cael eu rhewi am bedair mlynedd o 2016/17 ymlaen. Mae'r diwygiadau hyn yn arbennig o arwyddocaol yng nghydestun polisïau digartrefedd sydd, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn rhoi mwy o bwyslais ar aelwydydd i

ganfod llety yn y sector rhentu preifat (PRS) (gweler uchod a Phennod 2).

Mae data gweinyddol am hawliadau LHA nawr ar gael ar gyfer y cyfnod hyd at fis Tachwedd 2016. Mae'r rhain yn dangos bod nifer yr hawlwy'r LHA wedi parhau i gynyddu ar ôl mis Mawrth 2011, ond yn llawer arafach nag yn y pum mlynedd cyn y diwygiadau LHA. Fodd bynnag, yn fwy diweddar mae'r niferoedd wedi dechrau lleihau. Yng Nghymru gyfan, cynyddodd nifer y tenantiaid preifat sy'n cael Budd-dal Tai o 79,130 ym mis Mawrth 2011 i 86,901 ym mis Chwefror 2014, cyn gostwng yn ôl i 84,360 erbyn mis Tachwedd 2014, 81,142 erbyn mis Tachwedd 2015, 76,259 erbyn mis Tachwedd 2016, a 75,728 ym mis Chwefror 2017. O ganlyniad, mae nifer yr hawlwy'r budd-dal tai yn y sector rhentu preifat nawr yn llawer is nag yr oeddent pan gyflwynwyd y diwygiadau LHA yn 2011.

Er y bydd gweithio drwy'r drefn cyfradd is LHA, a'r ffaith bod cyfraddau LHA wedi drifftio'n is eto oherwydd uwchraddio CPI, wedi cyfrannu at y lleihad yn niferoedd hawlwy'r LHA rhwng mis Chwefror 2014 a mis Tachwedd 2016, mae ffactorau eraill hefyd yn cyfrannu. Un peth sy'n werth ei nodi'n benodol yw cyflwyno'r drefn Credyd Cynhwysol (UC) yn raddol. Ym mis Tachwedd 2014 roedd llai na 300 o bobl yn cael UC yng Nghymru, ond erbyn mis Tachwedd 2015 roedd y niferoedd wedi cynyddu i bron 6,400, erbyn mis Tachwedd 2016 roedd y niferoedd wedi cynyddu i bron 20,000, ac erbyn mis Chwefror 2017 roedd y niferoedd wedi cynyddu i bron 21,000. Yn anffodus, ychydig iawn o fanylion sydd ar gael am nodweddion y bobl sy'n hawlio UC, ond rydym yn gwybod mai pobl sengl ydynt gan fwyaf, oherwydd dim ond mewn nifer bach o ardaloedd braenaru y mae'r cynllun wedi'i ymestyn hyd yn hyn i gynnwys cyplau neu aelwydydd â phlant. Fodd bynnag, nid oes dim data sy'n

93 Beatty, C. a Fothergill, S. (2016) *The Uneven Impact of Welfare Reform*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol, Prifysgol Hallam Sheffield. Mae'r mesurau PIP, ESA ac 18-21 ar gyfer unigolion; mae mesurau'r budd-daliadau eraill i gyd ar gyfer aelwydydd.

dadansoddi'r mathau o aelwydydd, na deiliadaeth nac unrhyw nodweddion tai eraill ymysg hawlwyd UC. Mae'n bosibl y bydd data pellach ar gael maes o law, ond nid oes amserlen glir, nac eglurder ynglŷn â pha wybodaeth ychwanegol y gellid ei chynnwys ynghyd â'r data sylfaenol iawn a ddarperir ar hyn o bryd.

Mae'r cyfyngiad hwn yn golygu, o fis Tachwedd 2014 ymlaen, ei bod nawr yn amhosibl dibynnu ar ddata gweinyddol yn unig i fesur effaith y diwygiadau LHA ar allu aelwydydd incwm is i gael llety yn y PRS, gan nad ydym yn gwybod faint o aelwydydd sy'n cael UC sydd yn y sector rhentu preifat. Yn y cyd-destun hwnnw, mae'r ymatebion gan atebwyr ein harolwg nawr yn bwysicach fyth.

Hefyd, bu gostyngiad sylweddol yn niferoedd yr aelwydydd sengl iau sy'n cael Budd-dal Tai, ar ôl i Gyfradd Llety a Rennir (SAR) (lawer is) yr LHA gael ei hystyried i gynnwys pobl sengl 25 i 34 oed. Rhwng mis Rhagfyr 2011 a mis Tachwedd 2014, gostyngodd nifer y bobl sengl o dan 35 oed sy'n cael Budd-dal Tai yn y PRS yng Nghymru tua 2,100 (20%), ac yn y ddwy flynedd wedyn, gostyngodd y nifer 2,235 (27%) arall i lawr i 6,208, cyn cynyddu ychydig bach i 6,367 ym mis Chwefror 2017. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod 25% yn is nag ym mis Tachwedd 2014. Unwaith eto mae cyflwyno UC, a'r diffyg data sydd ar gael am hawlwyd UC, yn ei gwneud yn amhosibl defnyddio'r data gweinyddol i farnu i ba raddau y mae'r gostyngiadau diweddar yn niferoedd y bobl ifanc sengl sy'n cael budd-dal tai yn y PRS wedi digwydd o ganlyniad i'r lefelau SAR isel, neu i gyflwyno UC. Fodd bynnag, mae'r data gweinyddol yn dangos yn glir bod y polisi SAR wedi cael effaith amlwg yn y cyfnod cyn mis Tachwedd 2014, ac atgyfnerthir hyn

gan atebwyr ein harolwg ac ymchwil arall a gynhaliwyd gan Crisis.⁹⁴

Mae'r data Budd-dal Tai sydd wedi'u cyhoeddi hefyd yn dangos bod y taliadau cyfartalog a wnaethpwyd i denantiaid preifat wedi lleihau ers y cyflwynwyd y drefn LHA newydd. Mae nifer o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys y cynnydd yn niferoedd yr hawlwyd sy'n gweithio ac yn cael Budd-dal Tai rhannol, yn hytrach na'r fersiwn 'llawn'. Fodd bynnag, un o brif ganfyddiadau gwerthusiad y DWP o'r drefn LHA newydd oedd, ar gyfer hawlwyd presennol, mai dim ond tuag 11% o'r gostyngiad oedd oherwydd gostyngiadau i renti landlordiaid, ac mai'r hawlwyd a oedd yn gorfod talu am y rhan fwyaf o'r gostyngiad yn yr hawl. I bron hanner y bobl hyn, roedd hyn yn golygu lleihau gwariant arall ar bethau 'hanfodol' i'r tŷ, ac roedd bron i draean wedi benthyca arian gan deulu neu ffrindiau.⁹⁵

Dylid cydnabod hefyd, er bod diwygiadau'r LHA nawr yn gwbl weithredol, y bydd oediad pellach cyn y gwelir ymatebion hirdymor y farchnad i'r diwygiadau hyn gan hawlwyd a landlordiaid. Bydd yr ymatebion hynny hefyd yn newid dros amser wrth i'r broses o uwchraddio lefelau LHA gael ei rhewi er mwyn gostwng cyfraddau LHA eto o'u cymharu â rhenti'r farchnad.

Terfynau LHA a'r sector rhentu preifat

Ar ôl Datganiad Hydref 2016, ni chaiff capiau LHA ar lefelau budd-dal tai yn y sector rhentu preifat eu cyflwyno nawr tan fis Ebrill 2019. Ceir pryderon mawr iawn am y darpariaethau hyn, yn enwedig o ran cynlluniau tai â chymorth. Mae'r pryderon hyn wedi'u mynegi'n glir mewn adroddiad diweddar gan Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin ar Gymunedau


a Llywodraeth Leol a Gwaith a Phensiynau.⁹⁶

Bydd capiau'r LHA, fodd bynnag, yn cael effaith ehangach ar osod yn y sector cymdeithasol yn y rhannau hynny o'r wlad lle nad oes gwahaniaeth mawr rhwng rhenti'r sector cymdeithasol a'r sector preifat. A gan fod y cyfraddau LHA yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd yr ystyrir bod eu hangen ar aelwyd, yn hytrach na maint yr annedd, gallai hyn hefyd effeithio ar aelwydydd sydd wedi ymddeol ac sydd 'ddim yn llawn' ac sydd ddim yn ddarostyngedig i'r dreth ystafell wely ar hyn o bryd.

Gellir gweld graddfa bosibl y mater hwn yn Ffigwr 3.2, sy'n dangos cyfraddau LHA ar gyfer Ardaloedd Marchnadoedd Rhentu Eang (BRMA) Cymru yn 2017/18. Gellir cymharu'r rhain â rhenti net cyfartalog awdurdodau lleol ar gyfer fflatiau un a dwy ystafell wely, sef £70.00

yr wythnos a £76.80 yr wythnos yn ôl eu trefn, a rhenti net cyfartalog cymdeithasau tai o £73.11 yr wythnos a £77.51 yr wythnos, sef ffigurau 2016/17 yn y naill achos a'r llall. Ym mhob ardal BRMA mae'r Gyfradd Llety a Rennir (SAR), i bobl sengl o dan 35 oed, yn is na lefel rhenti cyfartalog un ystafell wely ar gyfer awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru. Hefyd, mae llawer o ardaloedd lle mae'r gyfradd LHA un gwely hefyd yn is na rhenti net un a dwy ystafell wely ar gyfer awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ledled Cymru. Ar ôl ystyried y cynyddiadau blynyddol yn rhenti'r sector cymdeithasol ar gyfer 2017/18, ac ystyried costau gwasanaethau landlordiaid, bydd effaith y capiau LHA yn fwy fyth. Wedi hynny, os yw Llywodraeth Cymru yn parhau â'u polisiâu presennol ar gyfer cynyddu rhenti'r sector cymdeithasol yn flynyddol, bydd effaith y capiau LHA yn parhau i gryfhau.

Ffigwr 3.2 Cyfraddau LHA ar gyfer BRMA Cymru



Ffynhonnell : Cyfraddau Lwfans Tai Lleol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2017/18

96 Pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin ar Gymunedau a Llywodraeth Leol a Gwaith a Phensiynau (2017) *Future of supported housing. First Joint Report of the Communities and Local Government and Work and Pensions Committees of Session 2016-17*, Tŷ'r Cyffredin.

94 Reeve, K., Cole, I., Batty, B., Foden, M., Green, S. a Pattison, B. (2016) *Home: No Less Will Do: Homeless People's Access to the Private Rented Sector*, Prifysgol Hallam Sheffield, Crisis https://www.crisis.org.uk/media/237166/home_no_less_will_do_crisis.pdf

95 Beatty, C., Cole, I., Powell, R., Kemp, P., Brewer, M., Emmerson, C., Hood, A a Joyce, R (2014) *Monitoring the Impact of Changes to the Local Housing Allowance System of Housing Benefit: Final Reports*. Llundain: DWP.

Y cynnig ar hyn o bryd ar gyfer cynlluniau tai â chymorth yw, er y defnyddir y capiau LHA, y darperir rhywfaint o gyllid ychwanegol i gynorthwyo pobl agored i niwed mewn cynlluniau tai â chymorth. Darperir cyllid at y diben hwn i Lywodraeth Cymru o fis Ebrill 2019 ymlaen, ond ar hyn o bryd nid oes manylion ar gael ynglŷn â sut y caiff y cyllid hwnnw ei strwythuro a'i reoli yng Nghymru. Fel y nodwyd uchod, mae'r teimlad ymysg rhai pobl bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud traed moch o'u hymdrech i reoli'r newidiadau diweddar i lety dros dro wedi cynyddu'r awydd am ymgynghoriad llawn a chynllunio ar gyfer y newidiadau hyn i lety â chymorth.

Ceir pryderon sylweddol am sut y gallai'r trefniadau hyn effeithio ar gynlluniau presennol, ac mae'r ansicrwydd am yr effaith honno hefyd yn atal datblygiad cynlluniau newydd.

Y cap budd-daliadau

Cyflwynwyd y cap cyffredinol ar fudd-daliadau lles mewn pedwar awdurdod lleol ym mis Ebrill 2013, ac fe'i cyflwynwyd fesul cam, ac ers diwedd mis Medi 2013 mae wedi bod ar waith ledled Prydain Fawr gyfan. Mae'r cap – wedi'i osod ar £350 yr wythnos i bobl sengl, a £500 i bob aelwyd arall – wedi'i ddefnyddio ar gyfer aelwydydd di-waith o dan oed pensiwn, gyda nifer o eithriadau ar gyfer aelwydydd ag anabledau.


Fodd bynnag, ers 7^{ed} Tachwedd 2016 mae'r cap budd-daliadau i hawlwyd di-waith wedi'i ostwng i £13,400 y flwyddyn i bobl sengl ac £20,000 i bob aelwyd arall, heblaw yn Llundain lle mae wedi'i ostwng i £15,410 a

£23,000 yn ôl eu trefn. Bydd y terfynau is hyn yn cynyddu'n sylweddol nifer yr aelwydydd y mae'r cap yn effeithio arnynt, yn enwedig y tu allan i Lundain ac ardaloedd eraill lle mae rhenti'n uchel.⁹⁷

Yn ymarferol, roedd y cap gwreiddiol yn effeithio ar lawer llai o aelwydydd na'r disgwyl. Mae'r niferoedd yn amrywio ychydig o fis i fis, ond ar gyfer Cymru gyfan y nifer uchaf oedd 828 ym mis Mawrth 2014, ac ym mis Tachwedd 2016 roedd y nifer yn 764.⁹⁸ Mae newidiadau i amgylchiadau wedi arwain at lifoedd misol parhaus o aelwydydd i mewn ac allan o'r cap budd-daliadau. Roedd cyfanswm o ychydig dros 2,500 o aelwydydd yng Nghymru wedi bod o dan y cap ar ryw adeg, ac roedd bron i 1,800 o'r rheini nad oeddent o dan y cap ym mis Tachwedd 2016. O'r rheini, roedd 36% wedi dod yn rhydd o'r cap am eu bod yn gweithio, a bod ganddynt hawliad Credyd Treth Gwaith agored. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint y mae'r cap budd-daliadau, ynddo ei hun, wedi helpu'r aelwydydd a oedd o dan y cap i gael gwaith, oherwydd mae newidiadau i amgylchiadau a symudiadau i mewn ac allan o gyflogaeth sy'n aml yn ansicr ac â thâl isel yn batrwm sefydledig ymysg llawer o aelwydydd incwm isel.⁹⁹

Roedd yr aelwydydd yr oedd hyn yn effeithio arnynt yn genedlaethol yn fwy tebygol o fod yn y sector rhentu cymdeithasol (60%) na'r sector rhentu preifat (40%).¹⁰⁰ Er bod llawer mwy o deuluoedd mawr di-waith yn y sector rhentu cymdeithasol, mae cyfran fwy o'r niferoedd bach o'r teuluoedd hynny sydd yn y sector rhentu preifat yn cael eu dal gan y cap budd-daliadau oherwydd y rhenti uwch yn y sector.

Ffigwr 3.3 Tynhau cap uchafswm budd-daliadau



Ffynhonnell: Gwahaniaeth rhwng cyfraddau Cymhorthdal Incwm aelwydydd sylfaenol a'r Cap.

Bydd y capiau budd-daliadau is sydd nawr wedi'u cyflwyno'n cynyddu eu heffaith yn fawr yng Nghymru. Roedd Aseiad Effaith y DWP yn awgrymu, ledled Cymru, y byddai'r cap is yn effeithio ar dros bum gwaith cynifer o bobl (i tua 4,000) erbyn 2020/21.¹⁰¹ Fodd bynnag, yr aelwydydd sydd eisoes o dan y cap a fydd yn cael y colledion unigol mwyaf – £6,000 ychwanegol y flwyddyn (neu £4,800 i bobl sengl).

Mae'n amlwg y bydd maint y colledion hyn, a'r diffyg arian sydd ar gael i dalu costau tai y tu hwnt i lwfansau byw lles sylfaenol, yn ei gwneud yn anodd, os nad yn amhosibl, i lawer o'r aelwydydd mwyaf dalu rhent yn unrhyw le, heb sôn am ardaloedd â gwerth uchel, fel y dangosir yn Ffigwr 3.3. Mae'n ddigon clir y gallai'r polisi hwn arwain at ddigartrefedd i'r aelwydydd hynny lle nad yw canfod cyflogaeth yn ymarferol bosibl:

“Mae'r cap budd-daliadau'n enfawr. Mae cynnydd enfawr

nawr yn [awdurdod lleol]. Bydd yn effeithio ar 600 o deuluoedd yn ychwanegol.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

“Mae gennym ni deuluoedd mawr yn [awdurdod lleol]. Mae gennym ni lawer o lety HMO. Mae gennym ni lawer o deuluoedd mawr. Mae gennym ni deuluoedd sy'n deithwyr. Mae yna gymuned fawr o deithwyr. Mae gennym ni lawer o bobl o Ddwyrain Ewrop. Mae gan y rhan fwyaf o'r rhain deuluoedd mawr. Rydyn ni'n gweld bod hynny i gyd yn cael effaith.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Un mater penodol a godwyd gan hysbysydd allweddol arall oedd yr

97 Beatty, C. a Fothergill, S. (2016) *The Uneven Impact of Welfare Reform*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol, Prifysgol Hallam Sheffield. Mae'r mesurau PIP, ESA ac 18-21 ar gyfer unigolion; mae mesurau'r budd-daliadau eraill i gyd ar gyfer aelwydydd.

98 DWP (2016) *Benefit Cap: GB households capped to November 2016*.

99 Green, A., Elias, P., Hogarth, T., Holmans, A., McKnight, A. ac Owen, D. (1997) *Housing, Family and Working Lives*. Warwick: Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth, Prifysgol Warwick; Hills, J., Smithies, R. a McKnight, A. (2006) *Tracking Income: How Working Families' Incomes Vary Through The Year*. Llundain: Canolfan Dadansoddi Eithrio Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain.

100 Data wedi'u hechdynnu gan ddefnyddio DWP Stats-Explore.

101 DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for the Benefit Cap*. Llundain: DWP.

effaith bosibl ar ddigartrefedd ymysg pobl ifanc:

“Bydd y cap budd-daliadau’n mynd i lawr i £20,000 mewn rhai manau, rydw i’n meddwl, yn golygu... na fydd teuluoedd mawr yn gallu fforddio cadw eu plant hŷn. Tlodi yw hynny. Sut bynnag rydyn ni’n edrych ar y peth, os na allwch chi fforddio rheoli popeth pan mae gennych chi blentyn hŷn llwglyd sy’n cymryd llawer o le a llawer o arian, ar ryw adeg... Efallai na fydd hyn yn digwydd pan maen nhw’n 16 neu’n 17. Efallai y byddan nhw’n 19, ond bydd hynny’n golygu, rydw i’n meddwl, y bydd rhieni’n gofyn i’w plant hŷn adael cartref y teulu am nad yw’r teulu’n gallu ymdopi â nhw o safbwynt ariannol.”

(Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Roedd un arall yn gwneud achos cryf dros eithriad i bobl ddigartref:

“Yn amlwg, mae’r cap budd-daliadau cyffredinol yn hybu digartrefedd... dylai pobl mewn TA fod wedi’u heithrio rhag y cap budd-daliadau cyffredinol, oherwydd mae’n atal awdurdodau lleol rhag gallu cyflawni eu dyletswyddau a chyflawni uchelgeisiau’r ddeddfwriaeth [digartrefedd]... dylai fod dyletswydd digartrefedd – i atal digartrefedd neu i

102 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis.

ryddhau pobl ohono, neu unrhyw ddyletswydd arall – wedi’i heithrio o’r cap budd-daliadau cyffredinol tra mae’r ddyletswydd yn berthnasol ac am chwe mis wedi hynny i roi amser iddyn nhw i addasu. Rhoi trefn ar eu bywydau, ac atall digartrefedd rhag digwydd eto.” (Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Y ‘Dreth Ystafell Wely’

Hefyd, cyflwynwyd cyfyngiadau ar y rhenti cymwys i aelwydydd yn y sector rhentu cymdeithasol ym mis Ebrill 2013, yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely yr ystyrir bod eu hangen ar yr aelwydydd yn ôl meini prawf maint sydd, yn y bôn, yn deillio o’r mesur ‘safon ystafelloedd gwely’ ar gyfer arolygon cymdeithasol a sefydlwyd yn yr 1960au. Yn swyddogol, mae’r terfynau hyn wedi’u dynodi’n derfynau ‘Cymhorthdal Ystafell Sbâr’, ond maent yn amlach yn cael eu galw’n ‘Dreth Ystafell Wely’, ac er nad yw hynny’n ddisgrifiad technegol gywir o’r mesur, dyna’r derminoleg y byddwn yn ei defnyddio yma gan ei bod yn cael ei defnyddio’n gyffredin (ac o ystyried bod y derminoleg swyddogol hefyd yn eithaf awgrymog, ac nad yw’n cael ei defnyddio’n aml yn answyddogol). Mae trafodaeth am gyd-destun cyflwyno’r ‘Dreth Ystafell Wely’ i’w chael mewn fersiynau blaenorol o’r Monitor.¹⁰² Er mai dim ond i aelwydydd oed gweithio y mae’r ‘Dreth Ystafell Wely’ ei hun yn berthnasol, bydd cyflwyno capiau LHA ar gyfer tai rhentu cymdeithasol – gan fod y cyfraddau LHA yn seiliedig ar faint aelwydydd yn hytrach na maint yr annedd lle maent yn byw – o bosibl yn golygu y bydd cyfyngiadau cywerth ar renti cymwys yn ymestyn i aelwydydd hŷn, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae rhenti cymdeithasol yn agosach

at renti preifat a chyfraddau LHA (gweler Ffigur 3.2 uchod).

Fel ar gyfer y cap budd-daliadau cyffredinol, mae nifer gwirioneddol yr aelwydydd y mae’r ‘Dreth Ystafell Wely’ wedi effeithio arnynt wedi bod yn dipyn is na’r lefelau a amcanwyd yn yr asesiadau o effaith. Roedd ffigurau Mai 2013 yn dangos bod terfynau’r meini prawf maint yn berthnasol i tua 35,700 o aelwydydd ledled Cymru gyfan. Erbyn mis Tachwedd 2014, roedd niferoedd y tenantiaid yr oedd y gostyngiadau’n effeithio arnynt yng Nghymru wedi gostwng 14% i tua 30,900. Yn y ddwy flynedd wedyn hyd at fis Tachwedd 2016, gostyngodd y niferoedd 8% arall i 28,500. Fodd bynnag, erbyn mis Chwefror 2017, roedd niferoedd y tenantiaid yr oedd y gostyngiadau’n effeithio arnynt wedi codi i ychydig dros 29,460.¹⁰³

Fel ar gyfer ffigurau misol y cap budd-daliadau, rhaid cydnabod mai gostyngiadau a chynyddiadau net yw’r rhain yn niferoedd y tenantiaid y mae’n effeithio arnynt; mae newidiadau i amgylchiadau aelwydydd yn golygu bod y ‘Dreth Ystafell Wely’ yn dechrau effeithio ar denantiaid newydd bob mis (h.y. pan nad yw plentyn yn ddibynnydd mwyach), a bod effaith y terfynau’n dod i ben i aelwydydd eraill.

Canfu dadansoddiad o effaith y naw mis cyntaf o gynnal y cynllun fod tua 10% o’r aelwydydd nad oedd y ‘Dreth Ystafell Wely’ yn berthnasol iddynt mwyach wedi symud i lety llai yn y sector rhentu cymdeithasol, a bod tua 2% wedi symud i’r sector rhentu preifat.¹⁰⁴

103 Adran Gwaith a Phensiynau (2017) *Housing Benefit Caseload Statistics, May 2017*. Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

104 DWP (2014) *Removal of the Spare Room Subsidy: Analysis of Changes in Numbers Subject to a Reduction in Housing Benefit Award*. Llundain: DWP.

105 Clarke, A., Hill, L., Marshall, B., Monk, S., Pereira, I., Thomson, E., Whitehead, C., a Williams, P. (2014) *Evaluation of Removal of the Spare Room Subsidy: Interim Report*. Llundain: DWP; Wilcox, S. (2014) *Housing Benefit Size Criteria: Impacts for Social Sector Tenants and Options for Reform*. Caerfrog: JRF; Ipsos MORI (2014) *Impact of Welfare Reforms on Housing Associations: Early Effects and Responses by Landlords and Tenants*. <https://www.ipsos.com/sites/default/files/publication/1970-01/sri-housing-nhf-welfare-reform-2014.pdf>.

106 Clarke, A., Hill, L., Marshall, B., Monk, S., Pereira, I., Thomson, E., Whitehead, C., a Williams, P. (2015) *Evaluation of Removal of the Spare Room Subsidy: Adroddiad Terfynol*. Llundain: DWP.

107 Peaker, G. (2016) *With and Without Foundation – Bedroom Tax in Supreme Court*, gwefan Nearly Legal.

108 Er os yw’r plant dros 10 oed ac o rywiau gwahanol, nid yw’n ofynnol iddynt rannu ystafell wely. Ond eto nid yw’r maint yn cael ei ystyried gan y ddarpariaeth hon.

Roedd nifer o adroddiadau’n rhoi tystiolaeth o effeithiau cynnar y dreth ystafell wely, a rhai o’r materion y mae hyn wedi’u codi.¹⁰⁵ Roedd y rhain, ac adroddiad y DWP ynglŷn â chynnal y cynllun am y deunaw mis cyntaf,¹⁰⁶ i gyd yn cadarnhau nad oedd y rhan fwyaf o’r tenantiaid yr oedd hyn yn effeithio arnynt yn teimlo bod eu llety’n rhy fawr. Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod y ‘safon ystafelloedd gwely’ y mae’r ‘Dreth Ystafell Wely’ yn seiliedig arni’n hen-ffasiwn o ran gwerthoedd ac arferion cymdeithasol.

Roedd y meini prawf maint mor dynn nes eu bod wedi arwain at lu o bryderon am yr amgylchiadau lle byddai angen ystafelloedd gwely ychwanegol, ar gyfer anabled neu am resymau meddygol eraill, neu i ofalwyr plant i rieni sydd wedi gwahanu neu ysgaru o dan amgylchiadau ehangach na’r rhai a gydnabyddir yn y meini prawf. Er bod dau ddyfarniad yn y Goruchaf Lys wedi ei gwneud yn glir bod angen ystafell ychwanegol ar aelwydydd anabl o dan rai amgylchiadau, ac na ellir gadael i’r Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn ymdrin â hyn, mae’r meini prawf yn dal i fod yn gul iawn.¹⁰⁷ Gwaethygir hyn gan dybiaeth y meini prawf y gall dau blentyn rannu unrhyw ystafell wely, pa bynnag mor fach yw’r ystafell, a beth bynnag yw oed y plant.¹⁰⁸ Un pryder ehangach ynglŷn â defnyddio’r meini prawf maint yw bod prinder anheddau llai ar gael yn y sector cymdeithasol mewn llawer o ardaloedd i bobl symud i le llai.

Canfu arolwg o landlordiaid a gynhaliwyd ar ran DWP, ar ôl pum mis, mai dim ond dau o bob pum tenant yr oedd hyn yn effeithio arnynt a oedd yn talu eu rhent yn llawn; roedd dau o bob pump yn talu am rywfaint o'r didyniadau meini prawf maint, ac roedd un o bob pump ddim yn talu o gwbl i wneud iawn am y diffyg.¹⁰⁹ Flwyddyn yn ddiweddarach, roedd hanner yr holl denantiaid yr oedd hyn yn effeithio arnynt yn talu eu rhent yn llawn, roedd dau o bob pump yn talu am rywfaint o'r diffyg, a dim ond un o bob deg oedd ddim yn talu o gwbl i wneud iawn am y diffyg.¹¹⁰ Canfu'r adroddiad diweddarach fod tua thri o bob pump o'r tenantiaid yr oedd hyn yn effeithio arnynt yn gwario llai ar bethau hanfodol i'r cartref, a bod un o bob pedwar wedi benthyca arian, yn bennaf gan deulu neu ffrindiau, i helpu i ymdopi â'r diffyg. Canfu hefyd, erbyn hynny, fod bron i dri o bob deg o'r tenantiaid yr oedd hyn yn effeithio arnynt wedi gwneud hawliadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Trafodir y taliadau hyn yn yr adran ganlynol.

Er bod yr arolygon hyn wedi canfod lefelau problemus o ôl-ddyledion rhent, ar adeg eu cynnal nid oedd y rhain wedi arwain at lawer o achosion cyfreithiol na throi pobl allan. Fodd bynnag, wrth gynnwys ffactorau eraill (a diwygiadau lles), roedd cynnydd clir ac amlwg yn niferoedd yr achosion meddiannu gan landlordiaid cymdeithasol o drydydd chwarter 2013 ymlaen. Roedd cyfanswm gorchmynion meddiannu gan landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru 18% yn uwch yn 2013/14 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, er eu bod ers hynny wedi gostwng yn

2014/15 a 2015/16¹¹¹ (gweler hefyd: y drafodaeth ym Mhennod 2).

Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn

Mae cyllidebau cyfyngedig ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn (DHP) wedi cael eu darparu i awdurdodau lleol i gynorthwyo aelwydydd y mae diwygio lles wedi effeithio arnynt, ond fel sy'n anochel â darpariaethau yn ôl disgresiwn, mae'n anodd eu gweinyddu, maent wedi'u defnyddio'n afreolaidd, ac yn aml nid yw'r cyllidebau wedi'u gwario'n llawn yn y gorffennol.¹¹²

Fodd bynnag, roedd data 2013/14 yn dangos bod cyfanswm cyllidebau DHP Cymru yn y flwyddyn wedi'u gorwario ychydig bach, yn bennaf o ganlyniad i arian ychwanegol (tua £800,000) a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Dim ond pum awdurdod yng Nghymru na ddefnyddiodd eu dyraniadau DHP gan y DWP yn llawn, a gwariodd pymtheg ohonynt fwy na'u dyraniad. At ei gilydd, gwariodd awdurdodau Cymru 106% o'u dyraniad o £7.3 miliwn gan y DWP ar gyfer DHP.¹¹³ Yn 2014/15, a heb ddim cymorth pellach gan Lywodraeth Cymru, gwariodd yr awdurdodau 104% o'u dyraniadau DHP. Fel yn y flwyddyn flaenorol, mae ffigur cyfanswm y gwariant hefyd yn cynnwys gwariant ychwanegol a ariannwyd gan awdurdodau eu hunain, sy'n mwy na gwrthbwyso cyfanswm y tanwario gan awdurdodau eraill.

Yn 2015/16, gostyngodd cyfanswm gwariant awdurdodau Cymru ychydig yn is na lefel eu dyraniadau DHP (i 99%). O fewn y darlun cyffredinol hwnnw, gwariodd naw cyngor yng Nghymru fwy na'u dyraniad DHP (yn

fwyaf amlwg, Torfaen). Yn erbyn hynny, gwariodd tri chyngor lai na naw deg y cant o'u dyraniad (Wrecsam – 66%, Blaenau Gwent – 68% a Sir Ddinbych – 82%).¹¹⁴

Yng Nghymru, roedd dau draean y cyfanswm gwariant DHP yn 2013/14 ar achosion 'Treth Ystafell Wely', gan gynnwys aelwydydd ag anabledau sy'n byw mewn llety wedi'i addasu'n benodol. Mae hyn yn llawer mwy na'r arian a ddarperir gan DWP ar gyfer y Dreth Ystafell Wely, ac yn amlwg roedd llawer o gynghorau wedi dewis defnyddio eu disgresiwn i ddefnyddio mwy o arian ar gyfer yr achosion hyn, ac o ganlyniad llai ar gyfer achosion eraill, megis achosion yn ymwneud â'r cap budd-daliadau ac LHA.

Yn 2014/15, gostyngodd y gwariant DHP ar achosion 'Treth Ystafell Wely' yng Nghymru a Lloegr yn ôl i 45% o gyfanswm y gwariant DHP, ond roedd hyn yn dal i fod 29% yn fwy nag a ddyrannwyd yn dybiannol gan DWP i'r achosion hyn. Felly, os nad i'r un graddau ag yn 2013/14, roedd cynghorau'n dal i ddefnyddio eu disgresiwn i ddefnyddio mwy o arian ar gyfer achosion 'Treth Ystafell Wely', ac o ganlyniad llai ar gyfer achosion eraill, megis achosion yn ymwneud â'r cap budd-daliadau ac LHA. Er bod y gwariant yn 2015/16 ar achosion 'Treth Ystafell Wely' yng Nghymru a Lloegr yn dal i fod yn 46% o gyfanswm y gwariant DHP, gostyngodd y gwariant gwirioneddol, gan adlewyrchu'r lleihad yn y dyraniad DHP cyffredinol i Brydain Fawr o £165 miliwn yn 2014/15, i ddim ond £125 miliwn yn 2015/16 (er bod y swm hwn yn mynd i gynyddu eto, gweler isod). Mae'r dosbarthiad alldro hwn o wariant DHP yn arwydd arall o'r pwysau sy'n deillio o'r polisi 'Treth Ystafell Wely'.

Yn ogystal â'r pryderon am y lleiafrif o gynghorau sydd wedi methu (mwy

neu lai) â defnyddio eu dyraniadau'n llawn, mynegwyd pryderon hefyd am y ffaith bod rhai cynghorau'n ystyried dyfarniadau Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) wrth wneud yr asesiadau incwm ar gyfer cymhwysedd DHP, ac o ganlyniad yn gwrthod DHP i rai o'r aelwydydd anabl sy'n byw mewn llety wedi'i addasu'n benodol.¹¹⁵

Mae cyfanswm cyllideb DWP ar gyfer DHP yn 2016/17 wedi'i gynyddu i £150 miliwn yn 2016/17, ond mae hyn yng nghyd-destun y toriadau pellach i fudd-daliadau lles a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Haf a Datganiad Hydref 2015, ac yn benodol rhewi cyfraddau LHA a gostwng uchafswm y cap budd-daliadau.

Dywedodd y rhan fwyaf o atebwyr o awdurdodau lleol (12) fod eu gallu i ddefnyddio DHP wedi 'helpu'n fawr' i liniaru effeithiau diwygio lles ar ddigartrefedd. Roedd y gweddill yn credu bod DHP wedi 'helpu ychydig bach'.

Roedd amryw o hysbyswyr allweddol hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd parhaus DHP o ran atal digartrefedd, ond hefyd eu natur ansefydlog:

“Plastr dros dro ydyn nhw, maen nhw'n dal rhai sefyllfaoedd at ei gilydd. Mae'n eithaf dychrynlyd ceisio dychmygu sut byddai pethau heb y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Yr ansicrwydd rydw i'n meddwl bod hynny'n ei greu o ran peidio gwybod am ba mor hir y byddan nhw ar gael a faint fydd ar gael, a bod yn ansicr am gynaliadwyedd sefyllfaoedd tai pobl...Mae hynny'n thema gyffredin...

109 Clarke, A., Hill, L., Marshall, B., Monk, S., Pereira, I., Thomson, E., Whitehead, C., a Williams, P. (2014) *Evaluation of Removal of the Spare Room Subsidy: Interim Report*. Llundain: DWP.

110 Clarke, A., Hill, L., Marshall, B., Monk, S., Pereira, I., Thomson, E., Whitehead, C., a Williams, P. (2015) *Evaluation of Removal of the Spare Room Subsidy: Final Report*. Llundain: DWP.

111 Llywodraeth Cymru (2016) *Achosion Meddiannu ar gyfer Morgeisi a Landlordiaid a gymerwyd yn Llysoedd Sirol Cymru, 2015-16*. Llywodraeth Cymru.

112 Merrick, N. (2012) 'Councils underspend payments for struggling households by £8 million', *Guardian Professional*, 25ain Mehefin: <http://www.theguardian.com/housing-network/2012/jun/25/discretionary-housing-payments-underspend>

113 DWP (2014) *Use of Discretionary Housing Payments: Analysis of Annual Financial and Monitoring Returns from Local Authorities*. Llundain: DWP.

114 DWP (2016) *Use of Discretionary Housing Payments: Analysis of End of Year returns from Local Authorities: April 2015 - March 2016*. Llundain: DWP.

115 Wilcox, S. (2014) *Housing Benefit Size Criteria: Impacts for Social Sector Tenants and Options for Reform*. Caerfrog: JRF.

symud o sefyllfa lle roedd gan bobl sicrwydd, sicrwydd am oes yn y tenantiaethau hynny, i sefyllfa lle mae dyfodol tai pobl yn llai pendant, ac yn llai sicr.” (Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

A'r 'amodoldeb' a allai fod ynghlwm wrth eu defnyddio:

“... byddwn ni'n eu defnyddio nhw i helpu cleientiaid sy'n eu helpu eu hunain. Dydy'r pot ddim yn ddiiddiwedd, felly dylid ei ddefnyddio i ddatrys problem. Er enghraifft, pan ddaeth y 'Dreth Ystafell Wely' i mewn...os oedd cleientiaid yn fodlon...cofrestru i symud i dŷ llai wrth aros i'r cynnig hwnnw ddod, roedden ni'n gallu talu'r DHP i wneud iawn am y diffyg. Ar ôl iddyn nhw symud does dim ei angen mwyach, mae'n rhyddhau'r eiddo mawr. Maen nhw mewn eiddo sydd y maint iawn iddyn nhw. Does neb wedi colli arian, ac mae popeth yn iawn. O ran pobl mae'r cap budd-daliadau'n effeithio arnyn nhw... yn amlach na pheidio mae hynny oherwydd maint eu teulu. Allan nhw ddim lleihau maint eu teulu... ond os ydyn nhw'n fodlon ymwneud â'n Gwasanaethau i Mewn i Waith, eu helpu eu hunain i baratoi am gyflogaeth neu â'n gwasanaeth cyngor ariannol, byddwn ni'n talu'r DHP i helpu â'r diffyg o ran y cap rhent. Cyn belled â'u bod nhw'n gwneud

rhywbeth i'w helpu eu hunain.” (Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Tynnwyd sylw hefyd at arferion anghyson:

“Mewn rhai ardaloedd mae DHP yn cael ei ddefnyddio'n arloesol ac yn hyblyg iawn... Mae'n fater o berthnasoedd, a dweud y gwir, o ran DHP. Pa mor dda mae'r rheolwr budd-dal tai yn ei ddeall a pha mor dda yw ei berthynas â'r rheolwr digartrefedd, ac mae hynny wir yn dylanwadu ar ba mor dda mae'r arian yn cael ei wario.” (Hysbysydd allweddol annibynnol, 2017)

Credyd Cynhwysol

Mae'r drefn Credyd Cynhwysol (UC) yn cyfuno llawer o fudd-daliadau sy'n bodoli, gan gynnwys Budd-dal Tai, mewn cam radical i symleiddio strwythur budd-daliadau lles yn y Deyrnas Unedig. Amlinellwyd disgrifiad llawn o'r diwygiadau strwythurol mewn fersiynau blaenorol o'r Monitor Digartrefedd.¹¹⁶

Mae'r drefn newydd nawr ar waith yn genedlaethol i hawlwyd sy'n unigolion sengl, ac yn dechrau cael ei chyflwyno mewn nifer bach o ardaloedd i aelwydydd sy'n gyplau ac yn deuluoedd. Cafodd amserlen gyffredinol cyflwyno'r drefn newydd ei gohirio'n sylweddol – a lawer gwaith – o gymharu â'r cynlluniau gwreiddiol, yn bennaf oherwydd anawsterau i ddatblygu'r system TG ar gyfer cynllun a oedd yn dal i fod yn gymhleth; ni chafodd rheoliadau a gofynion gweithredu manwl y cynllun eu cadarnhau tan yn eithaf diweddar. Mae rheolaeth wael a diffyg rheolyddion

cost wrth ddatblygu'r drefn newydd wedi cael eu beirniadu'n hallt mewn dau adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.¹¹⁷

Mae'n dal i fod yn wir mai pobl sengl yw'r mwyafrif helaeth o hawlwyd UC ar hyn o bryd, a dim ond ers mis Tachwedd 2015 y bu UC ar gael i deuluoedd â phlant mewn nifer bach o ardaloedd. Hyd yn oed nawr, dim ond mewn ychydig dros 125 o ardaloedd Canolfan Byd Gwaith y mae UC ar gael ar gyfer hawliadau newydd gan gyplau a theuluoedd â phlant.¹¹⁸ Yn ddamcaniaethol, bydd wedi'i gyflwyno ar gyfer pob hawlwyd newydd erbyn mis Medi 2018, a chaiff hawlwyd presennol eu trosglwyddo i UC rhwng 2019 a 2022. Erbyn diwedd 2016, roedd ychydig dros 20,000 o bobl yn cael UC yng Nghymru.¹¹⁹

Mae pryderon am effaith y drefn UC ar ôl-ddyledion rhent wedi'u hatgyfnerthu gan brofiadau'r landlordiaid cymdeithasol a fu'n ymwneud â phrosiectau arddangos taliadau uniongyrchol y DWP. Dros ddeunaw mis y rhaglen, amcanwyd bod cyfraddau talu rhenti ar draws y prosiectau 5.5% yn is nag a fyddai wedi digwydd heb daliadau uniongyrchol.¹²⁰ Er bod cyfraddau talu rhy ychydig wedi gostwng dros gyfnod gweithredu'r prosiect, roedd achosion o dalu rhy ychydig hefyd yn afreolaidd ac yn anodd eu rhagweld (ac felly'n anodd eu rheoli), sy'n adlewyrchu

cymhlethdod a her amgylchiadau annisgwyl o ran cyllidebau aelwydydd incwm isel.¹²¹

Er na fyddai'r drefn UC wreiddiol, ynnddi ei hun, wedi cynnwys unrhyw ostyngiad pellach i lefelau budd-daliadau, byddai rhai pobl yn dal i fod wedi ennill a cholli o gymharu â'r trefnau presennol, er y byddai hawlwyd presennol wedi cael eu hamddiffyn yn y cyfnod pontio.¹²² Fodd bynnag, mae potensial y drefn UC i gynnig cymhelliad i weithio wedi'i danseilio gan y diwygiadau UC a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Haf 2015. Roedd y rhain yn cynnwys, ymysg newidiadau eraill, gostyngiad yn y lefelau enillion a ganiateir cyn i hawlwyd sy'n gweithio ddechrau cael gostyngiad 'graddedig' yn eu hawl.

Er bod y Llywodraeth Geidwadol cyn Brexit wedi troi'n ôl ar eu cynigion am doriadau i gredydau treth yn Natganiad Hydref 2015, cadarnhawyd y byddai'r toriadau i lwfansau UC yn digwydd. Daeth y 'lwfansau gwaith' is UC i rym ym mis Ebrill 2016. Caiff y lwfans plentyn uwch ar gyfer plentyn cyntaf o fewn lwfansau UC ei ddileu o fis Ebrill 2017 ymlaen. Dim ond effaith fach a gaiff diwygiad Datganiad Hydref 2016 i wrthbwyso'r toriadau hynny'n rhannol drwy leihau cyfradd graddio'r UC o 65% i 63% (hefyd o fis Ebrill 2017 ymlaen) ar aelwydydd mewn cyflogaeth â thâl is, fel y dangosir yn Ffigwr 3.4.

117 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2013) *Universal Credit: Early Progress*. <http://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2013/09/10132-001-Universal-credit.pdf>; Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014) *Universal Credit: Progress Update*. <http://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/Universal-Credit-progress-update.pdf>

118 DWP (2016) *Jobcentre areas where couples and families can claim Universal Credit - 8th December 2016*. Llundain: DWP.

119 DWP (2017) *Universal Credit Statistics: Claims, monthly starts and people on Universal Credit up to 9 March 2017*. Llundain: DWP.


120 Hickman, P., Reeve, K., Wilson, I., Green, S., Dayson, C. a Kemp, P. (2014) *Direct Payment Demonstration Projects: Key Findings of the Programme Evaluation*. Llundain: DWP.

121 Hickman, P., Kemp, P.A., Reeve, K. a Wilson, I. (2017) 'The Impact of the Direct Payment of Housing Benefit: Evidence from Great Britain', *Housing Studies*, <http://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/02673037.2017.1301401>

122 DWP (2012) *Universal Credit Impact Assessment*. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220177/universal-credit-wr2011-ia.pdf. Gweler hefyd: fersiwn y llynedd o'r Monitor Digartrefedd (adran 4.3) am drafodaeth bellach am y cynllun Credyd Cynhwysol, ac am ostyngiadau pellach mewn gwariant ar fudd-daliadau dros y blynyddoedd diwethaf: Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2013) *The Homelessness Monitor: England 2013*. Llundain: Crisis/JRF.

116 Adran 4.3 yn Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. a Wilcox, S. (2012) *The Homelessness Monitor: England 2012*. Llundain: Crisis.

Ffigwr 3.4 Effaith diwygio Credyd Cynhwysol ar gyfanswm incwm net ar ôl costau tai



Ffynhonnell: Rhiant sengl â dau o blant a rhent £120 yr wythnos. Yn seiliedig ar gyfraddau graddfa 2016/17.

Mae Ffigwr 3.4 yn canolbwyntio ar achos rhiant sengl â dau o blant. Fel y gwelir ar gyfer pobl sy'n ennill llai na £260 yr wythnos, byddai hyd yn oed y cynllun UC gwreiddiol wedi eu rhoi mewn sefyllfa waeth o gymharu â'r drefn bresennol credydau treth a budd-dal tai. Ond gyda'r toriadau i'r drefn UC, byddent wedi bod mewn sefyllfa waeth oni bai eu bod yn ennill dros £400 yr wythnos. Gyda'r gyfradd raddio is a gyhoeddwyd yn Natganiad Hydref 2016, maent yn dal i fod mewn sefyllfa waeth oni bai eu bod yn ennill dros £370 yr wythnos. Er bod yr anfantesion yn llai i gyplau â phlant, mae hefyd yn wir nad yw'r gyfradd raddio is yn gwneud llawer i wrthbwysio effaith y toriadau i'r lwfansau UC a fydd yn dal i fodoli.

Hefyd, rhaid edrych ar y llai o gymhellion gwaith a gynigir i aelwydydd mewn gwaith â thâl isel yng nghyd-destun yr economi ehangach, y cynnydd mewn costau tai sy'n gysylltiedig â thwf rhentu preifat, a

thoriadau blaenorol i fudd-daliadau lles i bobl sy'n gweithio, sydd gyda'i gilydd wedi arwain at y lefelau uchaf erioed o dlodi ymysg aelodau o deuluoedd sy'n gweithio.¹²³ Mae'r methiant i gynnwys budd-dal y Dreth Gyngor o fewn Credyd Cynhwysol hefyd yn tynnu oddi wrth yr amcanion i symleiddio'r cynllun a chynnig cymhellion.

Roedd atebwyr ein harolwg o awdurdodau lleol bron yn unfrydol ynglŷn â goblygiadau anffafriol Credyd Cynhwysol i ddigartrefedd – dywedodd 18 o'r 19 o atebwyr y byddai'n cynyddu digartrefedd yn eu hardal (nid oedd yr atebydd arall yn gwybod). Mae'r sylwadau canlynol yn dangos eu pryderon am effaith cyflwyno Credyd Cynhwysol ar ddigartrefedd:

“Mae ein cleientiaid yn agored i niwed a byddant yn ei chael yn anodd cyllidebu ar gyfer un taliad. Bydd hyn hefyd

yn anghymell landlordiaid PRS rhag cymryd tenantiaid â chefnidir o ddigartrefedd oherwydd ofn o ôl-ddyledion rhent. I landlordiaid, does dim proses garlam iddynt ddefnyddio dulliau talu eraill. Bydd yr oediad chwe wythnos yn cynyddu ôl-ddyledion rhent a dyledion i'n cleientiaid, gan beryglu eu tenantiaeth.” (Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

“...[mae disgwyl i] agwedd 'ar-lein' y... system ... amharu ar allu pobl i reoli eu harian.” (Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

“Mae gennym bryderon mawr yn y maes hwn - heb lawer o waith cefnogi i gynorthwyo pobl agored i niwed sydd ddim o reidrwydd yn rheoli arian yn dda, mae perygl go iawn o golli tenantiaethau.” (Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

Roedd agwedd yr un mor besimistaidd i'w gweld ymysg hysbyswyr allweddol o'r sectorau gwirfoddol a statudol:¹²⁴

“... rydyn ni'n cael y system budd-dal tai yn uniongyrchol yma, felly gallwn ni weld beth yn union sy'n mynd ymlaen, ac mae hynny'n help mawr i ni. Gyda'r Credyd Cynhwysol, caiff hynny ei gymryd oddi arnom ni.”

(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

“Mae'r ffaith bod rhaid i chi aros mor hir cyn cael eich taliad cyntaf, mae'n rhoi pobl mewn sefyllfa i fethu, ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw ffordd o osgoi hynny. Nid yw'n ymddangos bod yna ffordd o wneud y system yn fwy hyblyg. Mae pobl yn ceisio deall trefniadau talu eraill, a gwneud yn siŵr eu bod yn eu defnyddio gymaint â phosibl, ond mae pobl mewn sefyllfa mor anodd.” (Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Un mater allweddol a godwyd gan lawer o hysbyswyr allweddol oedd dileu'r hawl 'awtomatig' i bobl 18-21 oed o dan y Credyd Cynhwysol i gael budd-dal tai.¹²⁵ Amcangyfrifir y gallai hyn effeithio ar tua 10,000 o bobl 18-21 oed ledled Prydain Fawr; nid oes ffigurau ar wahân ar gael ar gyfer Cymru. Er bod rhai wedi'u siomi ar yr ochr orau wrth y consesiynau a wnaethpwyd ar y polisi hwn, roeddent yn dal i bwysleisio'r heriau ymarferol a gyflwynir ganddo:

“Rydw i'n meddwl bod yr eithriadau eang wedi tawelu meddyliau pobl, yn bendant... Mae Llywodraeth Cymru'n amcangyfrif y bydd hyn yn effeithio ar tua mil o bobl ifanc, ac erbyn i'r eithriadau ddod i rym, rydych chi'n edrych ar nifer llawer llai eto, efallai dim ond dau neu dri chant hyd

123 Tinson, A., Ayrton, C., Barker, K., Born, B., Aldridge, H. a Kenway, P. (2016) *Monitoring Poverty and Social Exclusion 2016*. Caerfrog: JRF.

124 Gweler hefyd: Protheroe, A., Mudd, J. a Fury, M. (2017) *The Experience of Universal Credit: A Tenants' Perspective*. <http://chcymru.org.uk/comms/CHC-Cartref/2017/03/17/universal-credit-a-tenants-perspective/>

125 Wilson, W., Keen, R. a Barton, C. (2017) *Housing Cost Element of Universal Credit: Withdrawing Entitlement from 18-21 Year Olds*. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Rhif 06473, 10 Ebrill 2017.

yn oed. Felly rydyn ni wedi dechrau awgrymu, 'Wel beth am i chi efallai gau'r bwlch hwn, Lywodraeth Cymru' oherwydd dydyn ni ddim yn sôn am tua 20 miliwn, fel y byddai ar gyfer y dreth ystafell wely, a gallai cost peidio â'u lletya nhw fod yn uwch.' (Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

"Rydw i'n meddwl mai un o'r pethau mwyaf sy'n ein taro ni, beth bynnag, yw'r diwygiadau lles, cael gwared ar fudd-dal tai i bobl o dan 21. Er, ar ôl edrych ar y canllawiau, rydw i'n teimlo bod yna dipyn o fylchau ac, a dweud y gwir, rhywbeth nad oeddwn i'n ei wybod tan ddoe, yw os oes gan rywun ddyletswydd [digartrefedd yn ddyledus iddynt]... maen nhw wedi'u heithrio. Felly, os yw rhywun yn dod i mewn a'n bod ni'n codi dyletswydd adran 66 neu adran 73 iddynt, maen nhw wedi'u heithrio. Ond profi hynny yw'r peth. Mae'n creu gwaith a biwrocratiaeth, pan fyddai'n well gennym ni gael gwared ar fiwrocratiaeth, wir, a gwneud pethau'n haws." (Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

"Er, yn amlwg, bod llawer o eithriadau i'r bobl 18 i 21

- 126 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis.
- 127 Blue Alumni Limited (2014) *Gwerthuso'r Gronfa Cymorth Dewisol: Prif Adroddiad*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- 128 Helen, R. (2016) Diweddariad DAF Hydref 2016. Wedi'i gyrchu o http://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/DAF_update_October_2016.pdf

mlwydd oed, mae'n dal i fod yn bolisi chwerthinllyd, ac rydw i'n meddwl ein bod ni'n gweld, o ran pobl rydyn ni'n eu cefnogi'n symud ymlaen i eiddo cymdeithasau tai, rydyn ni'n gweld cymdeithasau tai'n dechrau osgoi risgiau, ac yn gofyn am daliadau ymlaen llaw." (Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Cronfa Cymorth Dewisol

Roedd rhifyn diwethaf Monitor Digartrefedd Cymru yn sôn am ddadlau dros weithredu'r Gronfa Cymorth Dewisol (DAF), a gymerodd le'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol yng Nghymru, yn ystod ei dwy flynedd gyntaf.¹²⁶ Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r teimlad bod costau gweinyddu'n uchel ac nad oedd digon o ddyraniadau; cafodd y rhain sylw mewn gwerthusiad swyddogol.¹²⁷ Roedd hyn yn argymhell symleiddio'r drefn ymgeisio a darparu mwy o arweiniad; ymestyn yr ystod o nwyddau a gwasanaethau sydd wedi'u cynnwys mewn dyfarniadau; a chyflwyno darpariaeth fwy amrywiol i bobl ag anghenion arbennig. Roedd diweddariad am geisiadau am DAF ym mis Hydref 2016 yn dynodi bod tua 2,500 o geisiadau am Daliadau Cymorth Brys (EAP) a 350 o Daliadau Cymorth Unigol (IAP) yn cael eu dyfarnu bob mis. Y ddau brif beth sy'n arwain at geisiadau EAP yw cael budd-daliadau'n hwyr ac argyfyngau/trychinebau. Y ddau brif beth sy'n arwain at geisiadau IAP yw adsefydlu wedi'i gynllunio, a sefydlu ar ôl cyfnod o ddigartrefedd.¹²⁸

Ers dechrau 2015, mae pryderon ynglŷn â'r DAF hefyd wedi'u lleisio yn

ymchwiliad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i dlodi.¹²⁹ Maent yn awgrymu bod y tanwariant cychwynnol wedi arwain Llywodraeth Cymru i leihau maint y gronfa o £10.2 miliwn gwreiddiol i £8.38 miliwn yn 2015/2016 (roedd yr ymchwiliad yn nodi £7.23 miliwn ond cafodd hyn ei gywiro gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi yn ei hymateb).¹³⁰ Ym marn y Pwyllgor, sydd wedi'i hategu gan dystiolaeth arall,¹³¹ mae'r tanwariant oherwydd anawsterau i gael gafael ar y gronfa a diffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'i bodolaeth, yn hytrach na diffyg angen. Roedd yr Ymchwiliad yn argymhell bod Llywodraeth Cymru'n adfer swm gwreiddiol y gronfa, ac yn ehangu'r meini prawf ar gyfer dyfarniadau.

Er y pryderon uchod, ceir cytundeb cyffredinol bod y DAF yn adnodd hollbwysig. Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru god arweiniad wedi'i ddiweddarau i benderfynwyr ym mis Mawrth 2016,¹³² ac ar ôl ail ymarfer tendro cystadleuol mae Northgate Public Services nawr yn cynnal y bartneriaeth gyda Chronfa'r Teulu a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam tan o leiaf fis Mawrth 2020.¹³³

Ar y cyfan, nid oedd gan ein hysbyswyr allweddol lawer i'w ddweud am y DAF, ond roedd y feirniadaeth a gynigiwyd gan un yn awgrymu nad oedd rhai o'r hen broblemau yn ymwneud â mynediad wedi'u datrys yn llawn:

"Mae bron yn amhosibl cael carpedi. Rydyn ni wedi cael achosion sydd wedi..."

- 129 Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Tlodi ac Anghydraddoldeb*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Wedi'i gyrchu o <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10252/cr-ld10252-e.pdf>
- 130 Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (2015) *Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Dlodi ac Anghydraddoldeb*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Wedi'i gyrchu o <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10378/gen-ld10378-e.pdf>
- 131 Canolfan Cyngor ar Bopeth (2015). *Cronfa Cymorth Dewisol*. Cyngor ar Bopeth Cymru. https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/daf-briefing-final.pdf
- 132 Llywodraeth Cymru (2016) *Y Gronfa Cymorth Dewisol: Canllawiau i Benderfynwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.
- 133 Llywodraeth Cymru (2016) *Cronfa Cymorth Dewisol Cymru*. Llywodraeth Cymru. <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/debt/discretionary-assistance-fund/?lang=en>

ymgeisio am DAF ar eu pennau eu hunain, sydd wedi'u gwrthod ac yna maen nhw wedi ymgeisio am rywbeth arall ac wedi cael clywed bod angen cadarnhad gan weithiwr cymorth. Felly mae pobl yn... chwilio am weithiwr cymorth i'w helpu â DAF, sy'n achosi ychydig bach o bryder i mi. Rydw i'n meddwl bod y broses wedi bod yn eithaf hir hefyd, ac yn anodd ei chael hefyd i unigolion sy'n ceisio cael mynediad. Rydw i'n gwybod fy mod i wedi cael trafodaethau â Llywodraeth Cymru am y peth oherwydd roedd tipyn o danwario, rydw i'n meddwl, y llynedd neu doedden nhw ddim yn cael y nifer o gyfeiriadau neu geisiadau i mewn yr oeddent yn eu disgwyl, felly roedden nhw'n ceisio darganfod pam. Felly fe wnes i anfon adborth anecdotaidd gan rai o'r staff... am achosion unigol." (Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Safbwyntiau cyffredinol awdurdodau lleol am effeithiau diwygio lles ar ddigartrefedd

Roedd bron bob awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i arolwg 2017 yn credu bod diwygio lles ers 2010 wedi gwaethygu digartrefedd yn eu hardal; tri awdurdod gwledig oedd yr unig dri eithriad (gweler Atodiad 2, Tabl 2).


Fodd bynnag, roedd amrywiaeth sylweddol o ran pa fesur diwygio lles yr ystyriwyd ei fod 'fwyaf arwyddocaol' o ran cynyddu digartrefedd dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd bron hanner yr atebwyr o awdurdodau lleol (saith) yn credu mai ymestyn y SAR i oed 25-34 oedd y prif ffactor yma. Fodd bynnag, dewisodd un neu fwy o atebwyr bob un o'r pum newid arall i fudd-daliadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys rhewi lefelau budd-daliadau, y 'Dreth Ystafell

Wely', sancsiynau budd-daliadau, capiau LHA a'r cap cyfanswm budd-daliadau (gweler Atodiad 2, Tabl 3). Mae hyn yn awgrymu darlun mwy amrywiol, sydd efallai'n llai aciwt, na'r effeithiau cyson iawn, yn ddaearyddol, ar ddigartrefedd o ganlyniad i ddiwygio lles a nodwyd yn Lloegr.¹³⁴

Fodd bynnag, roedd pob un atebydd yn credu y byddai'r pwysau digartrefedd yn cynyddu eto oherwydd diwygiadau lles sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd a/neu a ragwelir dros y blynyddoedd nesaf. Pan ofynnwyd pa newid penodol oedd yn debygol o gael yr effaith fwyaf arwyddocaol yn hyn o beth, nododd llawer mwy na hanner yr atebwyr mai cyflwyno Credyd Uniongyrchol oedd eu pryder mwyaf, sy'n atgyfnerthu'r disgrifiad negyddol iawn a roddwyd uchod – gweler Ffigwr 3.5.

Ffigwr 3.5 Canfyddiadau am yr un mesur diwygio lles newydd mwyaf arwyddocaol sy'n debygol o waethygu digartrefedd ymhellach 2017-2020

- Cyfanswm y cap budd-daliadau
- Cyflwyno Credyd Cynhwysol yn llawn
- Tynnu hawl HB oddi ar bobl 18–21 oed
- Ymestyn cyfradd LHA i gynnwys tenantiaid cymdeithasol
- Ymestyn SAR i bobl sengl 25–34 oed



Ffynhonnell: Arolwg Awdurdodau Lleol, 2017 Sail: 19 o atebwyr o awdurdodau lleol

134 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis.

I rai, effaith gronol yr holl newidiadau sy'n cael eu cyflwyno oedd y pryder allweddol:

“Wrth weld cyflwyno Credyd Cynhwysol sydd ar y gorwel, wrth weld y newidiadau i bobl dan 35 a rhwng 18 a 21 oed, mae hynny nawr yn teimlo fel ein bod ni'n wynebu heriau llawer mwy nag rydyn ni wedi'u cael hyd yma. Yr effaith gronol, am wn i, sy'n fy mhoeni am y rhain i gyd, brwydro yn erbyn nifer o bethau gwahanol i geisio dod o hyd i atebion i grwpiau newydd o bobl sy'n mynd i gael eu herio'n fawr gan hynny.”

(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

“... weithiau mae ychydig yn anodd dod o hyd i'r atebion sydd eu hangen arnom o dan Ddeddf Tai Cymru pan fyddwn ni'n wynebu'r rhwystrau hyn rhag cael arian ar gyfer tai addas... Pobl 18 i 21 mlwydd oed, sut ddiawl ydyn ni'n mynd i atal digartrefedd ar gyfer y grŵp hwnnw o gleientiaid yn y flwyddyn nesaf?... Mae'r cap budd-daliadau'n dod i mewn nawr; o'r blaen, dim ond y teuluoedd mawr hynny â phedwar neu fwy o blant oedd wir yn teimlo effaith y cap budd-daliadau, ond nawr dydy cwpl â thri o blant yn cael prin ddim help o ran tai. Bydd cwpl â dau o blant yn debyg o golli tua hanner eu help o ran tai. Iawn, mae gennym ni daliadau

tai yn ôl disgrisiwn ar y foment ond dewisol yw'r rheini. Nid yw'n sicrwydd o gyllid o un flwyddyn i'r nesaf, ac mae hyd yn oed pobl â thenantiaethau sicr nawr yn wynebu problemau ariannol difrifol; fydd hyn ddim yn hawdd. I mi, dyna'r peth mwyaf, sef y gwrthdaro rhwng polisiau ac agendâu cenedlaethol Cymru a'r Deyrnas Unedig. Mae gennym ni bwerau wedi'u datganoli, materion wedi'u datganoli yng Nghymru ond mae rhai o'r pethau y tu hwnt i'n rheolaeth ni am eu bod nhw'n genedlaethol.”

(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

3.5 Pwyntiau Allweddol

- Ceir consensws cryf bod y fframwaith digartrefedd statudol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael amryw o effeithiau cadarnhaol, gan gynnwys ailgyfeirio 'diwylliant' awdurdodau lleol tuag at dulliau mwy ataliol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i unigolion, ac arwain at ymateb llawer gwell o ran y gwasanaeth i bobl ddigartref sengl yn benodol. Roedd y meysydd lle teimlwyd bod angen monitro neu welliannau parhaus yn cynnwys: y baich gwaith papur sy'n gysylltiedig â'r trefniadau newydd; amrywioldeb o ran arferion, rhwng awdurdodau lleol ac oddi mewn iddynt; defnyddio'r darpariaethau 'diffyg cydymffurfiaid' newydd yn briodol; rhoi Cynlluniau Tai Personol ar waith; a theimlad bod y 'camau rhesymol' a ddefnyddir mewn rhai ardaloedd yn rhy ddibynnol ar opsiynau mynediad i'r PRS.

- Y teimlad cyffredinol oedd bod y Grant Arian Pontio a ddarparwyd i awdurdodau lleol i roi'r

ddeddfwriaeth newydd ar waith yn ddigonol, ond rhoddwyd pwyslais mawr ar yr angen i hwn barhau y tu hwnt i'w ddyddiad diweddu gwreiddiol ar ddiwedd mis Mawrth 2018.

- Mae arian Cefnogi Pobl wedi cael ei ddiogelu'n gymharol dda yng Nghymru; mae'n dal i fod wedi'i glustnodi. Teimlwyd y bu'r ymdrechion i ailgyfeirio'r arian hwn i gefnogi'r agenda atal digartrefedd yn fwy effeithiol o leiaf yn rhannol lwyddiannus, ond roedd llawer o hysbyswyr allweddol yn teimlo bod angen gwelliannau pellach i'r arferion comisiynu.
- Mae cynnydd cyflym diweddar yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru wedi gwneud hyn yn bwynt gwleidyddol perthnasol. Mae diddordeb sylweddol mewn ehangu modelau Tai yn Gyntaf yng Nghymru.
- Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cyflwyno nifer o fesurau i wneud polisiau tai Cymru'n fwy gwahaniaethol. Yn benodol, roedd y Ddeddf yn galluogi ailariannu'r sector tai cyngor, ac yn darparu pwerau i drwyddedu a rheoleiddio landlordiaid preifat a'u hasiantau. Mae Bil pellach nawr wedi'i gyflwyno i ddiddymu'r hawl i brynu.
- Cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru eu targed eu hunain o ddarparu 10,000 o anheddau 'fforddiadwy' ychwanegol dros eu tymor pedair blynedd; ond roeddent yn dal yn fyr o'r niferoedd uwch sy'n ofynnol yn ôl asesiad annibynnol.
- Mae asesiadau o ddiwygiadau lles olynol Llywodraeth San Steffan wedi dangos y byddant yn cymryd dros £1 biliwn o bocedi aelwydydd incwm isel yng Nghymru. Bydd y rhain yn cael effaith anghymesur ar ardaloedd o Gymru sydd wedi dioddef dirywiad diwydiannol hirdymor.
- Mae cyfraddau LHA is wedi arafu'r twf yn nifer yr hawlwy'r Budd-dal Tai sy'n gallu defnyddio'r sector rhentu preifat, ac wedi cynyddu lefelau cyfartalog y 'diffygion' rhwng dyfarniadau LHA a rhenti landlordiaid. Bu effaith lawer mwy amlwg ar bobl ifanc sengl sydd ond yn gymwys i gael y lwfansau SAR llawer is. Mae effaith ddiweddar y mesurau hyn yn anoddach ei hasesu oherwydd nad oes data digonol ar gael ynglŷn â hawlwy'r Credyd Cynhwysol.
- Cafodd cyfanswm y cap budd-daliadau ei ostwng yn ddiweddar, a bydd hyn yn cynyddu ei effaith yn sylweddol yng Nghymru; bydd yn effeithio ar bron bum gwaith cynifer o bobl (tua 4,000) erbyn 2020/21. Fodd bynnag, yr aelwydydd sydd eisoes o dan y cap a fydd yn cael y colledion unigol mwyaf - £6,000 ychwanegol y flwyddyn (neu £4,800 i bobl sengl).
- Roedd y 'Dreth Ystafell Wely' i ddechrau'n effeithio ar 35,700 o denantiaid sector cymdeithasol yng Nghymru, ond erbyn mis Chwefror 2017 roedd y nifer hwn wedi gostwng i 29,500. Mae'r 'Dreth Ystafell Wely' yn cael effaith anghymesur yng Nghymru, ac mae landlordiaid cymdeithasol yn brin o anheddau llai i'w gwneud yn haws trosglwyddo llawer o denantiaid y bydd hyn yn effeithio arnynt.
- Cafodd effaith y 'Dreth Ystafell Wely' yng Nghymru ei lleihau, i raddau, gan ddefnyddio cyllidebau Taliad Tai yn ôl Disgresiwn y DWP yn llawn iawn, yn ogystal â defnyddio arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd achosion 'Treth Ystafell Wely' yn gyfrifol am ddau draean o'r holl daliadau DHP yng Nghymru yn 2013/14. Mae data 2015/16 yn dangos bod cynghorau Cymru ar y cyfan wedi parhau i ddefnyddio eu dyraniadau cyllideb DWP yn llawn ar gyfer y flwyddyn, er gwaethaf absenoldeb unrhyw

gymorth pellach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer eu gwariant DHP ar ôl 2013/14, a'r ffaith bod tri awdurdod wedi gwario llai na 90% o'u dyraniadau.

- Bydd ymestyn capiau LHA i gynnwys y rhenti sector cymdeithasol sy'n gymwys i gael budd-dal tai yn cael effaith eang yng Nghymru; ceir pryderon penodol am yr effaith ar bobl ifanc sengl, ac aelwydydd hŷn yr ystyrir nad oes digon o bobl ynddynt, yn ogystal â'r trefniadau a wneir ar gyfer llety â chymorth.
- O ganlyniad i ymestyn Credyd Cynhwysol, bydd llawer o aelwydydd sydd mewn gwaith â thâl isel mewn sefyllfa waeth nag o dan y drefn credydau treth bresennol, a cheir pryderon penodol am y trefniadau (yn y lle cyntaf) ar gyfer talu elfen tai UC i'r hawllydd.
- Mae'n ymddangos bod rhywfaint o bryder parhaus ynglŷn â chwmpas, gweithrediad a hygyrchedd y Gronfa Cymorth Dewisol, a gymerodd le'r Gronfa Gymdeithasol ddewisol yng Nghymru.
- Roedd bron bob awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i arolwg 2017 yn credu bod diwygio lles ers 2010 wedi gwaethygu digartrefedd yn eu hardal. Dywedodd y rhan fwyaf fod y ffaith bod DHP ar gael wedi 'helpu'n fawr' i liniaru'r effeithiau anffafriol hyn. Fodd bynnag, mynegwyd pryder enfawr am sut y gallai parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol effeithio ar ddigartrefedd, a nodwyd hefyd bod dileu hawl 'awtomatig' pobl 18-21 mlwydd oed i gael Budd-dal Tai hefyd yn rhywbeth penodol sy'n peri pryder o fewn y broses hon.

Tueddiadau digartrefedd

4. Tueddiadau digartrefedd yng Nghymru

4.1 Cyflwyniad

Mae'r penodau blaenorol wedi adolygu goblygiadau tebygol yr hinsawdd economaidd a'r newidiadau i bolisiau i ddigartrefedd. Yn y bennod hon, rydym yn dadansoddi'r tueddiadau diweddar o ran 'galw' digartrefedd yng Nghymru. Ar ôl ffocws cychwynnol ar gysgu ar y stryd, rydym yn symud ymlaen i ystyried digartrefedd sengl ac yna ddigartrefedd statudol (gan gynnwys atal digartrefedd mewn awdurdodau lleol).

Prif ffocws y dadansoddiad ystadegol yw'r newid a gofnodwyd yn y cyfnod ers 2010, ar ôl dechrau'r prif newidiadau i bolisiau a diwygiadau lles a ddechreuwyd gan y Llywodraeth Glymblaid.

Mae'r dadansoddiad yn seiliedig, gan fwyaf, ar ystadegau a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, wrth ddechongli'r ffigurau hyn rydym hefyd yn galw ar ein harolwg ar-lein 2017 o awdurdodau lleol ac ar gyfweiliadau a gynhaliodd y tîm ymchwil â hysbyswyr allweddol yn 2017.

135 Ffynhonnell: Cyfrif Cenedlaethol o Bobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Cymru 2007 a 2008 <http://gov.wales/docs/statistics/2009/090917roughsleep2007en.pdf>

136 Llywodraeth Cymru (heb ei gyhoeddi, 2015) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Cymru, Tachwedd 2014* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

137 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. a Wilcox, S. (2012) *The Homelessness Monitor: England 2012*. Llundain: Crisis.

4.2 Cysgu ar y stryd

Yn hanesyddol, dim ond yn achlysurol y mae cysgu ar y stryd wedi cael ei fonitro yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydlynu cyfrifon cenedlaethol o bobl sy'n cysgu ar y stryd, gan gynnwys awdurdodau lleol, yn 2007 a 2008. Roedd y cyfrifon hyn (gan gynnwys amcangyfrifon) yn cyfrif 138 a 124 o bobl yn cysgu ar y stryd, yn ôl eu trefn. Yn y ddwy flynedd, roedd yr un crynodiad mwyaf yng Nghaerdydd, lle cyfrwyd 26 o bobl yn cysgu ar y stryd ar y ddau achlysur.¹³⁵

Fodd bynnag, fel y cydnabuwyd mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn 2015, mae cyfrif pobl sy'n cysgu ar y stryd fel hyn yn rhoi "syniad bras iawn yn unig o'r niferoedd sy'n cysgu ar y stryd...".¹³⁶ Mae cyfyngiadau'r dulliau hyn wedi'u trafod yn llawnach mewn adroddiad Monitor Digartrefedd blaenorol.¹³⁷ Ni allant byth fod yn hollol drylwyr, felly rhaid trin y cyfrifon hyn fel 'amcangyfrifon o'r isafswm', a'r peth mwyaf defnyddiol i'w wneud

â hwy (os cânt eu cynnal yn gyson) yw eu defnyddio i ganfod tueddiadau. Drwy driongli data gweinyddol o ystod o ffynonellau, amcangyfrifodd tîm ymchwil y Monitor Digartrefedd yn 2015 fod cyfanswm 'go iawn' y bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yn Lloegr yn 2010/11 rhwng dwy a phedair gwaith cymaint â'r amcangyfrif yn seiliedig ar eu cyfrif ar y strydoedd.¹³⁸

I gydnabod cyfyngiadau cynhenid cyfrifon ar y stryd, mae Llywodraeth Cymru, ers 2015, wedi mabwysiadu dull cyflenwol. Cafodd ei dreialu gyntaf yn 2014 (ar ôl bwlch pum mlynedd mewn casglu data swyddogol o unrhyw fath), ac mae'n addasu dull a ddatblygwyd yn yr 1980au,¹³⁹ lle mae awdurdodau lleol yn cydweithio ag asiantaethau cymorth sy'n cynorthwyo pobl ddigartref mewn lleoliad penodol. Fel y'i gweithredir yma, mae'n cynnwys cyfnod o bythefnos lle mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn cofnodi pob ymholiad gan bobl sy'n cysgu ar y stryd i enwi – a chasglu gwybodaeth am – y bobl y mae hyn wedi effeithio arnynt ar ryw adeg yn ystod (neu drwy gydol) y cyfnod. Mae'r data hyn 'yna'n cael eu defnyddio i dargedu ac ategu'r cyfrif ar un noson, a hefyd i helpu awdurdodau lleol ac asiantaethau perthnasol eraill i ddatblygu gwasanaethau cymorth penodol a phriodol'.¹⁴⁰ Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau, o gymharu â chyfrif traddodiadol ar y stryd, bod y dull rhifo hybrid hwn "yn rhoi gwell dealltwriaeth o'r niferoedd sy'n cysgu ar y stryd".¹⁴¹

Mae dau arolwg blynyddol nawr wedi'u cynnal gan ddefnyddio'r fethodoleg uchod, ar ddiwedd 2015

138 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: England 2015*. Llundain: Crisis.

139 Thomas, M. (1983) *The Homeless in Brent and Lewisham*. Llundain: Cyngor Llundain Fwyaf

140 Llywodraeth Cymru (2017) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Tachwedd 2016 – Ystadegau Arbrofol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170201-national-rough-sleeper-count-november-2016-experimental-statistics-en.pdf>

141 Llywodraeth Cymru (heb ei gyhoeddi, 2015) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Cymru, Tachwedd 2014* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

142 Llywodraeth Cymru (2017) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Tachwedd 2016 – Ystadegau Arbrofol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170201-national-rough-sleeper-count-november-2016-experimental-statistics-en.pdf>

143 Ibid

ac ar ddiwedd 2016. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod y diweddaraf o'r rhain wedi cynnwys addasiadau bach i'r fethodoleg er mwyn gwella'r canlyniadau. Mae hyn yn effeithio ar gymaradwyedd yr ystadegau a gynhyrchwyd gan y ddau arolwg. Felly, er bod arolwg 2016 wedi rhifo 313 o bobl yn cysgu ar y stryd ledled Cymru o gymharu â 240 yn 2015, mae Llywodraeth Cymru yn rhybuddio y gallai'r cynnydd hwn fod o leiaf yn rhannol oherwydd bod yr arolwg yn fwy trylwyr, yn hytrach na bod y niferoedd go iawn wedi cynyddu.¹⁴² I bwysleisio'r angen am ofal wrth lunio casgliadau pendant am y newid diweddar yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd, mae rhai o'r awdurdodau lleol a gofnododd y cynyddiadau mwyaf wedi dweud bod ffactorau 'gweinyddol' wedi cyfrannu at y ffigurau mwy yn 2016:

- Defnyddio mwy o dimau cyfrif ar noson y cyfrif nag yn y blynyddoedd blaenorol.
- Gwell gwybodaeth ynglŷn â'r union leoliadau lle'r oedd pobl yn cysgu ar y stryd
- Mwy o wasanaethau lleol ar gael a gwell rhwydwaith o wybodaeth o ymarferion monitro yn y blynyddoedd blaenorol.¹⁴³

Gan ystyried y ffactorau hyn, yn ôl pob tebyg mae'n briodol ffurfio'r casgliad bod y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru ar ddiwedd 2016 yn gynydd hyd at 30% o gymharu â 2015. Gallai'r newid sylfaenol gwirioneddol fod yn agosach at y cynnydd 16% yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yn genedlaethol a gyfrwyd

yn Lloegr yn y deuddeg mis hyd at Hydref 2016.¹⁴⁴ Fodd bynnag, mae tystiolaeth ystadegol arall – er ei bod yn answyddogol – yn awgrymu tuedd glir tuag i fyny mewn cysgu ar y stryd yn ninasoedd mwyaf De Cymru. Mae timau ymyriadau cysgu ar y stryd sy'n gysylltiedig â'r prosiect Wallich wedi bod yn monitro cyfanswm y niferoedd yng Nghaerdydd, Casnewydd ac Abertawe ers blynnyddoedd lawer. Mae'r data hyn yn awgrymu, yn y pedair mlynedd hyd at fis Ebrill 2017, bod y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd wedi mwy na dyblu yng Nghaerdydd, a bod cynyddiadau llai yn y ddwy ddinas arall.¹⁴⁵

Yn gyson â'r teimlad bod cynnydd gwirioneddol mewn cysgu ar y stryd mewn llawer o rannau o Gymru, roedd ychydig dros hanner yr awdurdodau a ymatebodd yn ein harolwg ar-lein yn 2017 (10 o 19) yn credu bod y niferoedd a oedd yn cysgu ar y stryd yn eu hardal wedi cynyddu yn y flwyddyn flaenorol. Rhoddwyd llawer o esboniadau posibl am hyn. Roedd un atebwyd yn adlewyrchu barn llawer o'i gydweithwyr drwy ddweud bod y cynnydd yr oeddent yn ei ddirnad yn eu hardal yn digwydd oherwydd:

“Cynnydd yn nifer y dinasyddion EEA [ddim yn gymwys i gael budd-daliadau lles prif ffrwd], diwygio lles, toriadau i gyllidebau gwasanaethau cymorth, [a] cleientiaid yn cyrraedd o fwrdeistrefi eraill oherwydd diffyg darpariaeth yn eu hardal nhw...”
(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

144 Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis.

145 Prosiect Wallich (2017) Ystadegau Cysgu ar y Stryd <https://thewallich.com/rough-sleepers-statistics/>

146 Gweler hefyd: Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness Prevention: Reflecting on a Year of Pioneering Welsh Legislation in Practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

Roedd yr ymateb hwn ac eraill gan awdurdodau trefol yn seiliedig ar y rhagdybiaeth bod rhai unigolion sy'n mynd yn ddigartref mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i symud i drefi neu dinasoedd lle mae o leiaf rai gwasanaethau cymorth ar gael i bobl heb do dros eu pennau.

Roedd rhai o'n hysbyswyr allweddol yn dweud bod y ffactorau methodolegol a nodwyd uchod yn cyfrannu at y duedd tuag i fyny, ond nid oedd dim o'r rhanddeiliaid yn herio'r syniad bod o leiaf rywffaint o'r cynnydd yn 'real':

“Rydw i'n meddwl bod rhywfaint ohono [yn gynnydd go iawn]; wna'i ddim gwadu hynny. Rydw i'n meddwl bod cynnydd wedi bod, fel yn Lloegr. Rydyn ni wedi cael cynnydd yng Nghymru... ond rydw i'n meddwl bod ein cynnydd ni mor fawr am ein bod ni'n wynebu'r sefyllfa o'r diwedd. Rydyn ni'n cael gwybodaeth go iawn ac yn adnabod y bobl rydyn ni'n eu cyfrif ac yn ymgysylltu â nhw. Yn bendant, rydw i'n meddwl mai dyna pam mae'r nifer hwnnw wedi cynyddu cymaint, hefyd.”
(Hysbysydd allweddol o'r sector statudol, 2017)

Roedd llawer o'r bobl y cyfwelwyd â hwy'n dyfalu y gallai fod cysylltiad â chael gwared o angen blaenoriaethol 'awtomatig' i gyn-garcharorion yn y ddeddfwriaeth newydd.¹⁴⁶

“Rydw i'n meddwl eu bod nhw wedi cymryd statws

blaenoriaethol oddi ar bobl sy'n gadael carchar. Dydw i ddim o reidrydd yn meddwl bod pawb rydyn ni'n ei weld wedi gadael carchar, ond efallai am nad ydyn ni wedi derbyn dyletswydd statudol i bobl sy'n gadael carchar, fod hynny wedi effeithio ar nifer y lleoedd mewn hostelau efallai, lleoedd mynediad uniongyrchol efallai...”
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

“... mae pobl sy'n gadael carchar yn un maes lle rydw i'n dal i glywed am dipyn o broblemau, ac mae'n ymwneud â'r berthynas waith yn y bôn, a Llwybr Digartrefedd Llywodraeth Cymru¹⁴⁷ maen nhw wedi'i ddatblygu, ond sydd ddim yn cael ei ddilyn yn agos iawn... weithiau mae am nad yw asesiadau digartrefedd pobl yn cael eu gwneud tra eu bod nhw yn y carchar, neu weithiau maen nhw'n cael eu gwneud tra eu bod nhw yn y carchar, ond yna maen nhw'n mynd i'r awdurdod lleol ac mae'r awdurdod lleol yn eu rhoi nhw ar waelod y pentwr!”
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

Roedd eraill yn llunio darlun mwy bras, lle'r oedd diwygio lles a sancsiynau budd-daliadau yn benodol yn ffactorau pwysig:


“Rydw i'n meddwl bod yna

lawer o faterion y tu ôl i'r peth. Rydw i'n meddwl bod yna gynnydd yn anghenion cymhleth pobl sy'n cysgu ar y stryd... mae nifer mawr o bobl sy'n anodd iawn, iawn ymgysylltu â nhw a dod â nhw i mewn i wasanaethau llety... Mae ein heiriolwr yn treulio llawer gormod o amser yn ceisio cael pobl yn ôl i mewn i'r system budd-daliadau ar ôl i'w budd-daliadau gael eu hatal, naill ai am eu bod wedi colli neu fethu prawf meddygol neu am eu bod newydd gael sancsiwn i'r JSA am ryw reswm neu'i gilydd...”
(Hysbysydd allweddol o'r sector gwirfoddol, 2017)

O ran y data ystadegol a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2016, roedd cyfanswm y bobl a gyfrwyd yn cysgu ar y stryd ledled y wlad (313) yn cynnwys y 141 o unigolion a gyfrwyd yn y cyfrif ciplun a 172 o unigolion eraill a gyfrwyd yn yr ymarfer 'cyfrifiad' a gynhaliwyd dros y bythefnos gynt (gweler uchod). O gofio cyfyngiadau'r dull rhifo pobl sy'n cysgu ar y stryd yn Lloegr, yr ystadegyn ciplun ar gyfer Cymru sy'n addas i gymharu'r niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yn y ddwy wlad. Ar y sail hon, wedi'i fynegi i bob 10,000 o'r boblogaeth, roedd cyfradd cysgu ar y stryd yng Nghymru yn 2016 yn 0.45 (h.y. 141 o bobl yn cysgu ar y stryd o boblogaeth o 3.1 miliwn) ac roedd y ffigur cymaradwy ar gyfer Lloegr yn 0.75 (h.y. 4,134 o bobl yn cysgu ar y stryd o boblogaeth o 54.8 miliwn). Mewn geiriau eraill, mae hyn yn dangos bod lefel cysgu ar y stryd yng Nghymru yn 2016 tua 60% o'r lefel yn Lloegr.

147 Cafodd statws angen blaenoriaethol gadawyr carchar yn Neddf 2014 ei ddileu ar yr un pryd â chyflwyno'r 'Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel'. <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/national-pathway/?lang=en>

Ffigwr 4.1 Y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd ar lefel awdurdodau lleol



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru; ONS

Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Ac er bod y nifer mwyaf o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd yng nghyfnod arolwg Hydref 2016 wedi'i gofnodi yng Nghaerdydd (85), roedd y nifer uchaf o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd fel cyfran o'r boblogaeth – o gryn bellter – yn Wrecsam (gweler Ffigwr 4.1).

Ledled Cymru, roedd arolwg cysgu ar y stryd Llywodraeth Cymru yn rhifo 168 o leoedd gwely argyfwng; roedd dros hanner y rhain (100) yng Nghaerdydd a Cheredigion. Roedd tua 40 o'r gwelyau hyn yn wag ar noson y cyfrif – y rhan fwyaf o'r rhain mewn ardaloedd awdurdod lleol lle cofnodwyd y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd hefyd. Fel yr awgrymwyd gan Shelter Cymru, efallai y gellid esbonio'r gwrthdwyddiad ymddangosiadol hwn yn rhannol â'r ffaith bod rhai

pobl sy'n cysgu ar y stryd yn meddwl nad yw llety argyfwng yn ddiogel.¹⁴⁸ I eraill, gallai eu hamharodrwydd i gydymffurfio â rheolau'r sefydliad (e.e. dim alcohol) fod yn broblem. Serch hynny, er nad oedd y lleoedd hyn wedi'u llenwi, rhifwyd 141 o bobl yn cysgu ar y stryd ar y noson honno. Felly hyd yn oed ar y lefel fwyaf sylfaenol, roedd cyfanswm y 'diffyg gwelyau argyfwng' cenedlaethol ar adeg yr arolwg yn 101, ac roedd diffyg Caerdydd – 27 – yn gyfrifol am dros chwarter y diffyg cenedlaethol.

Wrth adlewyrchu ar yr heriau sy'n wynebu Caerdydd yn benodol, gwnaethpwyd y pwynt diddorol hwn gan hysbyswr allweddol o ardal drefol arall:

“Rydw i'n teimlo dros Gaerdydd ar adegau oherwydd maen nhw'n... ddinas fawr felly mae

llawer o sôn am gysgu ar y stryd yno, ond mae hynny'n wir am bob dinas fawr yn y Deyrnas Unedig. Dydy hynny ddim yn golygu y dylech chi anwybyddu'r peth, ond ddylech chi ddim cymharu Caerdydd â [ardal drefol lai]. Dylech chi eu cymharu nhw â Bryste neu ddinas arall o faint tebyg. Dydy'r ffin rhwng y ddwy wlad ddim yn stopio [digartrefedd]. Beth mae Glasgow yn ei wneud am y peth?...Sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd ar hyn? Yn affodus, rydyn ni'n edrych ar yr ystadegau o safbwynt Cymru; ddylai pethau ddim bod fel yna.”

(Hysbysydd allweddol statudol, 2017)

Mae consensws clir wedi'i sefydlu ar draws y sectorau statudol a gwirfoddol yng Nghymru bod cynnydd 'go iawn' wedi bod mewn cysgu ar y stryd yn ddiweddar, sy'n golygu bod hwn wedi dod yn fater gwleidyddol berthnasol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd disgwyl cyhoeddiad polisi'n fuan gan Lywodraeth Cymru, ac roedd disgwyl argymhellion gan Weithgor Cysgu ar y Stryd cenedlaethol yn ystod haf 2017.

4.3 Digartrefedd sengl

Fel yr eglurir yn fanwl yn Adran 4.4, mae fframwaith digartrefedd statudol diwygiedig wedi bod yn ei sefydlu ei hun yng Nghymru ers 2015 (gweler hefyd: Pennod 3). Un agwedd bwysig ar y drefn newydd hon yw'r ymdrech i wneud sefyllfaoedd aelwydydd digartref sy'n deuluoedd ac nad ydynt yn deuluoedd yn fwy cyfartal o ran eu hawl i gael cymorth â thai. Yn wahanol i ddeddfwriaeth yr Alban, fodd bynnag, nid yw hyn yn diweddu'r gwahaniaeth rhwng digartrefedd blaenoriaethol a di-flaenoriaethol o ran dyletswydd

ailgartrefu llawn awdurdod lleol. Am y rheswm hwn, mae sylw arbennig i 'ddigartrefedd sengl', yn hytrach na 'digartrefedd statudol', yn dal i fod yn ddadluel.

Efallai y bydd camau gweithredu awdurdodau lleol a gofnodir o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 nawr yn rhoi ystadegau ychydig mwy ystyrlon ynglŷn â'r newid i faint o ddigartrefedd sengl (h.y. di-flaenoriaeth) sydd nawr nag o dan y ddeddfwriaeth cyn 2015. Mae hyn yn dilyn gofyniad y gyfraith newydd:

- y dylai asesiad cychwynnol awdurdod lleol o rywun sy'n chwilio am gymorth â thai ganolbwyntio ar ei statws digartref/dan fygythiad o ddigartrefedd yn hytrach na'i statws 'angen blaenoriaethol', a
- bod gan bawb y bernir eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd neu'n wirioneddol ddigartref ac yn gymwys i gael cymorth – o unrhyw fath o aelwyd – hawl i gael cymorth i atal colli eu llety neu i liniaru'r broses.

Mae'r diagram llif sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn Ffigwr 4.3 yn dangos sut y bwriedir i'r darpariaethau hyn weithio.


Yn 2016/17, aseswyd 1,233 o aelwydydd fel rhai digartref nad ydynt yn flaenoriaethol o dan A73. Mae hyn yn golygu ymgeiswyr yr ystyrir eu bod yn ddigartref, ond bod ymdrechion i ddatrys eu problemau tai ('rhyddhau o ddigartrefedd') wedi bod yn aflwyddiannus. Roedd y grŵp hwn ychydig dros hanner nifer yr aelwydydd digartref blaenoriaethol A73 yn 2016/17; roedd cyfanswm y categori hwnnw (gan gynnwys achosion bwriadol ddigartref) yn 2,202. Yn bwysicach, fodd bynnag – fel y mae Ffigwr 4.2 yn ei ddangos, mae cymharu hyn â'r ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer 2015/16 yn awgrymu – yn wahanol i'r niferoedd digartref blaenoriaethol – bod nifer yr achosion nad ydynt yn flaenoriaethol

148 Bibbings, J. (2017) 'Why is Rough Sleeping on the Rise in Wales?' *Blog Shelter Cymru*, 1af Chwefror: <https://sheltercymru.org.uk/why-is-rough-sleeping-on-the-rise-in-wales/>

wedi lleihau'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf. Er bod y cyfanswm digartrefedd blaenoriaethol 20% yn uwch yn 2016/17 nag yn 2015/16 (2,202 o gymharu â 1,833)¹⁴⁹, lleihaodd y cohort nad ydynt yn flaenoriaeth 8% (1,233 o gymharu â 1,344).

O ystyried yr amodau sy'n gysylltiedig â'r data sylfaenol, dylid bod yn bwyllog wrth ddarllen yr arsylwad uchod. Un ffactor i'w gofio yw, gan fod deddfwriaeth newydd wedi'i sefydlu yn ystod 2015/16, y gallai niferoedd mwy o aelwydydd digartref sengl (nad ydynt yn flaenoriaeth) fod wedi ceisio cymorth gan awdurdod lleol yn ail flwyddyn y drefn newydd, wrth iddynt ddod i wybod mwy am rinweddau'r drefn newydd.

Ffigwr 4.2 Aseidiadau digartrefedd blaenoriaethol a heb flaenoriaeth o dan A73, 2015/16 a 2016/17



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Sylwer: Mae'r niferoedd digartref blaenoriaethol yn cynnwys achosion 'digartrefedd bwriadol'.

149 Sylwer bod y ffigurau hyn yn cynnwys achosion digartrefedd bwriadol (273 yn 2015/16 a 126 yn 2016/17)

4.4 Digartrefedd statudol

Mae'r adran hon yn galw'n bennaf ar yr 'ystadegau digartrefedd swyddogol' a gesglir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n deillio o ystadegau awdurdodau lleol. Gan eu bod wedi'u halinio â'r drefn ddiwygiedig ar gyfer digartrefedd statudol a gyflwynwyd yn 2015 (gweler Pennod 3), mae strwythur yr ystadegau hyn wedi newid yn radical o dan y ddeddfwriaeth newydd. Fel y trafodir yn fanylach isod, mae hyn wedi cael effaith fawr ar eu cymaradwyedd ag ystadegau sy'n ymwneud â'r cyfnod cyn 2015. Felly, mae wedi effeithio ar y cwmpas i ddadansoddi cyfres amser.

Hefyd, o ystyried bod y ddeddfwriaeth newydd yn dal i gael ei sefydlu yn ystod 2015/16, mae angen amodi cywirdeb y data digartrefedd statudol ar gyfer y flwyddyn honno. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod 'yn ystod dau chwarter cyntaf 2015-16 roedd anghysondebau...yn y ffordd y cofnodwyd canlyniadau'.¹⁵⁰ Er gwaethaf ymdrechion i gywiro'r problemau hyn, bydd y materion hyn wedi effeithio ar ddata'r flwyddyn gyfan.

Felly, er bod yr ystadegau a gyhoeddwyd yn dangos bod cyfanswm yr aelwydydd yr ystyrir eu bod yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol 29% yn fwy yn 2016/17 nag yn 2015/16 (2,076 o gymharu â 1,611) ni ddylid rhoi gormod o bwys i'r arsylwad hwn. Yn yr un modd, er bod y niferoedd y cofnododd awdurdodau lleol eu bod 'dan fygythiad o ddigartrefedd' ac yn ddigartrefedd mewn gwirionedd yn 2016/17 yn llawer uwch nag yn y flwyddyn gynt (19% a 58% yn uwch yn ôl eu trefn) dylid trin y cymariaethau hyn yn ofalus.¹⁵¹

¹⁵⁰ Ibid

¹⁵¹ Efallai y byddai'n fwy ystyrion cymharu'r niferoedd yn C4 2016/17 (y data diweddaraf sydd ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad) â'r rhai yn yr un chwarter yn 2015/16 (gellid dadlau bod hyn yn ddigon hir ar ôl cyflwyno'r drefn newydd ym mis Ebrill 2015 i'r ystadegau fod yn fwy dibynadwy na niferoedd y flwyddyn lawn). Er bod aelwydydd y cofnodwyd eu bod dan fygythiad o ddigartrefedd yn C4 2016/17 o dan A66 (3,768) i lawr 3% ers C4 2015/16 (3,870), roedd y rhai y cofnodwyd eu bod yn wirioneddol ddigartref (A73) i fyny 22% (2,520 yn C4 2015/16 a 3,084 yn C4 2016/17). Ar yr un pryd, roedd y rhai y cofnodwyd eu bod yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol o dan A75 i fyny 59% (o 405 i 645).

Mae'r adran hon hefyd yn cyfeirio at arolwg ar-lein yr awduron o awdurdodau lleol a gynhaliwyd ym mis Ebrill/Mai 2017. Cafodd hwn ymatebion gan 19 o'r 22 cyngor yng Nghymru (86%). Mae esboniad llawnach o fethodoleg yr arolwg yn Atodiad 2.


Cyn edrych yn fanwl ar y data, mae'r adran yn dechrau drwy grynhoi'r fframwaith cyfreithiol sy'n pennu dyletswyddau digartrefedd awdurdodau lleol o dan y drefn newydd. Mae angen rhyw ddealltwriaeth o strwythur hwn er mwyn dehongli'r ystadegau a gynhrychir ganddo.

Y fframwaith digartrefedd statudol newydd a'r drefn fonitro gysylltiedig

Mae Ffigwr 4.3 yn dangos y prosesau a'r penderfyniadau sy'n rhan o'r drefn newydd hon. Mae'r rhain yn arwain at system monitro ystadegol newydd, ac yn cyfyngu ar gymaradwyedd ystadegau digartrefedd ers 2015 â ffigurau cynharach.

Ffigwr 4.3 Prosesau asesu digartrefedd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014

Proses deddfwriaeth digartrefedd Cymru, gan gynnwys data canlyniadau camau Un (Help i atal), Dau (Help i sicrhau) a Thri (Digartref–asesiad A75), 2016–17



* Mae 'eraill' yn cynnwys gwrthod cymorth, diffyg cydymffurfio a rhesymau eraill.

Oherwydd natur gyfunol y data, mae llinellau toredig yn nodi y bu'n rhaid ffurfio casgliad am drosglwyddo achosion

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Mae'r fframwaith monitro newydd yn cyd-fynd â'r dyletswyddau newydd a roddwyd i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Mae'r rhain yn dod o dan y cymalau canlynol yn y Ddeddf:

- Adran 66 sy'n rhagnodi dyletswyddau 'helpu i atal' mewn perthynas ag ymgeiswyr y canfyddir eu bod o dan fygythiad o ddigartrefedd
- Adran 73 sy'n rhagnodi dyletswyddau 'helpu i sicrhau llety' ar gyfer pobl y canfyddir eu bod yn ddigartref (gan gynnwys mewn achosion lle bu ymgais aflwyddiannus i gynorthwyo ymgeisydd o dan fygythiad o ddigartrefedd); ac
- Adran 75 sy'n rhagnodi'r 'ddyletswydd i sicrhau llety' ar gyfer ymgeiswyr sydd, yn ôl asesiad, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, ac y bu ymdrechion i wella eu sefyllfa dai'n aflwyddiannus.


O ran dehongli'r data monitro a geir, mae'r ffaith y gellir cofnodi ymgeisydd o dan fwy nag un o'r prosesau hyn yn peri cymhlethdod. Yn benodol, gall aelwyd a gofnodwyd yn wreiddiol fel un 'dan fygythiad o ddigartrefedd' (ac sydd felly â hawl i gael cymorth o dan Adran 66) yna ailymddangos fel un sy'n gymwys i gael cymorth o dan Adran 73 – lle bu ymdrechion cynharach i atal digartrefedd gwirioneddol yn aflwyddiannus. Y broblem o safbwynt dadansoddi yw nad yw'r rhai y nodir eu bod yn 'ddigartref' o dan Adran 73 yn cael eu dadgyfuno o ran eu dynodiad gwreiddiol ar ôl y penderfyniad am 'gymhwysedd' – gweler Ffigwr 4.3. Mewn geiriau eraill, ni ellir gwybod pa gyfran o achosion Adran 73 sydd wedi deillio'n uniongyrchol o benderfyniad eu bod yn wirioneddol ddigartref ar adeg y cyswllt cyntaf, yn hytrach na'u bod o dan fygythiad o ddigartrefedd i ddechrau, ond bod ymdrechion i atal digartrefedd gwirioneddol wedi bod yn aflwyddiannus.

Lefel gyffredinol 'digartrefedd statudol'

Y pwynt ehangach sy'n dod i'r amlwg yn y disgrifiad uchod yw bod y fframwaith digartrefedd statudol newydd wedi creu cyfres o gamau y gall (o leiaf rai) aelwydydd eu dilyn, sy'n golygu ei bod yn bosibl i un aelwyd gael ei chyfrif hyd at dair gwaith os yw'n cael cymorth o dan y tri chymal deddfwriaethol dan sylw. O safbwynt dadansoddi, un broblem sy'n codi o gynllun y fframwaith monitro hwn yw bod hyn yn creu cwmpas i 'gyfrif dwbl' sy'n golygu na all y system gynhyrchu ystadegau am 'gyfanswm y galw a fynegwyd'. Mae hyn yn golygu nad oes mesur uniongyrchol gywerth â'r mesur 'cyfanswm penderfyniadau digartrefedd statudol' a ddefnyddiwyd yn draddodiadol fel dirprwy ar gyfer 'ceisiadau digartrefedd' ac, yn ei dro, fel dirprwy ar gyfer cyfanswm nifer yr 'achosion newydd o ddigartrefedd'.

Felly, mae'r dystiolaeth orau sydd ar gael am y newidiadau diweddar i lefel gyffredinol digartrefedd yn dod o'n harolwg ar-lein o awdurdodau lleol Cymru. Fel y mae Ffigwr 4.4 yn ei ddangos, roedd y mwyafrif llethol o'r atebwyr yn dweud bod 'llif cyffredinol y bobl sy'n ceisio cymorth â digartrefedd gan [fy] awdurdod lleol' wedi cynyddu dros y ddwy flynedd hyd at fis Mai 2017. Dim ond mewn dau o'r 19 awdurdod a atebodd y teimlwyd bod digartrefedd wedi aros yn 'rhesymol gyson' dros y cyfnod hwn, ac nid oedd y galw wedi lleihau mewn dim ohonynt. Ar y llaw arall, yn y rhan fwyaf o'r awdurdodau (10 o 19) roedd digartrefedd wedi 'cynyddu'n sylweddol' yn ystod y cyfnod hwn.

Ffigwr 4.4 Canfyddiadau awdurdodau lleol o'r newid yn y galw cyffredinol o ran digartrefedd 2015–2017 - dadansoddiad yn ôl math o ALL



Ffynhonnell: Arolwg ar-lein awdurdodau lleol

Wrth awgrymu'r rhesymau tebygol dros gynydd yn 'nifer y defnyddwyr gwasanaeth', nododd rhai awdurdodau eu cyfrifoldebau newydd, ehangach a'r 'Mwy o gyhoeddusrwydd ynglŷn â phwy sy'n gymwys i gael y gwasanaeth mae awdurdodau lleol nawr yn ei ddarparu' (Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017). Roedd rhai'n awgrymu y gallai'r 'niferoedd uwch' hyn, yn rhannol, fod yn lluniad gweinyddol oherwydd y cynnydd yn eu dyletswyddau:

"Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu ein bod ni'n atal digartrefedd ac mae'n rhaid i ni ystyried pob ymholiad fel achos newydd posibl."
(Atebydd o awdurdod lleol yn y Cymoedd, 2017)

Ond gan fwyaf, roeddent yn disgrifio cynnydd 'go iawn' yn y niferoedd o ganlyniad i'r ffaith bod mwy o bobl senl yn benodol yn ceisio cymorth, gan wybod bod yr ymagwedd newydd 'dall i angen blaenoriaethol' tuag at atal digartrefedd a rhyddhau

digartrefedd yn cynnig llawer gwell siawns o gymorth ystyrlon nag a oedd yn bodoli cynt:

"Mae'r lliw o bobl sy'n ceisio cymorth wedi cynyddu, yn ôl pob tebyg o ganlyniad i gyflwyno'r ddyletswydd i atal (A66) yn ogystal â chyflwyno'r cymorth estynedig i achosion digartrefedd nad ydynt yn flaenoriaeth o dan A73 a oedd yn gyfyngedig o dan y Ddeddf flaenorol."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)

Wrth esbonio'r cynnydd yn y niferoedd, roedd rhai awdurdodau lleol hefyd yn pwysleisio barn bod sbardunau economaidd-gymdeithasol sylfaenol yn arwyddocaol, ac roedd rhai'n tynnu sylw at yr effaith anghymesur ar bobl senl (iau) (gweler uchod a Phennod 3):

"Mae diwygio lles wedi cael effaith ar ein cleientiaid gan arwain at fwy o ddigartrefedd; mae niferoedd y cleientiaid digartref sy'n eu cyflwyno eu hunain wedi cynyddu oherwydd bod landlordiaid wedi gadael y farchnad."
(Atebydd o awdurdod lleol trefol, 2017)

"... mae'r hinsawdd tai yn lleol yn mynd yn fwy heriol. Pobl sydd mewn perygl o ddigartrefedd ac eisiau symud ... gallai'r rhain [o'r blaen] fod wedi gallu gwneud hynny heb ymyriad gan y cyngor... [Nawr] oherwydd bod prisiau'n codi a mwy o alw am PRS, [maen nhw] angen cymorth gan [y] Cyngor naill ai am eu bod nhw ... yn methu â sicrhau llety eu hunain, neu bod angen cymorth ariannol arny'n nhw â blaendaliadau rhent a rhent o flaen llaw ac ati."
(Atebydd o awdurdod lleol gwledig, 2017)


Aelwydydd digartref y mae'r ddyletswydd ailgartrefu lawn yn ddyledus iddynt
Yn hanesyddol, y mesur a ddyfynnwyd amlaf ar gyfer 'digartrefedd statudol' yw nifer yr aelwydydd y mae awdurdodau lleol yn derbyn eu bod yn 'anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol' o dan Adran 193 y ddeddfwriaeth cyn 2015. O dan y drefn honno, y rhain oedd y 'derbyniadau digartrefedd' yr oedd gan awdurdodau lleol 'ddyletswydd ailgartrefu lawn' iddynt. O dan y fframwaith newydd, y peth agosaf

at fod yn gywerth â 'derbyniad digartrefedd' A193 yw lle bernir bod ymgeisydd yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol o dan Adran 75 (gweler Ffigwr 4.3). Fodd bynnag, ar gyfer unrhyw lefel o alw sylfaenol am ddigartrefedd, mae nifer yr aelwydydd a gaiff eu 'derbyn' o dan A75 yn debygol o fod yn llawer is na'r nifer a gafodd eu 'derbyn' o dan A193. Mae hyn oherwydd, fel yr esboniodd Llywodraeth Cymru, 'o dan y ddeddfwriaeth newydd, mewn rhai achosion, efallai y bydd aelwydydd sy'n bodloni'r un meini prawf wedi'u rhyddhau o ddigartrefedd drwy ymyriad cynharach (Adran 73)'.¹⁵²

Diffinnir digartrefedd statudol fel aelwydydd digartref sydd wedi cael cymorth gan awdurdodau lleol o dan eu dyletswydd gyfreithiol lawn a therfynol, ac mae wedi lleihau'n sylweddol o dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn 2015/16, dim ond 1,611 a aseswyd o dan A75 fel bod yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol, er bod y nifer hwn wedi codi ychydig i 2,076 yn 2016/17. Felly, yn y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd 'digartrefedd statudol' wedi'i fesur yn y modd hwn yn gyfrifol am 32-40% o'r 5,107 o dderbyniadau digartrefedd yn 2014/15 – gweler Ffigwr 4.5. Oherwydd y newid sylfaenol i'r drefn gyfreithiol, ni ellir trin hyn fel unrhyw fath o ddangosydd o newid i'r galw sylfaenol. Ei brif arwyddocâd yw fel ffordd o fesur i ba raddau y mae'r system newydd yn galluogi awdurdodau lleol i atal digartrefedd neu ryddhau pobl o ddigartrefedd cyn bod angen asesiad ffurfiol o statws angen blaenoriaethol yr ymgeisydd.

¹⁵² Llywodraeth Cymru (2016) *Digartrefedd yng Nghymru, 2015-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/homelessness/?lang=en>

Ffigwr 4.5 Digartrefedd statudol 2002/03-2016/17



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Sylwer: Gallai fod y ffigur ar gyfer 2015/16 yn rhy isel (gweler y testun)

Yr hyn sy'n achosi digartrefedd

Nid yw'r data am ddigartrefedd statudol yn rhoi un 'prif reswm dros ddigartrefedd' clir (gweler Ffigwr 4.6). Ymysg pobl sydd dan fygythiad o ddigartrefedd (A66), yr un categori mwyaf yw 'colli llety rhentu neu lety clwm arall'. Roedd y cohort hwn yn gyfrifol am tua 34% o faich achosion 2016/17. Fodd bynnag, roedd yr aelwydydd hyn yn gyfran lawr llai o'r rhai yr ystyriwyd eu bod yn ddigartref a/neu yn ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol (2%).


Er nad yw'r ffigurau a roddwyd uchod yn gwbl gymaradwy ag ystadegau 'rheswm dros ddigartrefedd' Lloegr, byddai'n ymddangos bod colli tenantiaeth breifat yn ffynhonnell digartrefedd lai pwysig yng Nghymru. Ym mlwyddyn galendr 2016, er

enghraifft, roedd 32% o'r derbyniadau digartrefedd yn Lloegr yn deillio o golli Tenantiaeth Fyrddaliol Sigr, ac roedd 7% arall oherwydd 'colli llety rhentu neu lety clwm arall'.^{153 154}

I ganolbwyntio eto ar ffigurau Cymru, gallai'r gyfran lawr is o gyn denantiaid preifat ymysg derbyniadau digartrefedd nag ymysg y bobl sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd awgrymu cyfradd lwyddiant gymharol uchel i weithgareddau atal sydd wedi'u targedu at bobl sy'n wynebu risg o golli tenantiaeth bresennol. Ar y llaw arall, roedd digartrefedd wedi'i achosi gan berthynas yn chwlu'n llawer mwy cyffredin ymysg pobl yr ystyriwyd eu bod yn ddigartref neu'n ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol nag ymysg pobl sy'n wynebu risg o ddigartrefedd. Mae hyn yn ymddangos

153 Er, mae'n bosibl mai cyn rentwyr cymdeithasol yw rhyw gyfran o'r categori olaf hwn.

154 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2017) 'Statutory Homelessness and Prevention and Relief live tables: Table 774 – Reason for Loss of Last Settled Home' <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-homelessness>

Ffigwr 4.6 Rhesymau dros ddigartrefedd, baich achosion 2016/17¹⁵⁵

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

yn gyson â'r disgwyliad bod ymdrechion i atal digartrefedd drwy gynnis cymorth â thai yn llai tebygol o fod yn effeithiol ar gyfer y grŵp hwn na grwpiau eraill.

Atal digartrefedd a rhyddhau rhag digartrefedd


I asesu pa mor effeithiol yw ymyriad gan awdurdod lleol o ran helpu aelwydydd i osgoi digartrefedd neu ddatrys digartrefedd, mae'n ddefnyddiol dadansoddi canlyniadau camau a gymerwyd o dan bob un pŵer cyfreithiol fel yr amlinellir yn Ffigwr 4.3. Fel y mae Ffigwr 4.7(a) yn ei ddangos, roedd bron ddau draean o'r rhai y cofnodwyd eu bod yn ymgeiswyr o dan A62 wedi'u hasesu fel bod o dan fygythiad o ddigartrefedd (ar wahân i'r rhai y barnwyd eu bod

yn wirioneddol ddigartref ar adeg ymgeisio). O'r nifer hwn (9,210), cofnododd awdurdodau lleol eu bod wedi llwyddo i gynorthwyo bron ddau draean (62%) i osgoi digartrefedd (gweler Ffigwr 4.7(b)).

155 Mae'r categori 'arall' a ddangosir yn y graff hwn yn cyfuno nifer o gategoriâu, a phob un ohonynt yn unigol yn gyfrifol am niferoedd cymharol fach o achosion: ôl-ddyledion rhent, gadael sefydliad arall neu ofal; cartref presennol ddim yn fforddiadwy; adfeddiannu morgais; trais neu aflonyddu - rheswm arall; gadael carchar; trais neu aflonyddu - rhesymau penodol; arall (gan gynnwys digartref mewn argyfwng).

Ffigwr 4.7 Ymgeiswyr am gymorth (A62), 2016/17 – canlyniadau asesu/cynorthwyo

(a) Statws digartrefedd a chymhwysedd (b) Cymwys a dan fygythiad o ddigartrefedd (9,210)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru. Sylwer: Mae hyn yn eithrio'r rhai y barnwyd eu bod yn 'wirioneddol ddigartref' ar adeg ymgeisio.


Wrth edrych eto ar Ffigwr 4.3, gallwn weld hefyd bod y bobl yr asesir eu bod yn wirioneddol ddigartref yn cynnwys dau gohort; yn gyntaf, y rhai y dynodwyd yn wreiddiol eu bod 'o dan fygythiad o ddigartrefedd' ond lle bu'n amhosibl atal colli'r llety, ac yn ail, y rhai y barnwyd eu bod yn wirioneddol ddigartref ar adeg eu cais gwreiddiol. Mae'r grŵp cyfunol hwn – roedd 10,884 ohonynt yn 2016/17 – yn cael cymorth o dan A73. Fel y mae Ffigwr 4.8 yn ei ddangos, llwyddodd awdurdodau lleol i ryddhau 41% o'r cohort hwn o ddigartrefedd yn 2016/17. Lle bu hyn yn amhosibl, cynhaliwyd asesiad cyfreithiol o

statws y bobl dan sylw o ran angen blaenoriaethol a bwriadoldeb (gweler Ffigwr 4.3).

Pa fath o gamau gweithredu gan awdurdodau lleol sy'n helpu ymgeiswyr i osgoi neu ddatrys digartrefedd cyn y gwneir penderfyniad am eu statws angen blaenoriaethol? Fel y mae Ffigwr 4.9 yn ei ddangos, roedd y rhan fwyaf o'r 10,218 o gamau o'r math hwn a gymerwyd yn 2016/17 yn golygu helpu ymgeisydd i ddod o hyd i gartref arall, yn hytrach na chynorthwyo pobl o dan fygythiad o ddigartrefedd i gadw eu llety presennol¹⁵⁶


¹⁵⁶ Sylwer bod 'atal digartrefedd' yn cyfeirio at bobl a aseswyd o dan A62 fel eu bod 'dan fygythiad o ddigartrefedd', ac mai rhyddhau yw darparu cymorth o dan A73 i rywun sydd eisoes yn ddigartref mewn gwirionedd (gweler Ffigwr 4.3).

Ffigwr 4.8 Ymgeiswyr y barnwyd eu bod yn ddigartref yn 2016/17 (10,884) – canlyniadau gweithredu o dan A73





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Ffigwr 4.9 Camau gweithredu llwyddiannus awdurdodau lleol i atal a rhyddhau digartrefedd yn 2016/17 – A66 ac A73 (10,218)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigwr 4.10 Natur camau gweithredu awdurdodau lleol i alluogi ymgeiswyr dan fygythiad o ddigartrefedd i aros yn eu llety presennol, 2016/17 (1,338)





Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Defnyddiodd awdurdodau lleol amryw o dulliau i gynorthwyo ymgeiswyr o dan fygythiad o ddigartrefedd i gadw eu llety presennol. Fel y mae Ffigwr 4.10 yn ei ddangos, ynghyd â setlo ôl-ddyledion rhent, negodi neu eiriolaeth gyfreithiol oedd y dulliau a ddefnyddiwyd amlaf.

Ymysg y nifer llawer mwy o gamau gweithredu a oedd yn cynnwys cymorth i ganfod llety newydd, roedd

Ffigwr 4.11 Natur camau gweithredu awdurdodau lleol i gynorthwyo ymgeiswyr i ganfod llety arall, 2016/17 (8,880)



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

y categorïau mwyaf yn 2016/17 (yn gyfrifol am 38% o'r achosion yr un) yn cynnwys hwyluso mynediad at dai rhentu preifat, neu rentu cymdeithasol – gweler Ffigwr 4.11. Mewn tua 13% o achosion, daeth y llety newydd ar ffurf tai â chymorth.

Ymyriadau aflwyddiannus

Mae hefyd yn bwysig cydnabod bod llawer o ymgeiswyr digartref y bydd unrhyw gymorth a gynigir iddynt gan awdurdod lleol yn aflwyddiannus, neu sydd am resymau eraill yn 'gadael' y system digartrefedd newydd heb ddatrys y mater yn foddhaol (neu o leiaf heb ddatrysiaid hysbys).

Wrth edrych yn ôl ar Ffigwr 4.3, mae'r grŵp allweddol yma'n cynnwys aelwydydd y barnwyd eu bod yn 'ddigartref' o dan A73 ond sydd â phroblemau 'heb eu datrys yn llwyddiannus' ac a ystyrir yna eu bod yn achosion 'nad ydynt yn flaenoriaeth' nad ydynt yn gymwys i gael y 'ddyletswydd ailgartrefu lawn' o dan A75. Yn 2016/17 roedd 1,233 yn y grŵp hwn – tua 36% o'r holl aelwydydd digartref y bu ymdrechion rhyddhau o ddigartrefedd A73 yn aflwyddiannus ar eu cyfer (roedd y 64% arall yn cynnwys aelwydydd bwriadol ddigartref (126) a derbyniadau digartrefedd (2,076)). O gymharu â 2015/16, roedd nifer yr achosion 'methu ag atal/rhyddhau' hyn ychydig yn is – gweler Ffigwr 4.2.


Hyd yn oed os asesir bod aelwyd yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol o dan A75 y fframwaith newydd ('derbynnir eu bod yn ddigartref') nid yw hyn yn golygu o reidrwyd y caiff eu hachos ei 'ryddhau mewn modd cadarnhaol' – h.y. darparu tenantiaeth hirdymor fel ffordd o 'gyflawni dyletswydd' awdurdod lleol (eto gweler Ffigwr 4.3). Yn 2016/17 roedd 402 o aelwydydd a dderbyniwyd ac na chawsant y canlyniad hwn – 19% o'r 2,076 o dderbyniadau. Gallai hyn ddigwydd os yw aelwyd yn datrys eu sefyllfa ddigartrefedd eu hunain tra eu bod yn cael eu hasesu, a'u bod felly i bob diben yn tynnu eu cais yn ôl. I eraill, gallai ddigwydd ar ôl iddynt wrthod derbyn 'cynnig terfynol' awdurdod lleol o lety parhaol – efallai am eu bod yn anghytuno â'r awdurdod bod y cartref dan sylw wir yn eiddo 'addas'.

Yn olaf, caiff achosion niferoedd sylweddol o aelwydydd y cofnodir

eu bod yn ceisio cymorth o dan A66 ac A73 (eto gweler Ffigwr 4.3) eu cau ar y sail bod cymorth wedi'i wrthod, eu bod wedi methu â chydymffurfio neu fod eu cais wedi'i ddiweddu am 'resymau eraill'. Yn 2016/17, er enghraifft, o 9,210 o achosion y barnwyd eu bod yn 'gymwys a dan fygythiad o ddigartrefedd' o dan Adran 66, cafodd 1,872 (20%) eu cofnodi fel hyn. Hefyd, cafodd achosion 2,385 o 10,884 o aelwydydd y barnwyd eu bod yn 'gymwys a digartref' o dan A73 (22%) eu diweddu ar y sail hon. At ei gilydd, felly, mae niferoedd sylweddol o aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth, yn y pen draw, yn 'syrthio allan o'r system' yn y modd hwn. Yn 2016/17, roedd cyfanswm o 4,659 o'r rhain (402+1,872+2,385 – gweler uchod).

Ceir pryder penodol am achosion sy'n syrthio allan o'r system yn benodol oherwydd 'diffyg cydymffurfio', o gofio bod hyn yn bwynt allweddol newydd yn neddfwriaeth Cymru a'i fod, ar ffurf wahanol, hefyd wedi'i gynnwys yn Neddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn Lloegr. Yn 2016/17 rhyddhawyd y ddyletswydd dros 5% o achosion 'cymwys a dan fygythiad o ddigartrefedd' o dan Adran 66 (cyfanswm o 486) a 6% o achosion 'cymwys a digartref' o dan Adran 73 (cyfanswm o 615) o ganlyniad i 'ddiffyg cydymffurfiaid'. Mae hyn yn golygu, yn ail flwyddyn y drefn ddeddfwriaethol newydd, bod niferoedd yr 'achosion wedi'u cau oherwydd diffyg cydymffurfio' wedi lleihau o gymharu â 2015/16 – o 8% i 5% o ran achosion Adran 66 ac o 11% i 6% o ran achosion Adran 73. Beth bynnag, nid yw'r niferoedd hyn yn ddibwys a bydd angen eu gwyllo'n ofalus dros y blynyddoedd nesaf i asesu effaith y darpariaethau newydd hyn a luniwyd i hwyluso cydbwysedd priodol rhwng hawliau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol ac ymgeiswyr digartref.

Wrth fonitro yn y dyfodol, bydd yn berthnasol cadw diddordeb yn y newid i faint (absoliwt a chymharol) pob un o'r grwpiau uchod sy'n cael 'ymyriadau aflwyddiannus'.

Ffigwr 4.12 Lleoliadau mewn llety dros dro oherwydd digartrefedd, 2009/10-2016/17

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Defnyddio llety dros dro

Fel y mae Ffigwr 4.12 yn ei ddangos, mae lleoliadau mewn llety dros dro gan awdurdodau lleol Cymru wedi bod yn eithaf cyson dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'r duedd raddol tuag i lawr a welwyd yn y cyfnod 2012-2015 wedi'i gwrthdroi dros y cyfnod 12 mis diweddaraf, a chynyddodd cyfanswm y lleoliadau yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2017 o 1,878 i 2,013 – cynnydd 7%. O ystyried y disgwyliad y byddai pwyslais cryfach ar atal ymlaen llaw o dan y drefn statudol newydd wedi arwain at lai o 'fewnlifiad', mae unrhyw gynnydd mewn lleoliadau mewn llety dros dro ychydig yn groes i'r hyn a ddisgwyliwyd. Nid yw'r rhesymau dros hyn yn amlwg ar unwaith, ond gallent adlewyrchu'r cynnydd mewn pwysau strwythurol a'r cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth a nodir uchod.

4.5 Digartrefedd Cudd

Efallai y bydd pobl mewn sefyllfa debyg o ran tai i bobl sy'n ymgeisio i awdurdodau lleol fel eu bod yn ddigartref, hynny yw, heb eu llety diogel ar wahân eu hunain, heb fod wedi ymgeisio neu gofrestru'n ffurfiol ag awdurdod lleol neu ymgeisio i asiantaethau digartrefedd eraill. Yn aml, gelwir y bobl hyn 'y digartref cudd' (gweler Pennod 2). Mae nifer o arolygon aelwydydd graddfa fawr wedi ein galluogi i fesur rhai categorïau penodol o ddigartrefedd cudd: *aelwydydd cudd*; aelwydydd sy'n rhannu llety; ac aelwydydd gorlawn. Fodd bynnag, mae llai o arolygon ar gael ar gyfer Cymru sy'n gofyn cwestiynau priodol dros amser nag ar gyfer Lloegr a'r Alban.

Aelwydydd cudd

Aelwydydd cudd yw unedau teulu neu oedolion sengl sy'n byw o fewn aelwydydd eraill ac y gellir ystyried y gallent ddymuno ffurfio aelwydydd ar wahân pe baent yn cael cyfle priodol. Gallai enghreifftiau gynnwys: cwpl sy'n briod neu'n byw gyda'i gilydd gyda rhieni un o'r cwpl; rhiant sengl â phlentyn/plant sy'n byw gyda'i rhiant/rhieni; oedolyn ifanc sy'n byw gyda rhieni neu berthynas arall; oedolyn ifanc sy'n rhannu fflat neu dŷ ag oedolion eraill sydd ddim yn perthyn; oedolyn sy'n byw'n anffurfiol, a dros dro, yng nghartref rhywun arall.

Mae'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS) yn gofyn cwestiynau am gyfansoddiad yr aelwyd, sy'n ein galluogi i ganfod presenoldeb 'unedau teulu ychwanegol'. Dim ond brasman o'r diffiniad delfrydol o 'aelwydydd cudd', a geir yn yr arolwg hwn, oherwydd nid yw o reidrwydd yn gwahaniaethu rhwng pobl y byddai'n well ganddynt barhau i fyw gydag eraill ar hyn o bryd a phobl y byddai'n well ganddynt fyw ar wahân. Hefyd, efallai na ellir dibynnu arno i gasglu gwybodaeth am bob aelwyd gudd. Er enghraifft, efallai na fydd pobl sy'n aros yn anffurfiol a dros dro gyda phobl eraill yn ymateb i arolygon unigol megis LFS.

Wedi nodi'r cafeatau hyn, yng Nghymru yn 2016 roedd tua 79,000 o aelwydydd (6.0%) yn cynnwys unedau teulu ychwanegol (Ffigyrau 4.13 a 4.14). O'r rhain, roedd 12,800 (1.0%) yn achosion o gyplau neu deuluoedd rhiant sengl yn byw gydag aelwydydd eraill ('teuluoedd cudd'), ac roedd 66,200 (5.0%) yn achosion o unedau un unigolyn, heb gynnwys plant annibynnol y prif ddeiliad tŷ ('senglau heb fod yn perthyn').¹⁵⁷

Hefyd, nododd yr LFS fod 175,000 o aelwydydd eraill yng Nghymru (13.4%) yn cynnwys plant annibynnol nad oeddent yn rhieni sengl nac yn gyplau.


Dylid ystyried y grŵp hwn hefyd mewn diffiniad ehangach o aelwydydd cudd posibl.

Mae Ffigwr 4.13, yn ogystal â Ffigwr 4.14, yn dangos tueddiadau'r dangosyddion hyn dros amser. Mae mynychder aelwydydd cudd posibl wedi bod yn gymharol sefydlog dros y tymor canolig yng Nghymru; bu rhywfaint o ostyngiad rhwng 1997 a 2010, cyn cynnydd cyflym yn 2011-12 a chynnydd bach arall yn 2014 (y cynnydd yn y categori plant annibynnol a oedd yn gyfrifol am hwn), ac yna bu gostyngiad erbyn 2016. Mae'r tueddiadau yng Nghymru'n eithaf tebyg i'r rhai yn Lloegr a'r Deyrnas Unedig gyfan, ond ni rannodd Cymru'r cynnydd cyffredinol rhwng 2002 a 2008, a hefyd gostyngodd Cymru rhwng 2014 a 2016 ond ni fu gostyngiad sylweddol yn y Deyrnas Unedig. Yr effaith, dros y cyfnod cyfan, yw bod Cymru wedi symud o fod â lefel debyg o aelwydydd cudd posibl yn 1997 i weddill y Deyrnas Unedig i lefel is yng Nghymru yn 2016, tra bo lefel gyffredinol y Deyrnas Unedig yn uwch.

Mae 222,500 o blant annibynnol yn byw mewn 175,000 o aelwydydd gyda'u rhieni, ac mae 105,000 o'r rhain dros 25 oed. Mae 95,000 o bobl sengl sydd ddim yn berthynas yn byw mewn 66,200 o aelwydydd eraill, a thua 25,000 o unigolion yn byw mewn 12,800 o aelwydydd pobl eraill fel unedau teulu cudd sy'n gyplau neu'n rhieni sengl. Mae hyn yn golygu bod tua 345,000 o unigolion yng Nghymru yn un o'r categorïau hyn o aelwyd gudd bosibl.


¹⁵⁷ Dylid nodi bod y rhan hon o'r dadansoddiad yn fras iawn, ac yn cynnwys grwpiau megis myfyrwyr – yn nes ymlaen, byddwn yn ystyried tystiolaeth ynglŷn â sut y mae pobl yn ystyried eu trefniadau byw presennol.

Ffigwr 4.13 Aelwydydd Posibl Cudd yng Nghymru 1997–2016



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu – hyd at C4 2016

Ffigwr 4.14 Aelwydydd Posibl Cudd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ôl math, 1997 a 2016



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu.


Mae'r data yn Ffigwr 4.14 yn dangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig yn 2016, o ran lefel gyffredinol yr aelwydydd cudd ac yn benodol y gydran pobl sengl sydd ddim yn perthyn, ond nid y ddwy gydran arall.

Roedd data am Loegr o Arolwg Tai Lloegr (EHS) yn dangos ei bod yn amlwg bod mwy o unedau teulu ychwanegol yn bodoli mewn cymdogaethau mwy difreintiedig. Byddem yn disgwyl, pe bai data cyfatebol ar gael yng Nghymru, y byddai patrwm tebyg i'w weld.

Fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae'r aelwydydd cudd posibl hyn yn fwy cyffredin o fewn rhentu preifat,


fel y mae Ffigwr 4.10 yn ei ddangos. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod rhai myfyrwyr a phobl ifanc yn rhannu fflatiau ac yn cael eu cofnodi fel unedau teulu ychwanegol. Mae llawer llai o bobl sengl sydd ddim yn perthyn yn byw gyda phobl eraill o fewn rhentu cymdeithasol a thai perchen-feddiannaeth. Fodd bynnag, mae mwy o deuluoedd cudd mewn tai rhentu cymdeithasol, ac mewn tai rhentu preifat, ac mae gan y grŵp mwyaf, sef plant annibynnol, bresenoldeb uchel mewn tai rhentu cymdeithasol ac mewn tai perchen-feddiannaeth. Mae tuedd gynyddol plant annibynnol hŷn i aros yng nghartref y rhieni'n fwy amlwg yn y sector perchen-feddiannwyr.

Ffigwr 4.15 Unigolion mewn aelwydydd cudd posibl yn ôl deiliadaeth yn ôl categori ac oedran, y DU a Chymru 2016 (canran yr holl unigolion, o bob oedran ym mhob deiliadaeth).



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu, hyd at C4 2016

Ffigwr 4.16 Cyfraddau Cynrychiadol Aelwydydd yn ôl Oed (20-34) yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, 1992 - 2016



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu

Mae gennym ddiffyg data agweddol o arolygon o Gymru sy'n ymwneud â bwriadau neu hoffterau'r grwpiau hyn o aelwydydd cudd posibl. Yn Lloegr, dros flynyddoedd yr arolygon diweddar mae'r EHS wedi gofyn cwestiwn, os oes 'rhywun sengl ychwanegol' yn bresennol ar aelwyd, ynglŷn â pham mae'r unigolyn hwnnw'n byw yno. Ar y cyfan, mae atebion sy'n awgrymu ei bod yn well ganddynt aros yno ar y cyfan yn gyfrifol am rhwng 50% a 55%, ac mae atebion sy'n awgrymu y byddai'n well gan yr unigolyn symud, neu fwriad i symud, er bod hynny â chymhellid, neu ryw faint o ansicrwydd, yn gyfrifol am 45-50% o'r achosion. Mae'n ymddangos bod cyfrannau tebyg yn berthnasol i blant annibynnol (50%) ac i aelodau sengl eraill o'r aelwyd (45%), ac i rai dros ac o dan 25 oed o fewn pob categori. Pe bai'r cyfrannau hyn yn berthnasol i Gymru byddai hynny'n awgrymu bod

120,000 o aelwydydd yn cynnwys o leiaf un aelwyd sengl gudd, a bod 154,000 o unigolion yn perthyn i'r rhain. Byddai hyn yn ogystal â thua 13,000 o deuluoedd â chwpl/rhiant unig cudd sy'n cynnwys bron i 30,000 o unigolion.

Ffordd arall o ddangos aelwydydd cudd yn anuniongyrchol yw (llai o) ffurfiant aelwydydd. Mae tuedd unigolion o fewn grwpiau oed penodol i ffurfio ('arwain') aelwydydd ar wahân yn ffordd gonfensiynol o fesur ffurfiant aelwydydd. Mae'n arbennig o ddiddorol edrych ar y grwpiau oed rhwng 20 a 34, fel yn Ffigwr 4.16, oherwydd yn draddodiadol dyma'r prif gyfnod pan fydd pobl yn gadael cartref y rhieni ac yn ffurfio aelwydydd newydd (mae'r cynnydd mewn cyfranogiad mewn addysg uwch wedi tueddu i effeithio ar y grwpiau oed o dan 25).

Dros y ddau ddegawd diwethaf yng Nghymru, roedd arwain aelwyd yn y grwpiau oed hyn yn tueddu i ddechrau ar gyfradd is nag yn y Deyrnas Unedig gyfan, ond yn dangos mwy o gynnydd. Yn y Deyrnas Unedig (ac yn fwy penodol yn ne Lloegr), roedd cyfraddau arwain aelwyd yn tueddu i ostwng ymysg y grwpiau oed iau, yn enwedig rhwng 2002 a 2008. Roedd y gostyngiad hwn hefyd i'w weld yng Nghymru, yn enwedig ar gyfer y grŵp 25-29 ar ôl 2002, ond nid ar gyfer y grŵp 30-34. Rhwng 2008 a 2010 cynyddodd cyfradd arwain aelwydydd ymysg y grwpiau hyn yn eithaf cyflym yn y Deyrnas Unedig, cyn gostwng yn ôl i lefel is fyth erbyn 2014. Roedd patrwm tebyg i'w weld yng Nghymru, sef cynnydd ac yna gostyngiad, er bod hyn yn llai gwir am y grŵp 30-34. Yn y bôn, mae Cymru wedi rhannu profiad cyffredinol y Deyrnas Unedig o ostyngiad yn eu cyfraddau arwain aelwydydd ers 2010 ac, ar ddiwedd y cyfnod (2014) roedd cyfraddau arwain y grwpiau iau yn eithaf tebyg yng Nghymru i'w gwerthoedd yn y Deyrnas Unedig gyfan, er ei bod yn ymddangos bod pobl 30-34 mlwydd oed wedi cynyddu'n uwch na chyfraddau'r Deyrnas Unedig.

Rydym yn dehongli'r prif dueddiadau mewn aelwydydd cudd yng Nghymru yn yr un modd ag yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Mae fforddiadwyedd tai wedi gwaethygu ac mae llai o dai rhentu cymdeithasol ar gael, sydd wedi arwain at lai o ffurfiant aelwydydd, yn enwedig ymysg y grŵp oed 25-30 ac yn y cyfnod 2002-2008 yn enwedig. Fodd bynnag, nid oedd yr effaith hon mor amlwg yng Nghymru ag yn ne Lloegr. Sut yr ydym yn egluro'r 'adlam' tuag i fyny yn 2010, er gwaethaf yr argyfwng ariannol a'r dirwasgiad? Ein prif ragdybiaeth yw bod y cynnydd mawr iawn mewn gosod yn y sector rhentu preifat ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Cymru, wedi helpu i alluogi mwy o aelwydydd i ffurfio (gweler Pennod 2). Hefyd, yn 2010 arafodd y dirwasgiad ychydig. Fodd bynnag, yn 2012 cawsom gyfnod


arall o ddirwasgiad, toriadau i'r LHA, ac efallai y penderfynodd rhai o'r 'landlordiaid anwirfoddol' werthu (perchenogion nad oeddent yn gallu gwerthu ar ôl 2007 ac yn gosod dros dro). I ddiweddarau'r stori, mae'n ymddangos bod y wasgfa barhaus ar incymau gwirioneddol a safonau byw, sydd wedi'i hategu gan dorri/rhewi budd-daliadau a diffyg cyflogaeth, ansicrwydd swyddi a gweithio dros dro yn atal oedolion iau rhag ffurfio aelwydydd.

Aelwydydd sy'n rhannu llety

'Aelwyd' yw un unigolyn neu grŵp o bobl sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn rhannu naill ai ystafell fyw neu brydau bwyd rheolaidd. Mae'n dilyn mai 'aelwydydd sy'n rhannu' yw'r aelwydydd hynny sy'n byw gyda'i gilydd yn yr un annedd ond nad ydynt yn rhannu naill ai ystafell fyw neu brydau bwyd rheolaidd gyda'i gilydd. Mae rhannu'n adlewyrchu rhai o'r un nodweddion ag aelwydydd cudd; mae'n drefniant y bydd pobl yn ei wneud os nad oes digon o lety ar wahân y gallant ei fforddio ar gael iddynt. Er enghraifft, bydd rhai 'rhannwyr fflatiau' wedi'u cofnodi fel aelwydydd cudd, a bydd eraill wedi'u cofnodi fel aelwydydd sy'n rhannu, gan ddibynnu ar faint a disgrifiad yr ystafelloedd. Yn draddodiadol, roedd rhannu'n ffenomen fawr, a llawer o aelwydydd yn rhannu mewn gwahanol ffyrdd, fel 'lojers' yn byw mewn fflatiau un ystafell neu ag ystafell yr un mewn tai amlfeddiannaeth. Fel y dangosir isod, mae hyn yn llai gwir heddiw.

Mae Ffigwr 4.17 yn darparu proffil o rannu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn 2016. Yn ôl yr LFS, roedd 2.3% o'r aelwydydd yng Nghymru yn rhannu yn ystod y flwyddyn honno (tua 30,000 o aelwydydd), o gymharu â 2.0% ledled y Deyrnas Unedig. Felly er bod rhannu'n gymharol brin y dyddiau hyn, mae'n ymddangos ei fod wedi cynyddu ers 2014 a'i fod o bosibl yn uwch nag yn y Deyrnas Unedig gyfan (yn Llundain y mae rhannu'n digwydd amlaf). Mae rhannu'n fwy cyffredin

Ffigwr 4.17 Aelwydydd sy'n rhannu rennir yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn ôl deiliadaeth, y nifer sy'n rhannu, y rhanbarth a'r math o aelwyd, 2016 (canran yr aelwydydd ym mhob grŵp).



Ffynhonnell: Arolwg o'r Llafurlu 2016: Chwarter 4

ymsg aelwydydd un unigolyn (ac ar gyfer y grŵp hwn mae'n ymddangos ei fod wedi cynyddu o 4.6% i 9.1% rhwng 2014 a 2016), ond mae'n dal i ddigwydd mewn rhai mathau eraill o aelwydydd. Ledled y Deyrnas Unedig, mae rhannu'n digwydd yn llawer amlach o fewn rhentu preifat (5.1-5.2%, yn y Deyrnas Unedig a Chymru) nag yn y sector perchen-feddiannwyr (1.3%); yng Nghymru, mae rhannu'n digwydd mewn 3.4% o rentu cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n rhannu'n rhannu â thair neu fwy o aelwydydd eraill.

Mae'r niferoedd sy'n rhannu wedi lleihau dros y tymor hir; efallai fod hyn yn dangos bod mwy o dai ar gael ond mae'n debygol ei fod hefyd oherwydd newidiadau i rentu preifat a'i reoleiddio. Mae niferoedd y tai amlfeddiannaeth traddodiadol lle'r

oedd pobl yn rhentu ystafelloedd wedi gostwng, o ganlyniad i reoliadau HMO, cyfyngiadau HB/LHA, uwchraddio stoc cyffredinol, a'r buddsoddiad prynu-i-osod newydd. Mae hynt rhannu dros amser yn dangos gostyngiad amlwg yn yr 1990au a gostyngiad bach pellach ar ddechrau i ganol y 2000au, cyn cynnydd amlwg yn y chwe mlynedd ddiwethaf. Bu gostyngiad tebyg i'r Deyrnas Unedig gyfan yng Nghymru ond ar lefel is; gostyngodd o 2.2% yn 1997 i ychydig o dan 1.0% yn 2010 cyn cynyddu ychydig bach i 1.2% yn 2012 ac 1.1% yn 2014 ac yna'n fwy amlwg i 2.3% yn 2016. Mae'n ymddangos bod y cynnydd hwn yn dystiolaeth o effaith y diffyg tai a oedd ar gael ar ôl gwasgfa gredyd 2007 a'r dirwasgiad a ddilynodd, ac o bosibl hefyd effaith diwygio lles ar bobl ifanc, fel y trafodwyd ym Mhennod 3.

Gorlenwi

Ceir consensws cyffredinol bod gorlenwi'n angen pwysig ym maes tai y dylid rhoi sylw iddo, a byddai rhai'n dadlau ei fod yn gyfystyr â digartrefedd, ar ei ffurfiau mwyaf eithafol.¹⁵⁸ Y safon swyddogol a ddefnyddir amlaf yw'r 'safon ystafelloedd gwely'. Yn y bôn, mae hyn yn dyrannu un ystafell wely i bob cwpl neu riant sengl, un i bob pâr o blant o dan 10, un i bob pâr o blant o'r un rhyw dros 10, ac ystafelloedd gwely ychwanegol i blant unigol dros 10 o ryw gwahanol ac i aelodau eraill o'r aelwyd sy'n oedolion. Defnyddir y mesur hwn mewn arolygon aelwydydd, gan gynnwys EHS, ac er y byddai rhai'n dadlau ei fod yn rhy geidwadol, pan nad yw hyd yn oed y trothwy sylfaenol iawn hwn yn cael ei fodloni mae'n debygol o gael ei drin fel blaenoriaeth dros gyflawni safonau uwch.

Mae gorlenwi wedi cynyddu i raddau eithaf sylweddol ers 2003 yn Lloegr, o 2.4% i 3.0% o bob aelwyd, sy'n groes i'r tueddiadau blaenorol tuag i lawr. Yng Nghymru, nid oes gennym ddata cyson am y duedd dros gyfnod mor hir.

Gellir defnyddio data o'r arolwg hydredol 'Deall Cymdeithas' (sydd nawr yn cynnwys Arolwg Panel Aelwydydd Prydain) i edrych ar orlenwi gan ddefnyddio mesur cywerth.¹⁵⁹ Mae Ffigwr 4.13 yn dangos y cyfraddau dros dri chyfnod rhwng 2009 a 2014, ac mae'n dangos bod y cyfraddau yng Nghymru'n amlwg yn is nag ym Mhrydain Fawr gyfan, yn enwedig yn y deiliadaethau rhentu. Mae'r Ffigwr hefyd yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn gorlenwi yng Nghymru dros y cyfnod hwn, yn debyg i'r gostyngiad ledled Prydain Fawr.¹⁶⁰

Roedd cyfran y tai gorlawn yng Nghymru yn 2013-14 yn 2.5% o gymharu â 3.5% ledled Prydain Fawr. Nifer absoliwt yr aelwydydd gorlawn, yn ôl yr arolwg hwn, fyddai 33,000 yn 2014.

Roedd data cyfrifiad 2011, gan ddefnyddio diffiniad ychydig bach yn ehangach o feddiannaeth, yn dangos bod gorlenwi'n ddwbl y cyfartaledd cenedlaethol yng Nghaerdydd a dros 20% yn uwch na'r cyfartaledd yn Abertawe, Casnewydd a Merthyr.

4.6 Pwyntiau allweddol

- Ni ellir dadlau y bu cynnydd diweddar mewn cysgu ar y stryd yng Nghymru, ac er nad yw union faint y cynnydd yn glir, mae'n ymddangos yn debygol ei fod yn gynydd rhywle rhwng 16% a 30% o'i gymharu â 2015. Disgwylir cyhoeddiad polisi am gysgu ar y stryd gan Lywodraeth Cymru yn fuan, ac roedd disgwyl argymhellion ar gyfer polisi cenedlaethol gan Weithgor Cysgu ar y Stryd cenedlaethol yn ystod haf 2017.

- Roedd y mwyafrif llethol o'r awdurdodau lleol a ymatebodd i'n harolwg 2017 (17 o 19) yn dweud bod llif cyffredinol y bobl sy'n ceisio cymorth â digartrefedd yn eu hardal wedi cynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf; yn y rhan fwyaf o achosion, roeddent yn dweud bod y cynnydd hwn yn 'sylweddol' ac nid yn 'fach'.


- Roeddent yn dweud bod y cynnydd yn 'nifer' y defnyddwyr gwasanaeth yn rhannol oherwydd y cyhoeddusrwydd o gwmpas ehangu cyfrifoldebau awdurdodau lleol am

158 Dyma safbwynt FEANTSA (Ffederasiwn Ewrop ar gyfer Sefydliadau Cenedlaethol sy'n Gweithio gyda'r Digartref), er enghraifft <http://www.feantsa.org/code/en/pg.asp?page=484>

159 Mewn egwyddor, gallwn wneud cyfrifiad cywerth â'r safon ystafelloedd gwely wrth ddadansoddi set ddata Deall Cymdeithas (UKHLS), ond mae hynny'n rhoi amcangyfrifon o gyfraddau gorlenwi sydd ychydig bach yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yn Lloegr gan ddefnyddio Arolwg Tai Lloegr (EHS). Gallai hyn adlewyrchu gwahaniaethau o ran samplu, ymatebion neu athreuliad rhwng yr arolygon, neu wahaniaethau manwl yn y dosbarthiadau o gyfansoddiad aelwydydd a ddefnyddiwyd.

160 Nid yw'r gostyngiad sydd i'w weld ledled Prydain Fawr rhwng 2009-10 yn gwbl gyson â'r tueddiadau a gofnodwyd ar gyfer Lloegr yn y Monitorau perthnasol yn y cyfnod hwn, lle nad yw gorlenwi wedi newid ers 2009. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu tueddiad i ffigurau'r UKHLS ar gyfer eu cyfrif cyntaf (2009) fod yn arbennig o uchel, ond eu bod yna wedi lleihau oherwydd athreuliad sylweddol yn y sampl rhwng cyfrifon 1 a 2 yr arolwg hydredol hwn.

Ffigwr 4.18 Gorlenwi yn ôl Deiliadaeth a Chyfnod yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, 2009 - 14



Ffynhonnell: Deall Cymdeithas (UKHLS), Cyfrifon 1 i 6

ddigartrefedd, ond hefyd oherwydd dynameg waelodol sy'n gysylltiedig â'r pwysau oherwydd diwygio lles a'r farchnad dai.

- Yn 2016/17, roedd digartrefedd wedi'i atal yn llwyddiannus mewn bron ddau draean (62%) o'r aelwydydd lle aseswyd bod 'bygythiad o ddigartrefedd', yn ôl yr ystadegau swyddogol, a chofnodwyd cyfradd lwyddiant o 41% gan awdurdodau lleol mewn achosion rhyddhau o ddigartrefedd – h.y. canfod cartref i bobl ddigartref (yn hytrach nag ymyriadau i atal digartrefedd rhag digwydd)
- Yn ôl y disgwyl, a'r gobaith, mae nifer yr aelwydydd mewn angen blaenoriaethol a gynorthwywyd o dan y 'ddyletswydd i sicrhau llety' newydd, sydd ond yn digwydd ar

ôl i ymdrechion atal a/neu ryddhau fethu, yn llawer is na lefelau statudol pobl y 'derbyniwyd' eu bod yn ddigartref o dan y system cyn 2015. Dim ond 1,611 o aelwydydd blaenoriaethol o'r fath a gofnodwyd yn 2015/16 (tua thraean y nifer a 'dderbyniwyd' yn 2014/15), ond cododd y ffigur hwn i 2,076 yn 2016/17.

- Yn 2016/17, negodi â landlordiaid neu ddatrys ôl-ddyledion rhent oedd y dulliau mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd gan awdurdodau lleol mewn ymdrechion i gadw llety presennol aelwyd - ac felly atal digartrefedd rhag digwydd. Ymysg y nifer llawer mwy o gamau gweithredu â ffocws ar ganfod llety newydd i aelwydydd digartref/mewn perygl, y categorïau mwyaf (33% o'r achosion) ar gyfer y ddau oedd

hwyluso mynediad at dai rhentu preifat, neu rentu cymdeithasol.

- Colli tenantiaeth bresennol oedd yn gyfrifol am y gyfran fwyaf (34%) o'r llwyth achosion 'dan fygythiad o ddigartrefedd' yn 2016/17, ond roedd cyfran lai o'r aelwydydd hyn yn ddigartref mewn gwirionedd (26%). Gallai hyn awgrymu cyfradd lwyddiant gymharol uchel i weithgareddau atal sydd wedi'u targedu at bobl sy'n wynebu risg o golli tenantiaeth bresennol.
- Mae'r duedd raddol tuag i lawr mewn lleoliadau mewn llety dros dro a welwyd yn y cyfnod 2012-2015 wedi'i gwrthdroi'n ddiweddar. Yn ystod y cyfnod 12 mis diwethaf, cynyddodd nifer y lleoliadau 7%. O ystyried y disgwyliad y byddai pwyslais cryfach ar atal ymlaen llaw o dan y drefn statudol newydd wedi arwain at lai o 'fewnlifiad', mae hyn ychydig yn groes i'r hyn a ddisgwyliwyd, a gallai adlewyrchu'r cynnydd mewn pwysau strwythurol a'r cynnydd yn y 'niferoedd' a nodir uchod.
- Yn 2016/17 llwyddwyd i gynorthwyo dros 10,000 o aelwydydd i atal digartrefedd neu i'w rhyddhau o ddigartrefedd. Serch hynny, mae cynigion cymorth awdurdodau lleol yn dal i fod yn aflwyddiannus i gohort sylweddol o bobl. Mae'r grŵp allweddol yma'n cynnwys aelwydydd y barnwyd yn gyfreithiol eu bod yn ddigartref ond sydd â phroblemau 'heb eu datrys yn llwyddiannus' ac yr ystyrir yna eu bod yn achosion 'nad ydynt yn flaenoriaeth' nad ydynt yn gymwys i gael y 'ddyletswydd ailgartrefu lawn' o dan A75. Roedd 1,233 yn y grŵp hwn yn 2016/17 – i lawr o 1,344 y flwyddyn flaenorol.
- Ceir pryder penodol am achosion sy'n syrthio allan o'r system yn benodol oherwydd 'diffyg cydymffurfio', o gofio bod hyn yn bwynt newydd allweddol yn neddfwriaeth Cymru a'i fod, ar ffurf wahanol, hefyd wedi'i gynnwys yn

Neddf Lleihau Digartrefedd 2017 yn Lloegr. Yn 2016/17 rhyddhawyd y ddyletswydd dros 486 o 9,210 o achosion 'cymwys a dan fygythiad o ddigartrefedd' o dan Adran 66 (5%) a 615 o 10,884 o achosion 'cymwys a digartref' o dan Adran 73 (6%) o ganlyniad i 'ddiffyg cydymffurfiaid'.

- Rydym yn amcangyfrif bod 120,000 o aelwydydd yng Nghymru yn 2016 yn cynnwys o leiaf un aelwyd sengl gudd, a bod 154,000 o unigolion yn perthyn i'r rhain. Mae hyn yn ogystal â thua 13,000 o deuluoedd â chwpl/rhiant unig cudd sy'n cynnwys bron i 30,000 o unigolion. Mae mynychder aelwydydd cudd posibl wedi bod yn gymharol sefydlog dros y tymor canolig yng Nghymru, ac mae nawr yn ymddangos ei fod yn is nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig.
- Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod nifer yr aelwydydd sy'n rhannu wedi cynyddu'n ddiweddar yng Nghymru; mae'r gyfradd nawr yn uwch nag yn y Deyrnas Unedig gyfan. Yn 2016, roedd tua 2.3% o'r aelwydydd yng Nghymru yn rhannu (tua 30,000 o aelwydydd), o gymharu â 2.0% ledled y Deyrnas Unedig. Mae rhannu'n fwy cyffredin ymysg aelwydydd un unigolyn, ac ar gyfer y grŵp hwn mae'n ymddangos ei fod wedi cynyddu o 4.6% i 9.1% rhwng 2014 a 2016. Mae cyfraddau rhannu'n arbennig o uchel o fewn rhentu preifat, ac i raddau llai mewn tai cymdeithasol, ac mae'n brin yn y sector perchen-feddiannwyr.
- Mae cyfraddau gorlenwi'n is yng Nghymru nag mewn mannau eraill ym Mhrydain Fawr, ac maent wedi gostwng yn ddiweddar. Mae'n bosibl bod hyn yn adlewyrchu llai o bwysau yn y farchnad dai a llai o aelwydydd sy'n lleiafrifoedd ethnig ac yn fewnfudwyr.

Casgliadau

5. Casgliadau

Prif neges Monitor Digartrefedd Cymru eleni yw bod y drefn ddigartrefedd newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi bod yn llwyddiant mawr o ran llawer o agweddau allweddol a chydberthnasol. Yn gyntaf, ceir unfrydedd llwyr bron ei bod wedi achosi ailgyfeirio gwirioneddol ar ran gwasanaethau Dewisiadau Tai awdurdodau lleol tuag at ymyriadau ataliol cynharach a mwy effeithiol. Yn ail, mae wedi arwain at welliant radical yn yr ymateb gwasanaeth a gynigir i bobl ddigartref sengl. Yn drydydd, mae wedi sbarduno 'newid diwylliant' cadarnhaol ar ran awdurdodau lleol, sy'n darparu amgylchedd mwy cefnogol i ymgeiswyr sy'n canolbwyntio ar unigolion, a hefyd ar ran asiantaethau allanol, megis Shelter Cymru, gan wneud eu perthynas ag awdurdodau lleol yn llai gwrthdrawiadol. Yr hyn sy'n arbennig o drawiadol yw i ba raddau yr oedd yr holl randdeiliaid allweddol a gyfwelwyd ac a arolygwyd gennym – awdurdodau lleol, partneriaid eraill yn y sector statudol, darparwyr yn y sector gwirfoddol, a sylwebwyr annibynnol – yn cytuno ynglŷn â'r pwyntiau cadarnhaol craidd hyn.

Mae'r darlun calonogol hwn yn cael ei ategu gan fwyaf, ond nid yn llwyr, gan yr ystadegau swyddogol; roeddent yn nodi bod bron ddau draean (62%) yr aelwydydd yr aseswyd eu bod 'dan fygythiad o ddigartrefedd' yn 2016/17 wedi llwyddo i osgoi hyn, ac roedd

awdurdodau lleol yn cofnodi cyfradd lwyddiant ganmoladwy o 41% mewn achosion 'rhyddhau o ddigartrefedd'. Yn ôl y disgwyl, a'r gobaith, mae nifer yr aelwydydd mewn angen blaenoriaethol a gynorthwywyd o dan y 'ddyletswydd i sicrhau llety' newydd, sydd ond yn digwydd ar ôl i ymdrechion atal a/neu ryddhau fethu, yn llawer is na lefelau statudol pobl y 'derbyniwyd' eu bod yn ddigartref o dan y system cyn 2015. Dim ond 1,611 o aelwydydd blaenoriaethol o'r fath a gofnodwyd yn 2015/16 – tua thraean y nifer a 'dderbyniwyd' a gyfrwyd yn 2014/15 – ond cododd y ffigur hwn i 2,076 yn 2016/17. Ar yr un pryd, mae nifer yr achosion digartrefedd nad ydynt yn flaenoriaeth wedi lleihau ers blwyddyn gyntaf gweithredu'r ddeddfwriaeth newydd, ynghyd â nifer amryw o ymyriadau 'aflwyddiannus', gan gynnwys cau achosion oherwydd 'diffyg cydymffurfio'. Mae lleoliadau mewn llety dros dro, a oedd wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2010/11, ac wedi syrthio'n gyflymach (18%) yn ystod blwyddyn lawn gyntaf y ddeddfwriaeth newydd, wedi cynyddu eto yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf (7%). Amser a ddengys a yw'r cynnydd diweddar hwn yn 'blip' ar duedd barhaus tuag i lawr mewn digartrefedd 'statudol' ynteu'n nodi dechrau tuedd newydd.

Gellir enwi llawer o ffactorau a all fod yn gyfrifol am lwyddiant cyffredinol ymddangosol 'model

Cymru' hyd yn hyn. Yn gyntaf, roedd yn ymddangos bod cefnogaeth eang i egwyddorion y fframwaith ei hun, a oedd yn seiliedig ar brosiect ymchwil ar y cyd cychwynnol, ac yn destun cyfnod o lobio dwys, yn wleidyddol ac o safbwynt polisi, cyn y lluniwyd y fersiwn derfynol, sef y Ddeddf ei hun. Yn ail, mae llawer o bobl, os nad pawb, yn derbyn bod yr adnoddau ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Grant Arian Pontio wedi bod yn ddigonol (er bod llawer o bryder erbyn hyn am y posibilrwydd y gallai'r arian hwn ddod i ben ym mis Mawrth 2018). Yn drydydd, mae'r 'cydgynhyrchu' a'r ymagwedd hyblyg at ddrafftio ac adolygu'r Cod Arweiniad, a'r modd y darparwyd y rhaglen hyfforddi gysylltiedig ar draws sectorau, wedi helpu i greu ymdeimlad o ymdrech a phwrpas ar y cyd.

Mae hyn yn golygu bod y rhan fwyaf o'r beirniadaethau o'r drefn ddigartrefedd newydd a gawsom yn tueddu i ymwneud â'i rhoi ar waith, neu'n sylwadau am nad yw wedi'i sefydlu'n llawn, yn hytrach nag unrhyw wrthwynebiad o sylwedd neu egwyddor. Byddai'r categori hwn yn cynnwys pryderon am: ormod o waith papur; nad yw'r 'camau rhesymol' i atal neu ryddhau digartrefedd yn ddigon teilwredig a rhagweithiol mewn rhai ardaloedd; bod ansawdd Cynlluniau Tai Personol, a sut y'u defnyddir, yn amrywio; a'r diffyg cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn i annog gwaith partneriaeth dyfnach â chyrrff cyhoeddus eraill. Un peth sy'n ymddangos ar draws pob un o'r pwyntiau hyn yw cydnabyddiaeth ei bod yn anochel bod y 'newid diwylliant' sydd ei angen er mwyn llwyddo i roi'r model statudol newydd ar waith yn broses hirdymor, ac y gallai olygu bod angen rhywfaint o drosiad staff mewn rhai achosion, yn ogystal ag ailhyfforddi, er mwyn ei wireddu'n llwyr. Felly, er bod pryderon yn parhau am ganlyniadau gwasanaethau anghyson *rhwng* awdurdodau lleol Cymru, roedd teimlad cryfach o amrywioldeb arferion o fewn

awdurdodau lleol a fydd yn cymryd cryn amser i'w unioni.

Mae'r pryder y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio'r darpariaethau 'methu â chydweithredu' fel dyfais newydd i ddioli neu ddogni o bosibl yn fwy o bryder strwythurol â'r drefn statudol ddiwygiedig, ond mae'n ymddangos bod pryder ynglŷn â hyn wedi tawelu i raddau am y tro, a bod y bobl a gynigiodd sylwadau'n fodlon i fonitro datblygiadau dros amser cyn ffurfio barn gadarn. Yn fwy cyffredinol, ceir gofid bod nifer sylweddol o bobl ddigartref (sengl a 'heb fod yn flaenoriaeth' gan fwyaf) yn dal i fod heb ddatrysiad ar ôl mynd drwy dri 'cham' yr ymyriad statudol, ond ar yr un pryd cydnabyddir yn glir bod y 'cynnig' i bobl ddigartref sengl, serch hynny, yn llawer gwell na'r cynnig o dan y system flaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o anniddigrwydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar gynnydd pendant diweddar mewn cysgu ar y stryd yng Nghymru, yng nghyd-destun cytundeb eang bod y fframwaith deddfwriaethol newydd wedi gwneud llai dros y grŵp hwn nag aelwydydd digartref eraill. Mae'r cynnydd amlwg hwn yn y niferoedd sy'n cysgu ar y stryd yng Nghymru wedi dod yn fater gwleidyddol berthnasol, a disgwylir cyhoeddiad polisi mawr yn fuan ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, efallai i ddatgan rhyw fath o strategaeth genedlaethol â chyfran Tai yn Gyntaf, yn seiliedig ar argymhellion Gweithgor Cysgu ar y Stryd cenedlaethol; disgwylir eu hadroddiad yn haf 2017.

Roedd model Cymru'n dylanwadu'n fawr ar Ddeddf Lleihau Digartrefedd 2017 a basiwyd yn ddiweddar yn Lloegr, ac mae diddordeb yn cynyddu yn y model hwn yn yr Alban hefyd, felly yn amlwg mae llawer o ddiddordeb yn y profiadau hyn ohono hyd yma, ac mae llawer iawn o'r hyn sydd wedi'i nodi uchod yn galonogol iawn yn hyn o beth. Fodd bynnag, mae angen nifer o rybuddion, ac mae rhai o'r rheini'n

ymwneud â'r cyd-destun cymharol ffafriol yng Nghymru i gyflwyno'r dulliau hyn sy'n seiliedig ar atal.

Yn fwyaf amlwg, mae'r pwysau ar dai yng Nghymru'n llawer llai nag yn Llundain a de Lloegr, er bod y sefyllfa yng Nghaerdydd wrth gwrs yn debygol o fod yn debyg i'r sefyllfa mewn dinasoedd mawr eraill yn Lloegr, ac y bydd y trefi llai a'r ardaloedd gwledig a lled-wledig yng Nghymru hefyd yn debyg i rai ardaloedd yn Lloegr. Serch hynny, ar y cyfan, mae'n amlwg ei bod yn gymharol haws cael tai yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig yn gyffredinol – ac mae'r lefelau is o orlenwi ac aelwydydd cudd yn dystiolaeth o hyn – ond dylid nodi'r lefel anghymesur (sy'n tyfu) o rannu, yn enwedig ymysg pobl senl. Hefyd, bu gostyngiad amlwg yng nghyfran y gosodiadau cymdeithasol newydd a ddyrannwyd i aelwydydd digartref – i lawr i tua 18% yn y tair blynedd diwethaf, o gymharu â'r norm cyn hynny o tua chwarter. Hyd yn oed mewn cyd-destun o lefelau is o ddigartrefedd statudol (gweler uchod), mae hon yn gyfran drawiadol o isel, ac nid yw'n glir beth sy'n achosi'r duedd hon.

I ddilyn Deddf 2014, mae gan Gymru nawr gyfres o bolisiau tai sy'n amlwg wahanol i rai Lloegr, ac yn benodol maent yn galluogi ailariannu'r sector tai cyngor, ac yn darparu pwerau i drwyddedu a rheoleiddio landlordiaid preifat a'u hasiantau. Mae Bil pellach nawr wedi'i gyflwyno i ddiddymu'r hawl i brynu. Ond mae'n bosibl y byddwn yn dal i weld pwysau'n cynyddu o ran tai ym mhen isaf y farchnad rentu yng Nghymru ac ystyried, er bod Llywodraeth Cymru wedi rhagori ar eu targed eu hunain o ddarparu 10,000 o anheddau cymdeithasol a fforddiadwy ychwanegol dros y pum mlynedd hyd at 2015/16, bod hyn yn dal yn llawer is (tua 3,000 o unedau y flwyddyn yn is) na'r nifer sy'n ofynnol yn ôl asesiad annibynnol.

Wrth gwrs, diwygio lles yw'r ffactor strwythurol fawr arall sy'n llunio'r cyd-destun ar gyfer y system ddigartrefedd newydd yng Nghymru; bydd penderfyniadau Llywodraethau olynol y Deyrnas Unedig wedi cymryd dros £1 biliwn o bocedi aelwydydd incwm isel yng Nghymru bob blwyddyn erbyn 2020/21. Fel mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig, mae'r toriadau lles hyn yn cael mwy o effaith yn y rhannau hynny o Gymru sydd wedi dioddef dirywiad diwydiannol hirdymor ac eisoes yn wynebu lefelau uchel o dlodi ac anfantais hirsefydlog. Mae rhai elfennau ar ddiwygio lles, yn enwedig y 'Dreth Ystafell Wely', wedi cael effaith anghymesur yng Nghymru, ond mae eu heffeithiau niweidiol posibl wedi'u lleddfu'n sylweddol drwy ddefnyddio llawer o Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. O fewn y cylch, mae ymatebion yr arolwg a chyfweliadau â rhanddeiliaid ym Monitor eleni'n dangos darlun mwy amrywiol, sydd efallai'n llai aciwt, o effeithiau diwygio lles ar ddigartrefedd yng Nghymru hyd yn hyn o gymharu â Lloegr, yn enwedig yn Llundain a'r de lle mae'r cyfuniad o dai drud a thoriadau lles dwfn yn achosi cynyddiadau cyflym iawn mewn digartrefedd o ganlyniad i ddiweddu tenantiaethau preifat. Serch hynny, roedd bron bob awdurdod lleol yng Nghymru a ymatebodd i arolwg 2017 yn credu bod diwygio lles ers 2010 wedi gwaethygu digartrefedd yn eu hardal, a nododd y rhan fwyaf fod ymestyn y Gyfradd Llety a Rennir i bobl 25-34 mlwydd oed wedi gwneud niwed arbennig, er bod rhewi budd-daliadau, sancsiynau, a chapiau wedi cael eu crybwyll hefyd.

Un fantais gymharol bwysig arall i Gymru, a gydnabyddir â diolch gan lawer o'n hysbyswyr allweddol, yw'r amddiffyniad a roddwyd i'r rhaglen ariannu 'Cefnogi Pobl' (sy'n dal i fod wedi'i chlustnodi). Er bod llawer wedi galw am wella arferion comisiynu awdurdodau lleol, a'i bod yn ymddangos bod y cysondeb y gobeithiwyd amdano rhwng gwasanaethau Cefnogi Pobl a'r agenda

atal digartrefedd yn dal i ffurfio, mae'n ymddangos bod argaeledd yr arian hwn wedi caniatáu ehangu o leiaf rai ffurfiau ar y ddarpariaeth llety â chymorth yn y blynyddoedd diwethaf, yn wahanol iawn i'r sefyllfa sy'n gwaethygu drwy'r amser yn Lloegr.

Wrth edrych i'r dyfodol, fodd bynnag, mynegodd awdurdodau lleol Cymru a llawer o bobl eraill bryder enfawr am sut y gallai parhau i gyflwyno Credyd Cynhwysol effeithio ar ddigartrefedd, yn enwedig y trefniadau i dalu'r elfen dai i'r hawlydd, a nodwyd hefyd bod dileu hawl 'awtomatig' pobl 18-21 mlwydd oed i gael Budd-dal Tai hefyd yn rhywbeth sy'n peri pryder, ynghyd â gostwng y cap budd-daliadau cyffredinol yn ddiweddar, a fydd yn cynyddu ei effaith bum gwaith ledled Cymru erbyn 2020/21. Caiff capiau Lwfans Tai Lleol eu hymestyn i denantiaid cymdeithasol ym mis Ebrill 2019, a chaiff hyn hefyd effaith arbennig o eang yng Nghymru, o ystyried ei rhenti sector preifat cymharol isel; pobl ifanc senl sy'n defnyddio'r Gyfradd Llety a Rennir isel iawn a fydd yn teimlo'r effaith waethaf. Mae ansicrwydd yn parhau hefyd ynglŷn â'r trefniadau i'w gwneud ynglŷn â chynlluniau tai â chymorth pan fydd y capiau hyn ar waith, ac nid oes manylion eto ynglŷn â sut y bydd Llywodraeth Cymru'n dosbarthu'r cyllid ychwanegol a ddarperir i gefnogi pobl agored i niwed mewn tai â chymorth.

Serch hynny, mae'n ddiamheuaeth mai hwn yw'r Monitor Digartrefedd mwyaf calonogol yr ydym wedi'i gyhoeddi hyd yma; mae'n sôn am lwyddiant tebygol datblygiad mawr mewn cyfraith, polisi ac arfer digartrefedd y mae'n ymddangos, hyd yn hyn o leiaf, ei fod wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiadau a chanlyniadau llawer o bobl ddigartref. Yn amlwg, bydd angen monitro ystod o faterion yn ofalus yn y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys y llawer o feysydd ymarfer manwl y mae angen eu 'llyfnhau' yn y fframwaith digartrefedd statudol

newydd yng Nghymru, yn ogystal ag effeithiau ehangach datblygiadau o ran y farchnad dai a diwygio lles sy'n llunio'r cyd-destun i ddarparu'r fframwaith. Bydd Cynllun Digartrefedd 10 mlynedd presennol Cymru yn dod i ben yn 2019, a gellir tybio y bydd datblygiad ei olynnydd yn dechrau cyn bo hir. Gallwn edrych ymlaen at ganlyniad y gwerthusiad swyddogol o'r ddeddfwriaeth newydd fel sail i'r dadleuon hyn, a bydd gennym y cyfle hefyd i edrych eto ar y sefyllfa yng Nghymru a'i hasesu unwaith eto yn y Gyfres Monitor Digartrefedd bresennol hon sy'n para tan 2021. Y gobaith yw y byddwn yn parhau i weld Cymru'n cynnig model cadarnhaol o arferion arloesol a chydweithredol sy'n gallu dangos ffyrdd adeiladol ymlaen i weddill y Deyrnas Unedig.

Atodiad 1 Canllaw i'r pynciau

1. Rhagarweiniad

- Eu teitl swydd/swyddogaeth; am ba mor hir y maent wedi bod yn y swydd/sefydliad
- Natur y sefydliad – natur y gwasanaeth(au) a ddarperir; ardal ddaearyddol a wasanaethir; maint a ffrydiau cyllid; grwpiau digartref y maent yn gweithio'n uniongyrchol â hwy (pobl sy'n cysgu ar y stryd, digartref sengl, digartref ifanc, teuluoedd digartref, digartref statudol, digartref cudd ac ati); unrhyw newidiadau diweddar i'r gwasanaethau (yn enwedig a oes unrhyw wasanaethau wedi cau/lleihau/ehangu/agor)

2. Tueddiadau o ran grwpiau cleientiaid/anghenion

- Natur, maint proffil y grŵp cleientiaid
- Anghenion y cleientiaid (h.y. mwy/llai agored i niwed, ac ati)
- Sbardunau digartrefedd/sefyllfa argyfwng, ac ati (a yw'r rhain yn newid ac ati)

3. Cysgu ar y stryd

- Byddwch wedi gweld y ffigurau a ryddhawyd ym mis Chwefror sy'n awgrymu bod mwy o bobl yn cysgu ar y stryd yng Nghymru.
- Beth sydd y tu ôl i'r ffigurau hyn yn eich barn chi - cynnydd 'go iawn' mewn cysgu ar y stryd; newidiadau i'r fethodoleg; esboniad arall?
- A yw'r patrwm hwn yn cyd-fynd â'ch profiad/data lleol chi?
- Os cynnydd go iawn, beth yw'r esboniad? Holwch: WR, toriadau i wasanaethau cymorth/SP, prinder llety argyfwng/hirdymor, mwy o fudwyr, arall?
- Sut y mae'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd yn berthnasol i'r cynnydd hwn mewn cysgu ar y stryd, os o gwbl?
- Beth arall y mae angen ei wneud ynglŷn â chysgu ar y stryd yng Nghymru? Holwch: mwy o lety argyfwng, gwasanaethau cefnogi (MH, sylweddau, cymorth yn ôl yr angen, ac ati), datblygu 'cynnig' Tai yn Gyntaf, eraill?

4. Effeithiau polisiau Llywodraeth Cymru

Deddf Tai (Cymru) 2014

- Pa mor gyfarwydd ydych chi â darpariaethau digartrefedd Deddf Tai (Cymru) 2014/y ffordd y mae'n gweithio'n ymarferol?
- Pa effaith y mae wedi'i chael ers dod i rym ym mis Ebrill 2015? Beth yw'r gwahaniaethau pwysicaf/mwyaf arwyddocaol (os oes rhai) y mae wedi'u gwneud? Beth sy'n gweithio'n dda/ddim cystal? Unrhyw bryderon penodol?

- A oes effeithiau anghyson: yn ddaearyddol (rhwng/o fewn ardaloedd awdurdod lleol?); ar gyfer gwahanol grwpiau (pobl sengl, teuluoedd, pobl ifanc, cyn-garcharorion, anghenion cymhleth)? Beth sy'n gyfrifol am y patrymau hyn?

- Holwch am eu barn am agweddau penodol:

- Yr arian pontio (£5.6M) – a oedd yn ddigon? Beth fydd yn digwydd pan ddaw i ben (2018/19)?
- Cynlluniau Tai Personol? A yw awdurdodau lleol yn eu defnyddio? A ydynt yn ddefnyddiol?
- Beth ydych chi'n ei feddwl am y Cod Arweiniad diwygiedig (2015)?
- Yr ystadegau ynglŷn â rhyddhau/atal - pa mor gyfarwydd ydych chi â hwy? A ydynt yn ystyrlon? A ydynt yn cyd-fynd â'ch profiad chi? A ellid eu cyflwyno'n well?

Polisiau eraill:

- Cefnogi Pobl - roedd y trefniadau comisiynu'n eithaf dadleuol ar adeg y HMW diwethaf - sut mae wedi ymsefydlu (canllawiau newydd?)? Pa mor dda y mae'n cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth digartrefedd newydd?
- Polisiau tai - a yw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 wedi effeithio ar ddigartrefedd? Unrhyw ddatblygiadau eraill ar bolisi tai, yn enwedig yn ymwneud â thai cymdeithasol?
- Cyflenwad tai/mynediad yn fwy cyffredinol (SRS a PRS) - a yw hyn yn ffactor mewn digartrefedd yng Nghymru? A yw'n amrywio ar draws y wlad/sut/pam? Beth yw'r tueddiadau - a oes cysylltiad ag WR?
- Datblygiadau polisi pwysig eraill (ers 2015) sy'n effeithio ar ddigartrefedd e.e. o fewn cyfiawnder troseddol, iechyd a gofal cymdeithasol, ac ati?

5. Effeithiau polisiau Llywodraeth San Steffan

- A oes unrhyw bolisiau penodol gan Lywodraeth San Steffan sy'n effeithio/sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar lefelau digartrefedd/eich cleientiaid/defnyddwyr gwasanaeth a'r galw am eich gwasanaethau? Pethau'n gwaethygu/gwella? Unrhyw oblygiadau newydd o ganlyniad i agenda Llywodraeth May?
- Holwch:
 - diwygio lles –
 - dileu'r hawl awtomatig i bobl 18-21 mlwydd oed i gael cymorth â thai (manyllion am eithriadau?)
 - cyfyngiadau LHA yn PRS (rheol 30ain canradd; SAR; capiau LHA);
 - HB yn SRS ('treth ystafell wely'; ymestyn LHA/SAR i gynnwys y sector rhentu cymdeithasol);
 - didyniadau annibynnol HB;
 - gostwng capiau budd-dal aelwydydd;
 - rhewi budd-daliadau oed gweithio;
 - IB/ESA/Taliadau Annibyniaeth Personol
 - Cronfa Cymorth Dewisol - pa mor dda mae hon yn gweithio yng Nghymru i bobl ddigartref/pobl sy'n wynebu risg?
 - Llety dros dro - goblygiadau'r symudiad oddi wrth ffi rheoli ychwanegol (wedi'i hadennill drwy HB) i ddyraniad ymlaen llaw gan awdurdodau lleol. *Sut y rheolir hyn yng Nghymru?*
 - Llety â chymorth - goblygiadau 'bargen' y cap LHA; toriad rhent 1%. *Sut y*

rheolir hyn yng Nghymru?

- d. Sut y mae DHP yn cael eu defnyddio nawr/a ydynt yn lliniaru'r effeithiau yn eich ardal chi?
- e. Credyd Cynhwysol – effaith ei gyflwyno hyd yn hyn; y prif oblygiadau i ddigartrefedd os/pan gaiff ei gyflwyno'n llawn? (Holwch: taliadau uniongyrchol; taliad sengl, yn fisol mewn ôl-ddyledion; ceisiadau ar-lein; ymestyn sancsiynau, ac ati)
- f. Sancsiynau JSA/ESA – beth yw'r effeithiau (ar eich cleientiaid)? Lleihau/gwaethygu'n ddiweddar/dim llawer o newid? Pa wahaniaeth, os o gwbl, y mae'r trefniadau 'hawddfraint' yn ei wneud?

6. Camau dilynol

- Unrhyw ddata/tystiolaeth y gallant eu rhoi i ni?
- Unrhyw un arall penodol y maent yn argymhell ein bod yn siarad â hwy?

Atodiad 2 Arolwg awdurdodau lleol

Roedd yr holiadur a ddefnyddiwyd yn yr arolwg o awdurdodau lleol Cymru yn 2017 yn galw ar arolygon tebyg a gynhaliwyd gan dîm ymchwil Monitor Digartrefedd y Deyrnas Unedig fel sail i adroddiadau monitro ar gyfer Lloegr. Cynhaliwyd tri arolwg o'r fath o awdurdodau lleol Lloegr ers 2014, ond hwn yw'r arolwg cyntaf i gael ei gynnal yng Nghymru. Mae'r arolwg presennol hefyd yn cynnwys cwestiynau am y dyletswyddau digartrefedd newydd a roddwyd i awdurdodau lleol Cymru drwy Ddeddf Tai (Cymru) 2014, yn ogystal â chwestiynau eraill a ddatblygwyd yn benodol ar gyfer Cymru.

Cynhaliwyd arolwg Cymru yn y cyfnod Mawrth-Ebrill 2017. Anfonwyd e-bost at gysylltiadau yn yr awdurdodau lleol i gyflwyno'r ymchwil a'u gwahodd i gymryd rhan ar-lein. Ar ôl rhywfaint o waith dilynol, cafwyd ymateb gan 19 o'r 22 awdurdod (86%). Yr awdurdodau na atebodd oedd Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy a Rhondda Cynon Taf.

Roedd y dadansoddiad yn cynnwys teipoleg o awdurdodau lleol, yn seiliedig yn bennaf ar eu dwysedd a'u patrwm anheddu. Mae'r dosbarthiad hwn, a gyhoeddwyd gan Ystadegau Cymru,¹⁶¹ yn grwpio'r 22 cyngor mewn pedwar categori fel a ganlyn:

- Gwledig – y naw awdurdod â dwysedd poblogaeth sy'n is na chyfartaledd Cymru – 140 o bobl i bob cilometr sgwâr: Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy.
- Y Cymoedd – y pum awdurdod yn ne Cymru i'r gogledd o'r llain arfordirol: Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent a Thorfaen.
- Trefol – Abertawe; Caerdydd a Chasnewydd.
- Eraill – Sir y Fflint, Wrecsam, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

Mae'r atodiad hwn yn crynhoi canlyniadau meintiol allweddol yr arolwg mewn tablau. Mae holl ganfyddiadau'r arolwg, gan gynnwys y data ansoddol a gynhyrchwyd o'r nifer mawr o atebion testun agored yn yr arolwg, wedi'u cynnwys ym mhrif gorff yr adroddiad.

¹⁶¹ Ystadegau Cymru (2008) Ffocws Ystadegol ar Gymru Wledig. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2008/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf>

Tabl 1 – A yw llif cyffredinol y bobl sy'n ceisio cymorth â digartrefedd gan eich awdurdod lleol wedi newid ers mis Ebrill 2015?

Math o awdurdod lleol	Mesur	Wedi cynyddu'n fawr	Wedi cynyddu ychydig bach	Eithaf sefydlog	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
Trefol	Na	1	2		3
Cymoedd	Na	3		1	4
Gwledig	Na	5	3		8
Arall	Na	1	2	1	4
Y cyfan	Na	10	7	2	19
	%	53	37	11	100

Tabl 2 – A yw'r newidiadau lles a roddwyd ar waith ers 2010 gan y Llywodraeth Glymblaid a'r Llywodraeth Geidwadol wedi effeithio ar niferoedd yr achosion o ddiartrefedd yn eich ardal?

Math o awdurdod lleol	Mesur	Mwy o ddiartrefedd	Dim llawer o effaith ar ddiartrefedd	Llai o ddiartrefedd	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
Trefol	Na	3	0	0	3
Cymoedd	Na	4	0	0	4
Gwledig	Na	5	2	0	7
Arall	Na	3	1	0	4
Y cyfan	Na	15	3	0	18
	%	83	17	0	100

Sylwer: Awdurdod lleol na wnaeth ymateb wedi'i hepgor

Tabl 3 – Y mesur diwygio lles yr ystyriwyd ei fod 'fwyaf arwyddocaol' o ran cyfrannu at gyfraddau digartrefedd uwch ar ôl 2010

Math o awdurdod lleol	Rhewi cyfraddau LHA am 4 mlynedd	Y dreth ystafell wely	Capiau LHA	Ymestyn SAR i gynnwys pobl sengl 25-34 oed	Sancsiynau JSA/ESA	Cyfanswm y cap budd-daliadau	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
Trefol	1			1	1		3
Cymoedd			2	2			4
Gwledig				4		1	5
Arall	1	1				1	3
Cyfanswm	2	1	2	7	1	2	15

Sylwer: Dim ond awdurdodau a oedd o'r farn bod diwygiadau lles ers 2010 wedi cyfrannu at gynnydd mewn digartrefedd sydd wedi'u cynnwys – gweler Tabl 2

Tabl 4 – Canfyddiadau awdurdodau lleol am effaith deddfwriaeth 2014

Gosodiad	Anghytuno	Niwtral	Cytuno
a) Nid yw'r Ddeddf wedi cael unrhyw effaith ar ein harferion o ran darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth ynglŷn â digartrefedd.	11	4	4
b) Mae'r Ddeddf wedi arwain at waith atal digartrefedd mwy effeithiol.	1	2	16
c) Mae cynyddu'r cyfnod yr ystyrir bod ymgeiswyr o dan fygythiad o ddiartrefedd i 56 diwrnod wedi gwella darpariaeth digartrefedd	1	4	14
d) Nid yw newid y prawf bwriadoldeb o ddyletswydd i bŵer wedi cael llawer o effaith ar ein gallu i gynnig cymorth mwy effeithiol i bobl ddiartref a phobl sy'n wynebu risg o fynd yn ddiartref.	5	3	11
e) Mae'r newidiadau i gysylltiadau lleol wedi galw am gymorth mwy effeithiol i bobl ddiartref a phobl sy'n wynebu risg o ddiartrefedd sydd heb gysylltiad lleol.	4	7	8
f) Mae'r Ddeddf wedi ein galluogi i ddefnyddio'r sector rhentu preifat yn fwy effeithiol i gyflawni dyletswyddau digartrefedd.	2	3	14
g) Nid yw'r Ddeddf wedi cael llawer o effaith ar ein cydweithio â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.	5	9	5
h) Mae'r Ddeddf wedi galluogi newid diwylliant at ddulliau sy'n canolbwyntio mwy ar unigolion.	0	1	18
i) Ar y cyfan, nid yw'r Ddeddf wedi cael llawer o effaith gadarnhaol ar ein hymateb i bobl ag angen cymorth â digartrefedd.	14	3	2

Tabl 5 – Canfyddiadau o effeithiau deddfwriaeth newydd ar grwpiau digartrefedd penodol

	Effeithiau buddiol cryf	Effeithiau buddiol ysgafn	Effeithiau niwtral	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
Pobl sy'n cysgu ar y stryd	3	3	13	19
Pobl sengl	9	6	4	19
Teuluoedd â phlant	6	8	5	19

Tabl 6 – Wrth gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd, pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi i...

	Hawdd iawn	Eithaf hawdd	Ddim yn anodd nac yn hawdd	Eithaf anodd	Anodd iawn	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
...defnyddio tenantiaethau cymdeithasol	2	2	7	7	1	19
...defnyddio tenantiaethau preifat	1	4	2	9	3	19
...defnyddio tai a rennir yn y sector rhentu cymdeithasol	0	0	0	2	17	19
...defnyddio tai a rennir yn y sector rhentu preifat	0	1	1	8	9	19

Tabl 7 – Wrth gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd, pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi i ganfod llety i'r mathau canlynol o aelwydydd...

	Hawdd iawn	Eithaf hawdd	Ddim yn anodd nac yn hawdd	Eithaf anodd	Anodd iawn	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
...teuluoedd mawr (3+ o blant)	0	2	1	9	7	19
...teuluoedd eraill â phlant	0	7	9	3	0	19
...pobl sengl 16 ac 17 mlwydd oed	0	0	2	6	11	19
...pobl sengl 18-21 mlwydd oed	0	0	1	8	10	19
...pobl sengl 22-24 mlwydd oed	0	0	0	11	8	19
...pobl sengl 25-34 mlwydd oed	0	0	1	8	10	19
...pobl sengl 35 oed a hŷn	0	1	5	7	6	19

Tabl 8 – Canfyddiadau o sut y mae cymorth arbenigol a/neu ddarpariaeth llety yn lleol wedi newid ers 2010

	Cynyddu	Aros yr un fath	Lleihau	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
Pobl sy'n cysgu ar y stryd	7 (37%)	12	0	19
Pobl sy'n gadael carchar	8 (42%)	8	3	19
Pobl sy'n gadael gofal	6 (33%)	12	0	18
Menywod	3 (18%)	14	0	17
Goroeswyr trais/cam-drin domestig	7 (37%)	11	1	19
Pobl ifanc (16-17)	10 (53%)	9	0	19
Pobl ifanc (18-24)	8 (42%)	11	0	19
Pobl â phroblemau iechyd meddwl	7 (39%)	9	2	18
Pobl â phroblemau â chyffuriau	8 (44%)	10	0	18
Pobl â phroblemau ag alcohol	8 (44%)	10	0	18

Sylwer: Awdurdodau lleol na wnaethant ymateb wedi'u hepgor

Tabl 9 – A ydych yn rhagweld y bydd yn mynd yn haws neu'n anoddach i chi gyflawni eich dyletswyddau digartrefedd i fathau penodol o aelwydydd dros y 2-3 mlynedd nesaf?

	Llawer haws	Ychydig yn haws	Dim newid	Ychydig yn anoddach	Llawer anoddach	Cyfanswm yr awdurdodau lleol
Teuluoedd mawr (3+ o blant)	1	1	5	4	8	19
Teuluoedd eraill â phlant	0	1	12	4	2	19
Pobl sengl 16 ac 17 mlwydd oed	0	0	2	3	14	19
Pobl sengl 18-21 mlwydd oed	0	0	1	3	15	19
Pobl sengl 22-24 mlwydd oed	0	0	2	3	14	19
Pobl sengl 25-34 mlwydd oed	0	0	2	3	14	19
Pobl sengl 35 + oed	0	0	5	6	8	19

Llyfryddiaeth

Beatty, C. a Fothergill, S. (2016) *Jobs, Welfare and Austerity: How the Destruction of Industrial Britain casts a Shadow over present-day Public Finances*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol, Prifysgol Hallam Sheffield

Beatty, C. a Fothergill, S. (2016) *The Uneven Impact of Welfare Reform*. Sheffield: Canolfan Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Rhanbarthol, Prifysgol Hallam Sheffield

Beatty, C., Cole, I., Powell, R., Kemp, P., Brewer, M., Emmerson, C., Hood, A. a Joyce, R. (2014) *Monitoring the Impact of Changes to the Local Housing Allowance System of Housing Benefit: Final Reports*. Llundain: DWP

Bibbings, J. (2017) 'Why is Rough Sleeping on the Rise in Wales?' *Blog Shelter Cymru*, 1af Chwefror: <https://sheltercymru.org.uk/why-is-rough-sleeping-on-the-rise-in-wales/>

Blue Alumni Limited (2014) *Evaluation of the Discretionary Assistance Fund: Main Report*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Bramley, B. a Fitzpatrick, S. (ar y gweill) 'The social distribution of homelessness in the UK: Who is most at risk?', *Housing Studies*

Canolfan Cyngor ar Bopeth (2015) *Cronfa Cymorth Dewisol*. Ar lein: Cyngor ar Bopeth Cymru. https://www.citizensadvice.org.uk/Global/Migrated_Documents/corporate/daf-briefing-final.pdf

Clarke, A. a Heywood, A. (2016) *Feasibility Study of the Prospect of Developing a Viable Housing Model for those entitled only to access the Shared Accommodation Rate*. <http://www.cchpr.landecon.cam.ac.uk/Projects/Start-Year/2016/Shared-Accommodation-Wales/Final-Report>

Clarke, A., Hill, L., Marshall, B., Monk, S., Pereira, I., Thomson, E., Whitehead, C., a Williams, P. (2014) *Evaluation of Removal of the Spare Room Subsidy: Interim Report*. Llundain: DWP

Clarke, A., Hill, L., Marshall, B., Monk, S., Pereira, I., Thomson, E., Whitehead, C., a Williams, P. (2015) *Evaluation of Removal of the Spare Room Subsidy: Final Report*. Llundain: DWP

Cartrefi Cymunedol Cymru (2017) *Cytundeb Tai rhwng Llywodraeth Cymru, CHC ac WLGA*. Cartrefi Cymunedol Cymru

Cyngor Benthycwyr Morgeisi (2013) 'Helping the bank of mum and dad', *CML News and Views*, 5ed Mehefin: <http://www.cml.org.uk/news/533/>

Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2017) 'Statutory Homelessness and Prevention and Relief live tables: Table 774 – Reason for Loss of last Settled Home' <https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/live-tables-on-homelessness>

DWP (2017) *Housing Benefit Caseload Statistics, May 2017*. Llundain: DWP

DWP (2012) *Universal Credit Impact Assessment* https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220177/universal-credit-wr2011-ia.pdf

DWP (2014) *Removal of the Spare Room Subsidy: Analysis of Changes in Numbers Subject to a Reduction in Housing Benefit Award*. Llundain: DWP

DWP (2014) *Use of Discretionary Housing Payments: Analysis of Annual Financial and Monitoring Returns from Local Authorities*. Llundain: DWP

DWP (2015) *Welfare Reform and Work Bill: Impact Assessment for the Benefit Cap*. Llundain: DWP

DWP (2016) *Benefit Cap: GB households capped to November 2016*. Llundain: DWP

DWP (2016) *Jobcentre areas where couples and families can claim Universal Credit - 8th December 2016*. Llundain: DWP

DWP (2016) *Use of Discretionary Housing Payments: Analysis of End of Year Returns from Local Authorities: April 2015 - March 2016*. Llundain: DWP

DWP (2017) *Universal Credit Statistics: Claims, Monthly Starts and People on Universal Credit up to 9 March 2017*. Llundain: DWP

Fitzpatrick, S. (2017) The Homelessness Reduction Act 2017: An Historic Step Forward for Single Homeless People, *blog I-SPHERE, 27ain Ebrill*: <https://i-sphere.org/2017/04/27/the-homelessness-reduction-act-2017-an-historic-step-forward-for-single-homeless-people/>

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G. a Wilcox, S. (2012) *The Homelessness Monitor: England 2012*. Llundain: Crisis

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2013) *The Homelessness Monitor: Wales 2012*. Llundain: Crisis

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2013) *The Homelessness Monitor: England 2013*. Llundain: Crisis

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: England 2015*. Llundain: Crisis

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2015) *The Homelessness Monitor: Wales 2015*. Llundain: Crisis

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. a Watts, B. (2017) *The Homelessness Monitor: England 2017*. Llundain: Crisis

Green, A., Elias, P., Hogarth, T., Holmans, A., McKnight, A. ac Owen, D. (1997) *Housing, Family and Working Lives*. Warwick: Y Ganolfan Ymchwil Cyflogaeth, Prifysgol Warwick

Helen, R. (2016). Diweddariad DAF Hydref 2016. Wedi'i gyrchu o http://chcymru.org.uk/uploads/events_attachments/DAF_update_October_2016.pdf

Hickman, P., Kemp, P.A., Reeve, K. a Wilson, I. (2017) 'The Impact of the Direct Payment of Housing Benefit: Evidence from Great Britain', *Housing Studies*, <http://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/02673037.2017.1301401>

Hickman, P., Reeve, K., Wilson, I., Green, S., Dayson, C. a Kemp, P. (2014) *Direct Payment Demonstration Projects: Key Findings of the Programme Evaluation*. Llundain: DWP

Hills, J., Smithies, R. a McKnight, A. (2006) *Tracking Income: How Working Families' Incomes Vary Through The Year*. Llundain: Canolfan Dadansoddi Eithrio Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain

Holmans, A. (2015) *Yr Angen a'r Galw am Dai yn y Dyfodol yng Nghymru*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru

Pwyllgorau Tŷ'r Cyffredin ar Gymunedau a Llywodraeth Leol a Gwaith a Phensiynau (2017) *Future of supported housing. First Joint Report of the Communities and Local Government and Work and Pensions Committees of Session 2016-17, Tŷ'r Cyffredin* <http://chcymru.org.uk/comms/CHC-Cartref/2017/03/17/universal-credit-a-tenants-perspective/>

Ipsos MORI (2014) *Impact of Welfare Reforms on Housing Associations: Early Effects and Responses by Landlords and Tenants*. <https://www.ipsos.com/sites/default/files/publication/1970-01/sri-housing-nhf-welfare-reform-2014.pdf>

Mackie, P., Thomas, I. a Bibbings, J. (2017) 'Homelessness Prevention: Reflecting on a Year of Pioneering Welsh Legislation in Practice', *European Journal of Homelessness*, 11(1): 81-107.

Mackie, P. (2014) 'The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance?', *Contemporary Wales*, 27(1): 1-2

Mackie, P. (2015) 'Homelessness Prevention and the Welsh Legal Duty: Lessons for International Policies', *Housing Studies*, 30(1): 40-59

Mackie, P., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012) *Opsiynau ar gyfer Gwell Fframwaith Deddfwriaethol i Ddigartrefedd yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Marrin, K., Hudson, H., Miller, N., Smith, M. a Bibbings, J. (2014) Adolygiad Annibynnol o Flwyddyn Pontio'r Rhaglen Cefnogi Pobl: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/independent-review-supporting-people-transition-year/?lang=en>

Merrick, N. (2012) 'Councils underspend payments for struggling households by £8 million', *Guardian Professional*, 25ain Mehefin: <http://www.theguardian.com/housing-network/2012/jun/25/discretionary-housing-payments-underspend>

Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (2015) *Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Dlodi ac Anghydraddoldeb*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld10378/gen-ld10378-e.pdf>

Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015). *Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: Tlodi ac Anghydraddoldeb*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10252/cr-ld10252-e.pdf>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2013) *Universal Credit: Early Progress*. <http://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2013/09/10132-001-Universal-credit.pdf>

Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2014) *Universal Credit: Progress Update*. <http://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/Universal-Credit-progress-update.pdf>

Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2015) *Economic and fiscal outlook, March 2015*. Llundain: Y Llyfrfa

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Annual Survey of Hours and Earnings, 2016 Results*. Llundain: ONS

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2016) *Regional Gross Disposable Household Income 1997 to 2014*. Llundain: ONS

Pawson, H. a Wilcox, S. (2011) *UK Housing Review Briefing Paper*. Coventry: CIH

Peaker, G. (2016) *With and Without Foundation – Bedroom Tax in Supreme Court*, gwefan Nearly Legal <https://nearlylegal.co.uk/2016/11/without-foundation-bedroom-tax-supreme-court/>

Protheroe, A., Mudd, J. a Fury, M. (2017) *The Experience of Universal Credit: A Tenants' Perspective* <http://chcymru.org.uk/comms/CHC-Cartref/2017/03/17/universal-credit-a-tenants-perspective/>

Reeve, K., Cole, I., Batty, B., Foden, M., Green, S. a Pattison, B. (2016) *Home: No Less Will Do: Homeless People's Access to the Private Rented Sector*, Prifysgol Hallam Sheffield, Crisis https://www.crisis.org.uk/media/237166/home_no_less_will_do_crisis.pdf

Shelter Cymru (2015) *A Brand New Start: Homelessness and the Housing (Wales) Act*. Caerdydd: Shelter Cymru

Shelter Cymru (2016) *Reasonable Steps: Experiences of Homelessness Services Under the Housing (Wales) Act 2014*. Caerdydd: Shelter Cymru

Ystadegau Cymru (2008) Ffocws Ystadegol ar Gymru Wledig. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2008/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf>

Ystadegau Cymru (2009) Cyfrif Cenedlaethol y Llywodraeth o Bobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Cymru 2007 a 2008. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2009/090917roughsleep2007en.pdf>

Ystadegau Cymru (2017) *Tai gwag, gosod ac ôl-ddyledion rhent mewn tai cymdeithasol, 2015-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/social-housing-vacancies-lettings-arrears/?lang=en>

Stirling, T. (2015) *Evaluating the Contribution the Supporting People Programme makes to Preventing and Tackling Homelessness in Wales - Feasibility Study*. Caerdydd: PPIW

Thomas, M. (1983) *The Homeless in Brent and Lewisham*. Llundain: Cyngor Llundain Fwyaf

Tinson, A., Ayrton, C., Barker, K., Born, B., Aldridge, H. a Kenway, P. (2016) *Monitoring Poverty and Social exclusion 2016*. Caerfrog: JRF

Prosiect Wallich (2017) Ystadegau Cysgu ar y Stryd <https://thewallich.com/rough-sleepers-statistics/>

Llywodraeth Cymru (2011) *Mesur Tai (Cymru) 2011*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/publications/measure2011/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2012) *Cartrefi i Gymru. Papur Gwyn ar gyfer Bywyd Gwell a Chymunedau Gwell*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/docs/desh/consultation/120521whitepaperen.pdf>

Llywodraeth Cymru (2012) *Canllawiau Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/desh/publications/130607sppgrantguideen.pdf>

Llywodraeth Cymru (2013) *Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://new.wales.gov.uk/topics/housingandcommunity/housing/supportingpeople/rcc/?skip=1&lang=en>

Llywodraeth Cymru (2015) *Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2015) *Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion. Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/desh/consultation/150501-code-of-guidance-to-la-consultation-summary-of-responses-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015) *Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/homelessness/national-pathway/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2016) *Darpariaeth Tai Fforddiadwy yng Nghymru, 2015/16. Ystadegau Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2016) *Cod Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd 2016*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/managing-social-housing/allocate/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2016) *Cronfa Cymorth Dewisol Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/debt/discretionary-assistance-fund/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2016) *Digartrefedd yng Nghymru, 2015-16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/statistics-and-research/homelessness/?lang=en>

Llywodraeth Cymru (2016) *Achosion Meddiannu ar gyfer Morgeisi a Landlordiaid a gymerwyd yn Llysoedd Sirol Cymru, 2015/16*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2016) *Rhenti Sector Preifat yng Nghymru, 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2016) *Y Gronfa Cymorth Dewisol: Canllawiau i Benderfynwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Wedi'i gyrchu o <https://moneymadeclear.wales/wp-content/uploads/DAF-Guidance-March-2016-v3.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Tachwedd 2016 – Ystadegau Arbrolol*; Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/statistics/2017/170201-national-rough-sleeper-count-november-2016-experimental-statistics-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2017) *Amcanestyniadau Aelwydydd Awdurdodau Lleol y Deyrnas Unedig (seiliedig ar 2014)*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (heb ei gyhoeddi, 2015) *Cyfrif Cenedlaethol Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd, Cymru, Tachwedd 2014*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru (2017) *Treth Trafodiadau Tir, 24 Mai 2017*. Gwefan Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/funding/fiscal-reform/welsh-taxes/land-transaction-tax/?lang=en>

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2017), *Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig* <http://senedd.assembly.wales/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=17260>

Whitehead, C., Wilcox, S. a Williams, P. (ar y gweill), *The Vanishing Safety Net for Home Owners (Provisional Title)*. Y Cyngor Benthycwyr Morgeisi.

Wilcox, S. a Williams, P. (2009) 'The Emerging New Order', yn *UK Housing Review 2009/2010*. Coventry: CIH

Wilcox, S. (2000) *Housing Finance Review 2000/01*. Coventry a Llundain: CIH a CML

Wilcox, S. (2014) *Housing Benefit Size Criteria: Impacts for Social Sector Tenants and Options for Reform*. Caerfrog: JRF

Wilcox, S. (2017) *A Financial Evaluation of the Right to Buy, yn UK Housing Review 2006/07*. Coventry: CIH

Wilcox, S., Perry, J. a Williams, P. (2015) *UK Housing Review*. Coventry: CIH

Wilson, W., Keen, R. a Barton, C. (2017) *Housing Cost Element of Universal Credit: Withdrawing Entitlement from 18-21 Year Olds*. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Rhif 06473, 10 Ebrill 2017

Prif swyddfa Crisis

66 Commercial Street
Llundain E1 6LT
Ffôn: 0300 636 1967
Ffacs: 0300 636 2012
enquiries@crisis.org.uk
www.crisis.org.uk

Hawlfraint Crisis 2017
ISBN 978-1-78519-046-9

Crisis UK (yn masnachu fel Crisis).
Rhifau Cofrestru'r Elusen:
E&W1082947, SC040094.
Rhif y Cwmni: 4024938



**Gyda'n gilydd
byddwn yn
rhoi terfyn ar
ddigartrefedd**